

Person Perthnasol	Ymchwiliad	Dyddiad rhoi hysbysiad penderfynu	Canfyddiadau a dyfarniad y Comisiynydd
<u>Coleg Caerdydd a'r Fro</u>	<p><u>CS084</u>: Mae arolygon gwirio diweddar fy swyddogion o dudalennau recriwtio ar wefan Coleg Caerdydd a'r Fro wedi codi amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae'n ymddangos bod rhannau o hysbysiadau swyddi perthnasol a geir ar wefan y Coleg yn cynnwys geirfa Saesneg yn unig ar eu tudalen Gymraeg. Ymadroddion megis "Reference", "Expiry date", "location", "salary" a "benefits". Ymddengys bod hysbysebion swyddi'r Coleg ar lein yn amlygu mai trwy gyfrwng y Saesneg yn unig mae opsiwn i ymgeisydd gyflwyno gwybodaeth gychwynnol amdanynt wrth ymgeisio am swyddi ar ôl pwyso'r botwm 'apply now' ar wefan y Coleg. Ymddengys bod y coleg yn defnyddio meddalwedd 'vacancy filler' at y diben hwn, ac nad yw'n rhoi opsiwn Cymraeg i ymgeiswyr. Ceir ansicrwydd ynghylch a oedd ffurflenni cais y Coleg yn cynnwys gwybodaeth</p>	31/03/2022	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b></p> <p><u>Safon 145A</u>: Mae safon 145A yn gofyn i gorff, pan fydd yn categoreiddio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid iddo bennu hynny wrth hysbysebu'r swydd a hysbysebu'r swydd yn Gymraeg.</p> <p>Gwnaeth arolygon gwirio diweddar fy swyddogion, o dudalennau recriwtio ar wefan Coleg Caerdydd a'r Fro amlygu bod rhannau o hysbysiadau swyddi perthnasol a geir ar wefan y Coleg yn cynnwys geirfa Saesneg yn unig ar eu tudalen Gymraeg. Ymadroddion megis "Reference", "Expiry date", "location", "salary" a "benefits". Mae hyn yn dangos methiant gan y Coleg i gydymffurfio â gofynion safon 145A.</p> <p><u>Safon 146A</u>: Os yw corff yn cyhoeddi'r canlynol, rhaid iddo eu cyhoeddi yn Gymraeg:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ffurflenni cais am swyddi</li> <li>• deunydd esboniadol ynghylch ei broses ar gyfer ymgeisio am swyddi</li> <li>• gwybodaeth am y broses gyfsweld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi, neu</li> <li>• swydd-ddisgrifiadau.</li> </ul> <p>Rhaid iddo hefyd sicrhau na chaiff unrhyw fersiynau Cymraeg o'r dogfennau eu trin yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonynt.</p>

ynghylch cyfle i nodi os hoffai ymgeiswyr gael cyfweiliad / asesiad yn Gymraeg. Mae'r amgylchiadau'n creu amheuaeth o fethiant gan y Coleg i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

Cyhoeddodd y Coleg ffurflenni cais am swydd ar ei wefan gyda'r dudalen gychwynnol ar gael yn Saesneg yn unig. Mae hyn yn dangos methiant gan y Coleg i gydymffurfio â gofynion safon 146A.

Safon 148: Mae safon 148 yn gofyn i gorff sicrhau bod ei ffurflenni cais am swyddi yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad neu ddull arall o asesiad, ac yn esbonio y bydd y corff yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os bydd angen.

Nid yw ffurflenni cais am swydd Coleg Caerdydd a'r Fro yn amlygu bod gwahoddiad i bersonau nodi os ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad, ac yn nodi y byddir yn darparu ar gyfer hynny. Mae hyn yn dangos methiant y Coleg i gydymffurfio â safon 148.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 71 Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Coleg Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safonau 145A, 146A a 148.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Coleg Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safonau 145A, 146A a 148.

Safon 145A: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Goleg Caerdydd a'r Fro sicrhau bod pob elfen o'i hysbysiadau swyddi yn cydymffurfio â safon 145A.

2. Rhaid i Goleg Caerdydd a'r Fro ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 146A: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

3. Rhaid i Goleg Caerdydd a'r Fro sicrhau bod pob ffurflen gais yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg, ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â gofynion safon 146A.

4. Rhaid i Goleg Caerdydd a'r Fro ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 148: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

5. Rhaid i Goleg Caerdydd a'r Fro sicrhau bod pob ffurflen gais yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad neu mewn asesiad, ac yn esbonio y bydd gwasanaeth cyfieithu yn cael ei ddarparu os oes angen.

6. Rhaid i Goleg Caerdydd a'r Fro ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 5.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Coleg Caerdydd a'r Fro ar 31/03/2022.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 119: Mae'r safon yn gosod dyletswydd ar Goleg Gwent i ganiatáu i aelodau o staff wneud cwyn iddo yn Gymraeg ac i ymateb i gwynion amdanynt yn Gymraeg.

Mae polisi cwynion cyflogaeth y Coleg yn cynnwys datganiad clir bod hawl gan aelodau staff i gyflwyno cwyn i'r Coleg yn Gymraeg. Mae gan y Coleg hefyd drefniadau mewn lle i ddelio â chwyn gan aelod o staff trwy gyfrwng y Gymraeg. Casglaf felly nad oes amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safon 119.

Safon 119A: Mae safon 119A yn gosod dyletswydd ar Goleg Gwent i ddatgan yn ei ddogfennau sydd yn nodi ei weithdrefnau cwynion, bod hawl gan aelodau staff i gyflwyno cwyn ac i ymateb i gwyn yn Gymraeg. Mae'r safon hefyd yn rhoi dyletswydd ychwanegol ar y Coleg i roi gwybod i aelodau staff am eu hawl i gyflwyno cwyn yn Gymraeg.

Mae'r achwynydd yn honni nad oedd y Coleg wedi rhoi gwybod iddi am yr hawl i gyflwyno ei chwyn, a dilyn y broses gwynion trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw'r Coleg wedi cyflwyno tystiolaeth ei fod wedi rhoi gwybod i'r achwynydd am ei hawl i gyflwyno cwyn yn Gymraeg, nac

CS072 Ar 29 Gorffennaf 2021 derbyniais gwyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn honni na chafodd gynnig defnyddio'r Gymraeg fel rhan o broses gwynion Coleg Gwent yn dilyn iddi gyflwyno cwyn fel aelod o staff.

31/03/2022

Coleg Gwent

wedi cadarnhau ei fod wedi gwirio dewis iaith yr achwynydd yn ystod y broses gwynion. Casglaf nad yw cynnwys datganiad yn ei bolisi cwynion cyflogaeth yn unig yn ddigonol i sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion safon 119A yn llawn.

Safon 121: Mae safon 121 yn ei gwneud yn ofynnol ar y Coleg, pan fo'n derbyn cwyn gan aelod o staff, i ofyn i'r aelod o staff hwnnw a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.

Mae'r Coleg wedi cadarnhau bod yr holl broses o ddelio â chŵyn yr achwynydd wedi digwydd trwy gyfrwng y Saesneg yn sgil y ffaith bod yr aelod staff wedi cyflwyno ei chŵyn yn Saesneg i'r Coleg. Ni chyflwynwyd tystiolaeth bod y Coleg wedi gofyn i'r aelod o staff am ei dewis iaith. Casglaf bod Safon 121 yn berthnasol waeth beth fo iaith y gŵyn a gyflwynwyd i'r Coleg, ac felly bod y Coleg wedi methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd i ofyn i'r aelod os staff am ei dewis iaith yn y cyfarfodydd i drafod ei chŵyn.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 71 Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Coleg Gwent wedi methu â chydymffurfio â safonau 119A a 121. Dyfarnodd nad oedd Coleg Gwent wedi methu â chydymffurfio â safon 119.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Coleg Gwent wedi methu â chydymffurfio â safonau 119A a 121.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 119A: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Goleg Gwent fabwysiadu dull rhagweithiol i roi gwybod i aelodau o staff am eu hawl i gyflwyno cwyn, ac ymateb i gŵyn, yn Gymraeg ar gychwyn y broses gwynion.
2. Rhaid i Goleg Gwent sicrhau bod pob dogfen sydd yn gysylltiedig â'r broses gwynion, yn cynnwys datganiad yn cyfeirio at hawl aelodau staff i gyflwyno cwyn, ac ymateb i gŵyn yn Gymraeg.
3. Rhaid i Goleg Gwent roi mesurau cadarn mewn lle i sicrhau bod pob aelod o staff sydd yn cyflwyno cwyn i'r Coleg yn cael y cynnig i ddilyn y broses trwy gyfrwng y Gymraeg.

Safon 121: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

4. Rhaid i Goleg Gwent ofyn i bob aelod o staff sydd yn cyflwyno cwyn iddo, a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn unrhyw gyfarfod a gynhelir i drafod y gŵyn honno.
  5. Rhaid i Goleg Gwent ofyn i bob aelod o staff sydd yn cyflwyno cwyn iddo, cyn trefnu unrhyw gyfarfod i drafod y gŵyn, a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod hwnnw. Lle bo'r aelod staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid i Goleg Gwent roi trefniadau mewn lle i alluogi hynny.
  6. Rhaid i Goleg Gwent ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-5.
- Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Cyngor  
Caerdydd

CS089: Ar 05/10/2021 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Derbyniais gŵyn am ohebiaeth uniaith Saesneg a anfonwyd at blentyn yr achwynydd gan Wasanaeth leuenctid Cyngor Caerdydd yn hyrwyddo digwyddiadau a chysiau busnes gyda 'Rebels Business School' yn ystod mis Tachwedd 2021.

23/03/2022

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Coleg Gwent ar 31/03/2022.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 4: Mae safon 4 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff anfon unrhyw ohebiaeth sy'n mynd at nifer o bersonau yn ddwyieithog, beth bynnag fo dewis iaith y cwsmer. Yn yr achos yma, mae mab yr achwynydd wedi derbyn llythyr uniaith Saesneg yn unig gan Wasanaeth leuenctid Cyngor Caerdydd yn ymwneud â chysiau hyfforddi gan 'Rebels Business School' mewn cydweithrediad â Gwasanaeth leuenctid y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cydnabod mai camgymeriad gweinyddol a wnaed gan unigolyn oedd hwn. Nid yw hyn mewn gwirionedd yn effeithio fy nyfarniad gan y dylai'r Cyngor gael gweithdrefn gadarn i sicrhau cydymffurfiaeth a safon 4 wrth ddanfon gohebiaeth at nifer o bersonau ac i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Safon. Mae'r Cyngor felly wedi methu cydymffurfio â safon 4.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 71 Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 4.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 4.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 4: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw ohebiaeth sy'n mynd at nifer o bersonau yn cael ei anfon yn Gymraeg, a hynny ar yr un pryd ag y mae'n anfon unrhyw fersiwn Saesneg. Mae hyn yn wir beth bynnag yw dewis iaith y rhai a ohebir atynt.
2. Rhaid i'r Cyngor addasu ei ganllawiau er mwyn sicrhau bod gofynion safon 4 yn cael ei egluro'n llawn i staff y Cyngor a bod gofynion y safon yn cael ei deall yn llwyr gan staff y Cyngor. Rhaid i'r canllawiau egluro'r canlynol:
  - i. Pa fath o ohebiaeth sy'n cael ei ystyried fel gohebiaeth sy'n mynd at 'nifer o bersonau'.
  - ii. Y camau sy'n rhaid eu cymryd wrth ohebu â 'nifer o bersonau'.
3. Wrth ymdrin ag unrhyw system newydd wrth ohebu, boed yn electroneg neu ar bapur, â 'nifer o bersonau', rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y modd a'r drefn ohebir gyda dinasyddion yn cydymffurfio gyda gofynion safon 4 ar bob achlysur.
4. Rhaid i'r Cyngor dynnu sylw'r staff a rheolwyr llinell o fewn adrannau perthnasol y Cyngor sy'n danfon gohebiaeth at nifer o bobl at y newidiadau yma i'r canllawiau.



5. Rhaid i Cyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 – 4. Amserlen: O fewn pedair wythnos o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 23/03/2022.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CS065: Ar 01/07/2021 am 9.35 yb, ffoniodd yr achwynydd Heddlu Dyfed Powys. Honnai iddo ddewis yr opsiwn Cymraeg a gorfod aros am beth amser cyn derbyn ymateb, yn Saesneg. Wedi i'r alwad gael ei hateb, teimlai fod agwedd yr Heddlu'n haerllug a gofynnwyd iddo "oes gyda chi rywbeth i'w riportio neu chi ishie gwastraffu mwy o amser yn achwyn am y Gymraeg wenglish fi'n siarad".

21/03/2022

Ar 21/07/2021, ffoniodd yr achwynydd yr Heddlu am 1.00yb gan ddewis yr opsiwn Gymraeg. Atebwyd yr alwad yn Saesneg. Fe ddywedodd yr Heddwes ei bod hi'n siarad Cymraeg ac fe drodd y sgwrs i'r Gymraeg yn dilyn hynny.

Prif Gwnstabl  
Heddlu Dyfed  
Powys

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 8: Mae safon 8 yn gofyn i'r corff gyfarch person yn Gymraeg pan fydd y person hwnnw'n cysylltu gyda'r corff ar un o'i rifau ffôn perthnasol.

Ffoniodd yr achwynydd Heddlu Dyfed Powys ar 1 Gorffennaf 2021 a'r 22 Gorffennaf 2021 gan ddewis yr opsiwn Cymraeg. Derbyniodd y cyfarchiad canlynol ar y ddau achlysur: "*Heddlu Dyfed Powys Police, how can I help you?*". Mae hyn yn dangos methiant gan Heddlu Dyfed Powys i gydymffurfio â safon 8

Safon 9: Mae'r safon yn disgwyl i gorff roi gwybod i bersonau sy'n ffonio bod gwasanaeth Cymraeg ar gael. Pan fydd galwr yn ffonio'r rhif 101, derbynnir neges awtomataidd ddwyieithog. Mae'r opsiwn yn rhoi cyfle i'r galwr ddewis gwasanaeth Cymraeg o'r cychwyn cyntaf. Casglaf bod hyn yn cyd-fynd â gofynion safon 9.

Safon 11: Os yw person yn cysylltu â'r corff ar un o'i rifau ffôn perthnasol, rhaid i'r corff ddelio â'r alwad yn Gymraeg

Ar 23/07/2021 derbyniodd yr achwynydd alwad ffôn gan yr Heddlu o'u swyddfa yn Aberystwyth am 12.11pm. Saesneg oedd iaith y galwr. Honnai'r achwynydd iddo egluro ei fod wedi derbyn gwasanaeth Cymraeg gan yr Heddlu drwy'r wythnos a gofynnodd am wasanaeth yn Gymraeg ar yr achlysur hwn. Eglurwyd wrtho nad oedd neb ar gael, ac efallai y byddai rhywun ar gael i gysylltu nol nes ymlaen. Honnai'r achwynydd iddo fynnu gwasanaeth Cymraeg, a chlywodd y person wnaeth yr alwad yn troi at gyd-weithwyr gan weiddi "does anybody here speak Welsh?". Clywodd yr achwynydd chwerthin yn y cefndir. Doedd neb ar gael i ddelio gyda'r alwad yn Gymraeg pan ffoniodd yr achwynydd. Fe ffoniodd Yr Heddlu yr achwynydd yn ôl yn y Gymraeg ar ôl iddo fynnu. Roedd yr Heddlu yn awyddus i'r achwynydd siarad â Swyddog Cymunedol Cynorthwyol yr Heddlu (PCSO) yn Aberystwyth ond doedd dim un yn medru siarad Cymraeg.

unwaith y mae'n gwybod bod y person yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn, gan drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r pwnc penodol yn Gymraeg os yw hynny'n angenrheidiol.

Mae tystiolaeth yr Heddlu, ar ffurf recordiad o'r galwadau, yn dangos yr ymdriniwyd â galwadau'r achwynydd yn Gymraeg.5 Mae hyn yn cwrdd â gofynion safon 11.

Safon 17: Pan nad oes gwasanaeth Cymraeg ar gael ar un o rifau ffôn perthnasol y corff, rhaid iddo roi gwybod i'r person sy'n galw, yn Gymraeg, pryd bydd y gwasanaeth Cymraeg ar gael.

Wrth ffonio'r rhif 101, bydd y galwr yn derbyn neges awtomataidd dwyieithog yn rhoi cyfle i'r galwr ddewis gwasanaeth Cymraeg, cyn eu dargyfeirio at driniwr galwadau sy'n siarad Cymraeg. Pan na fydd person ar gael i ddelio â galwad yn Gymraeg ac nad yw'r alwad yn argyfwng, eglurodd yr Heddlu yr hysbysir y galwr o hyn a byddir yn ceisio dod o hyd i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg. Os nad oes cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg ar gael, cynigir galwad yn ôl pan fydd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael. Mae hyn yn unol â gofynion safon 17.

Safon 21: Pan fydd corff yn ffonio unigolyn am y tro cyntaf, rhaid iddo ofyn i'r unigolyn a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrtho yn Gymraeg. Os mai dyna yw dymuniad yr unigolyn, rhaid iddo gynnal galwadau ffôn gyda'r unigolyn hwnnw o hynny ymlaen yn Gymraeg.

Derbyniodd yr achwynydd alwad ffôn gan Heddlu Dyfed Powys ar 23 Gorffennaf 2021. Ni ofynnwyd os oedd yn dymuno galwad yn Gymraeg. Saesneg oedd iaith y galwr. Roedd yr alwad ffôn a wnaed gan yr Heddlu yn dilyn cyfres

o alwadau gan yr achwynydd i'r Heddlu yn Gymraeg. Casglaf nad oedd cofnod wedi ei gadw o ddewis iaith yr achwynydd. Mae hyn yn dangos methiant gan Heddlu Dyfed Powys i gydymffurfio â gofynion safon 21.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 71 Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys wedi methu â chydymffurfio â safonau 8 a 21. Dyfarnodd nad oedd Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys wedi methu â chydymffurfio â safonau 9, 11 ac 17.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys wedi methu â chydymffurfio â safon 8 a 21.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 8: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Heddlu Dyfed Powys lunio canllaw ar gyfer staff sydd yn ateb galwadau ffôn ar y llinell Gymraeg a'i rannu gyda'r holl staff perthnasol. Rhaid i'r canllaw gynnwys arweiniad ynghylch sut i gyfarch personau ar y linell Gymraeg yn unol â gofynion y safonau, a sut i ddelio gydag ymholiadau ffôn yn Gymraeg.

2. Rhaid i'r cyfarchiad yn dilyn dewis yr opsiwn Gymraeg, nodi'n eglur: "Heddlu Dyfed Powys, sut allai eich helpu?",

neu “Heddlu Dyfed Powys Police, sut allai eich helpu / how can I help you?”

3. Rhaid i Heddlu Dyfed Powys gynnal sesiynau rheolaidd i atgoffa staff o ofynion y safonau sydd wedi eu gosod arno.

4. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1, 2 a 3. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

Safon 21: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

5. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys gadw cofnod o ddewis iaith pob person y mae’n ei ffonio.

6. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys atgoffa staff i wirio system yr Heddlu am ddewis iaith pob person cyn y bydd yn eu ffonio er mwyn sicrhau bod pob galwad at y person hwnnw’n unol â’u dewis iaith.

7. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 5 a 6. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys ar 21/03/2022.

## Apelau a wnaed i'r tribiwnlys

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CS060: Ar 15/06/2021 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnodd yr achwynydd iddo dderbyn neges destun yn Saesneg yn unig gan Gyngor Caerdydd (Cyngor) ar 15/05/2021: "This is an important message from Cardiff Council regarding your council tax payments. Click here <https://cardiffcouncil.co.uk/t/bg1ut1dcf07> for further information. Please do not ignore this message". Dywedodd yr achwynydd wrth gyflwyno ei gwyn: "nid ydw i wedi gofyn am gyfathrebiad uniaith Saesneg trwy SMS nac unrhyw ffurf arall." Honnodd yr achwynydd bod y ddolen yn y neges destun yn arwain at dudalen gwefan Saesneg ar y parth [cardiffcouncil.co.uk](https://cardiffcouncil.co.uk). Ar y dudalen hon, teclyn 'Google Cyfieuthu' oedd yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno gwybodaeth Gymraeg.

09/03/2022

## Canfyddiadau'r Comisiynydd

Safon 5: Mae safon 5 yn ei wneud yn ofynnol i gorff, os nad yw corff yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrtho yn Gymraeg, ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth wrth ohebu â'r person hwnnw. Yn yr achos yma, derbyniodd yr achwynydd neges destun uniaith Saesneg gan y Cyngor er nad oedd gan y Cyngor unrhyw gofnod nad oedd yr achwynydd eisiau derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 5 gan nad oedd y corff yn gwybod os oedd yr achwynydd yn dymuno cael gohebiaeth Gymraeg.

## Dyfarniad y Comisiynydd

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 5

## Datganiad gweithredu pellach

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 5.

## Datganiad ar y gweithredu pellach

1. Rhaid i Gyngor Caerdydd gynnal adolygiad llawn o'u prosesau cofnodi iaith i wella profiad defnyddwyr Cymraeg.
2. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu cyfarwyddiadau pellach i'w holl staff am ofynion y safonau gohebiaeth i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r safonau.

Cyngor  
Caerdydd

3. Os ydi Gwasanaeth Refeniw y Cyngor yn gyrru gohebiaeth Saesneg yn unig, yn ogystal â datganiad yn unol â safon 7, dylai'r ohebiaeth nodi:
- fod yr ohebiaeth wedi ei yrru yn Saesneg yn unig gan fod gan y Cyngor gofnod nad ydi'r derbynnydd eisiau derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg.
  - manylion cyswllt i gysylltu gyda'r Cyngor os nad oedd y cofnod hwnnw yn gywir.
4. Rhaid i Gyngor Caerdydd gynnal adolygiad llawn o'r modd y maent yn sicrhau bod trydydd parti sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar ran Gwasanaeth Refeniw y Cyngor yn eu galluogi i gydymffurfio â'r safonau.
5. Rhaid i Gyngor Caerdydd gynnal yr adolygiad er mwyn ei alluogi i adnabod dull o bennu gofynion yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg ar bartïon sy'n darparu gwasanaethau ar eu rhan, a fydd yn sicrhau y bydd Gwasanaeth Refeniw y Cyngor yn cydymffurfio â'r safonau.
6. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 5.
- Amserlen: O fewn tri mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 09/03/2022.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Betsi  
Cadwaladr

CS030 Ar 30/03/2021 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Cysylltodd yr achwynydd gyda'r Comisiynydd ar ôl cael brechlyn COVID-19 yn y Ganolfan Frechu Torfol yn Ysbyty Enfys Llandudno ar 22/03/2021. Honnodd yr achwynydd bod y daflen wybodaeth 'Hysbysiad i Gleifion' yn cael ei dosbarthu yn Saesneg yn unig. Ar 13/06/2021 fe ymwelodd yr achwynydd â'r ganolfan unwaith eto a darparodd luniau o bedwar arwydd dros dro yn y ganolfan. Roedd tri o'r arwyddion hyn yn Saesneg yn unig, neu'n bennaf ac un arwydd arall yn ddwyieithog ond roedd yr arwydd yn ymddangos fel bod y Gymraeg wedi ei ychwanegu ac nid oedd y testun Cymraeg mor daclus â'r testun Saesneg.

09/03/2022

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 37: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 37 yn yr achos yma roedd angen i'r bwrdd iechyd roi'r fersiwn Gymraeg o'r daflen 'Hysbysiad i Gleifion' i'r achwynydd gan bod Llywodraeth Cymru wedi darparu'r daflen yn Gymraeg er mwyn cydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg.

Cysylltodd yr achwynydd gyda mi ar ôl derbyn fersiwn Saesneg yn unig o'r ddogfen 'Hysbysiad i Gleifion' ar y ffordd i mewn i'r ganolfan frechu yn Venue Cymru, Llandudno. Fe wnaeth y bwrdd iechyd gadarnhau mai Llywodraeth Cymru ac nid y bwrdd iechyd oedd yn gyfrifol am lunio'r ddogfen a bod y ddogfen wedi ei llunio yn ddwyieithog gan y Llywodraeth. Yn unol â Rheoliadau Rhif 7 Safonau'r Gymraeg roedd angen i'r bwrdd iechyd ddosbarthu'r fersiwn Gymraeg o'r ddogfen os oedd y ddogfen wedi ei llunio yn Gymraeg gan sefydliad arall wedi llunio'r testun yn Gymraeg yn unol â dyletswydd i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Gan bod y bwrdd iechyd wedi dosbarthu taflen oedd ar gael yn ddwyieithog gan y Llywodraeth yn Saesneg yn unig, rwy'n dyfarnu fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu â chydymffurfio â safon 37.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu â chydymffurfio â safon 37.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu â chydymffurfio â safon 37.

			<p><b>Datganiad ar y gweithredu pellach</b></p> <p>1. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr addasu unrhyw hyfforddiant neu ganllawiau i staff sy'n trafod llunio neu ddsbarthu dogfennau i'r cyhoedd i gynnwys yr angen i ddarparu fersiwn Gymraeg o ddogfennau sydd wedi eu cynhyrchu yn Gymraeg gan sefydliad arall sydd wedi ei lunio yn Gymraeg yn unol â dyletswydd i gydymffurfio â'r amodau yn Rheoliadau Rhif 7, Atodlen 1, Rhan 3 Paragraff 28. 2. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr atgoffa staff yn y canolfannau brechu i ddsbarthu fersiwn Gymraeg o unrhyw ddogfennau sydd ar gael yn Gymraeg. Amserlen: O fewn mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b></p> <p>Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 09/03/2022.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b></p> <p>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><a href="#">Gweinidogion Cymru</a></p>	<p>CSG810b Ar 26 Tachwedd 2020 derbynias gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn honni nad oedd yn bosib archebu prawf COVID-19 trwy gyfrwng y Gymraeg ar wefan <a href="http://www.gov.uk">www.gov.uk</a>. Honnai'r achwynydd hefyd iddo dderbyn taflen</p>	<p>11/03/2022</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b></p> <p>Safon 40: Ym mis Tachwedd 2020, derbyniodd yr achwynydd becyn prawf COVID-19 gyda thaflen wybodaeth oedd yn Saesneg yn unig. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod nad oedd y daflen wybodaeth ar gael yn Gymraeg ar adeg y derbyniodd yr achwynydd ei becyn profi. Dywed mai'r rheswm am hyn yw bod AIGC Llywodraeth y DU yn gyfrifol am lunio a ddsbarthu'r pecynnau profi ar ran Gweinidogion Cymru. Yn sgil yr angen i weithredu ar frys ac ar lefel Brydeinig, lluniwyd y</p>



wybodaeth Saesneg yn unig gyda'r pecyn profi COVID-19 gartref. Mae lluniau o'r daflen i'w gweld yn atodiad 1 yr adroddiad hwn. Ar 28 Gorffennaf 2021 derbyniais gŵyn gan aelod arall o'r cyhoedd yn honni nad oedd yn bosib archebu prawf llif unffordd (lateral flow test) COVID-19 trwy gyfrwng y Gymraeg ar wefan [www.gov.uk](http://www.gov.uk).

daflen yn Saesneg yn unig. Mae'r daflen wybodaeth dan sylw ar gael yn Gymraeg, ac yn cael ei dosbarthu gyda'r pecynnau profi i ardaloedd sydd â chod post yng Nghymru ers Ionawr 2021. Mae Safon 40 yn ei gwneud yn ofynnol ar Weinidogion Cymru i lunio unrhyw ddogfen at ddefnydd y cyhoedd yn Gymraeg. Mae safon 40 fel y mae'n ymddangos yn hysbysiad cydymffurfio Gweinidogion Cymru wedi ei amrywio i gynnwys rhestr benodol o ddogfennau perthnasol. Mae'r rhestr yn cynnwys "Llyfrynnau, Taflenni, pamffledi a chardiau" a "Gwybodaeth esboniadol i'r cyhoedd". Rwy'n fodlon bod Safon 40 yn berthnasol i'r daflen wybodaeth sydd yn cael ei chynnwys ym mhecynnau profion COVID-19. Casglaf felly bod Gweinidogion Cymru wedi methu â sicrhau bod y daflen wybodaeth oedd yn cael ei chynnwys mewn pecynnau profion cartref COVID-19 ar gael yn Gymraeg yn unol â gofynion safon 40.

Safonau 52 a 56: Mae safon 52 a 56 yn ei gwneud yn ofynnol ar Gweinidogion Cymru i sicrhau bod ei wefannau gan gynnwys y rhyngwyneb a'r dewislenni ar gael yn Gymraeg. Mae AIGC Llywodraeth y DU yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth archebu profion COVID-19 ar wefan [gov.uk](http://gov.uk) ar ran Gweinidogion Cymru. Nid yw'r tudalennau a'r adnoddau ar gyfer archebu profion COVID-19 ar gael yn Gymraeg. Mae Gweinidogion Cymru wedi nodi yn ei ymateb bod y gwasanaeth wedi ei lansio yn Saesneg yn unig yn sgil yr angen i gynnig gwasanaeth ar frys. Dywed bod amserlen mewn lle i ddatblygu system ddigidol ddwyieithog ar gyfer archebu profion llif unffordd erbyn diwedd Mehefin 2022 a'r profion PCR erbyn diwedd Medi 2022. Deallaf bod bwriad polisi i ddirwyn y defnydd

cyfredol o brofion i ben ddiwedd Mawrth 2022. Mae'n debyg hefyd y bydd yr arfer o brofi yn parhau mewn rhai sefyllfaoedd cyfyngedig. e.e. ar gyfer gweithwyr gofal iechyd. Rwyf yn derbyn ac yn deall bod yr argyfwng COVID-19 wedi arwain at gyrff yn gorfod cynllunio a threfnu gwaith yn wahanol i drefniadau arferol gan roi blaenoriaeth i ddiogelu lles y cyhoedd. Serch hynny, ni allaf dderbyn bod oedi o bron i ddwy flynedd wrth ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg i'r cyhoedd yng Nghymru yn dderbyniol. Casglaf bod Gweinidogion Cymru wedi methu â sicrhau bod y tudalennau gwe ar gyfer archebu profion COVID-19 ar gael yn Gymraeg yn unol â gofynion safonau 52 a 56.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 40, 52 a 56.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 40, 52 a 56.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Gwefannau a gwasanaethau ar lein corff (Safon 52 a 56):  
Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rwy'n ei gwneud yn ofynnol ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod y tudalennau gwe a'r adnoddau ar gov.uk i archebu profion llif unffordd ar gael yn Gymraeg erbyn diwedd Mehefin 2022 os bydd y gwasanaeth hwn yn parhau ar gael yn Saesneg.

2. Rwy'n ei gwneud yn ofynnol ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod y tudalennau gwe a'r adnoddau ar gov.uk i archebu profion PCR ar gael yn Gymraeg erbyn diwedd Medi 2022 os bydd y gwasanaeth hwn yn parhau ar gael yn Saesneg.

3. Rwy'n ei gwneud yn ofynnol ar Weinidogion Cymru i gynnal trafodaethau a derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd gan yr UKHSA er mwyn monitro cynnydd yn erbyn yr amserlen a osodwyd gan Brif Weithredwr yr UKHSA i ddatblygu'r systemau digidol dwyieithog ar gyfer archebu profion COVID-19 ar wefan gov.uk.

Llunio a Chyhoeddi Dogfennau (Safon 40) a Gwefannau a gwasanaethau ar lein (Safonau 52 a 56):

Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

4. Rwy'n ei gwneud yn ofynnol ar Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad llawn o'r modd y mae wedi gweithredu yn ystod cyfnod y pandemig COVID-19 yng nghyd-destun safonau'r Gymraeg.

5. Yn dilyn cynnal yr adolygiad, rwy'n ei gwneud yn ofynnol ar Weinidogion Cymru i baratoi papur canfyddiadau a chynnwys adran am y gwersi a ddysgwyd. Rhaid hefyd cynhyrchu cyngor ymarferol yn egluro wrth staff sut i gynllunio a pharhau i weithredu'n Gymraeg mewn sefyllfaoedd brys. Rhaid atodi'r cyngor at gynllun(iau) parhad busnes y sefydliad.

6. Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad penodol o'r modd y sicrheir bod corff sy'n darparu gwasanaethau ar eu rhan yn eu galluogi hwy i

gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Dylai'r adolygiad gael ei gynnal er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i adnabod modd o bennu gofynion defnyddio'r Gymraeg ar bartion sy'n darparu gwasanaethau ar ei ran na sy'n arwain at fethiant.

7. Yn codi o ganfyddiadau adolygiad (cam gweithredu 3) rwy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fabwysiadu trefniadau diwygiedig fel na fydd unrhyw barti sy'n darparu ar ei ran yn aneglur ynghylch y gofynion penodol sy'n ofynnol iddynt eu rhoi ar waith er mwyn i Weinidogion Cymru allu cydymffurfio gyda safonau.

8. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 i 7

Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 11/03/2022.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr](#)

CSG695 Ym mis Hydref 2019 daeth Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) i wybod am achos claf dan ofal y bwrdd iechyd oedd yn byw â dementia. Roedd yn ymddangos bryd hynny bod y bwrdd iechyd yn bwriadu ei anfon y

03/02/2022

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safonau 69, 70 a 71: Er mwyn cydymffurfio â safonau 69, 70 a 71 mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ystyried a nodi'r holl effeithiau perthnasol y gall penderfyniad polisi eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'n ofynnol i'r sefydliad ystyried sut y gellir gweithredu fel y byddai'r

tu allan i'r ardal i dderbyn gofal mewn lleoliad yn Lloegr. Roedd cynrychiolydd ar ran y claf yn pryderu am effaith y penderfyniad ar gyfleoedd y claf i ddefnyddio'r Gymraeg yn y lleoliad gofal arfaethedig. Yn dilyn gohebu â'r Bwrdd Iechyd am yr achos cafodd y Comisiynydd wybod ar y pryd i leoli'r claf y tu allan i'r ardal. Mae'r Comisiynydd o'r farn bod yr achos yn codi cwestiynau ehangach am yr ystyriaeth sy'n cael ei roi i anghenion ieithyddol cleifion y gwasanaeth iechyd meddwl pobl hŷn wrth wneud penderfyniadau am leoliad eu gofal. Mae'r ffaith ei bod yn ymddangos bod y Bwrdd Iechyd wedi penderfynu ei bod yn briodol symud claf sy'n siaradwr Cymraeg ac yn byw â dementia i leoliad gofal yn Lloegr yn creu amheuaeth ynghylch y graddau y cydymffurfiodd â rhai o'r safonau llunio polisi sydd wedi eu gosod arno. Lle bo gan y Comisiynydd amheuaeth bod methiant wedi bod i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg caiff gynnal ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg.

penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hefyd yn ofynnol i'r sefydliad ystyried sut y gellir gweithredu fel na fydd y penderfyniad polisi yn cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn yr achos yma daeth achos claf dan ofal y bwrdd iechyd oedd yn byw â dementia i'm sylw. Roedd yn ymddangos bod y bwrdd iechyd yn bwriadu ei anfon y tu allan i'r ardal i dderbyn gofal mewn lleoliad yn Lloegr. Roedd pryder am effaith y penderfyniad ar gyfleoedd y claf i ddefnyddio'r Gymraeg yn y lleoliad gofal arfaethedig. Darparodd y bwrdd iechyd wybodaeth oedd yn dangos mai gweithredu polisi Llywodraeth Cymru oedd y bwrdd iechyd yn hytrach na gweithredu eu polisi eu hun a'u bod wedi ystyried yr holl elfennau perthnasol, gan gynnwys y Gymraeg, wrth wneud y penderfyniad. Gan mai polisi Llywodraeth Cymru yn hytrach na pholisi Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sydd yn cael ei weithredu yma a chan bod y bwrdd iechyd wedi ystyried yr effaith ar anghenion ieithyddol y claf wrth wneud y penderfyniad rwyf o'r farn nad yw'r bwrdd iechyd wedi methu â chydymffurfio â safonau 69, 70 a 71 yn yr achos yma.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu â chydymffurfio â safonau 69, 70 a 71.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Ni weithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad nad oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu â chydymffurfio â safonau 69, 70 a 71.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 03/02/2022.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CS054 Mae cwyn yr achwynydd yn ymwneud â'r honiad o beidio derbyn gwasanaeth gofal cymdeithasol Cymraeg gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ('Cyngor') i'w Mam. Mae'r achwynydd yn ofalwr llawn amser i'w Mam, sy'n dioddef o ddementia. Mae nifer o elfennau gwahanol i gŵyn yr achwynydd. Mae rhai elfennau o'r gwyn yn codi amheuaeth o fethiant i gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg. Mae rhannau eraill o'r gwyn ddim yn cael eu cwmpasu gan y Safonau ond yn rhan o brofiad yr achwynydd wrth ofyn am wasanaeth Cymraeg. Dywedodd yr achwynydd bod y Cyngor wedi gwrthod darparu gweithiwr cymdeithasol drwy

03/02/2022

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 26: Mae safon 26 yn ei wneud yn ofynnol, pan fo corff yn gwahodd person i gyfarfod am lesiant, bod rhaid i'r corff ofyn a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu'r unigolyn y byddant, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw. Trafodaethau cyson a gofal sydd yn ofal a chefnogaeth barhaus yw cyddestun y gŵyn yma. Honnodd y Cyngor nad yw'r safonau yma felly yn berthnasol. Mae'r Cyngor yn dadlau nad yw darparu gofal uniongyrchol yn gyfarfod, gan nad yw wedi'i drefnu ymlaen llaw i drafod llesiant yr unigolyn. Rwyf hefyd o'r farn nad yw darparu'r gwasanaeth gofal ei hun yn gyfarfod sydd yn ymwneud â llesiant fel y cyfeirir atynt yn y safonau. Mae'r safonau yn datgan; "Os byddwch yn gwahodd unigolyn ("A") i gyfarfod". Ystyrir felly nad yw darparu gwasanaethau gofal yn rheolaidd yng nghartref person yn gallu cael ei ystyried fel gwahoddiad i gyfarfod. Mae'r ddyletswydd ddeddfwriaethol i ddarparu gwasanaeth gofal trwy gyfrwng y Gymraeg yn deillio felly o'r Ddeddf

Cyngor  
Bwrdeistref Sirol  
Rhondda Cynon  
Taf

gyfrwng y Gymraeg i'w Mam o 3/09/2020 pan roddwyd ei chais gwreiddiol am weithiwr cymdeithasol Cymraeg i'r Cyngor hyd nes Ionawr 2021. Honnodd bod dau aelod o staff wedi dweud wrthi nad oedd gweithwyr cymdeithasol Cymraeg eu hiaith ar gael er iddi ofyn yn barhaus am y gwasanaeth. Wedi i'r Cyngor gychwyn darparu gwasanaeth gofal yn y Gymraeg yn Ionawr 2021, honnodd yr achwynydd gan bod y staff Cymraeg yn gweithio'n rhan amser bod y gwasanaeth Cymraeg a ddarparwyd felly yn araf. Mae'r materion yma yn codi amheuaeth o fethiant i gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg. Honnodd yr achwynydd hefyd bod ei chwynion i nifer o swyddogion ac uwch swyddogion y Cyngor am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg wedi eu hanwybyddu nes iddi gysylltu â fy swyddfa. Nid yw hyn yn codi amheuaeth o fethiant i gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg ond yn rhan o brofiad yr achwynydd wrth ofyn am wasanaeth Cymraeg. Cychwynnodd yr achwynydd drafod sefyllfa ei Mam gyda fy Swyddogion yn Rhagfyr 2020. Bu fy swyddogion

Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn hytrach nag o'r safonau.

Safon 26A: Gofynion safon 26A yw bod rhaid i gorff drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg ar gael mewn cyfarfod am lesiant os yw person wedi ei hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod ac os nad ydi'r corff yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu. O ran cydymffurfiaeth a Safon 26A, nid ydwyf wedi derbyn tystiolaeth ddigonol fod cyfarfod yn ymwneud â llesiant mam yr achwynydd wedi cael ei gynnal ac felly ni allaf ddyfarnu bod methiant wedi bod gan y Cyngor i gydymffurfio a Safon 26A.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â safonau 26 a 26A.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad nad oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â safonau 26 a 26A.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Cyngor yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg

1. Dylai'r Cyngor adolygu ei weithdrefnau er mwyn sicrhau fod unigolion sy'n derbyn gwahoddiad i gyfarfod sy'n ymwneud â'u llesiant, yn derbyn cais clir a diamwys am ei ddymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.
2. Dylai'r Cyngor adolygu ei weithdrefnau er mwyn sicrhau

yn gohebu gyda'r Cyngor ar ran yr achwynydd ar sail ymholiad yn unig i ddechrau cyn i'r mater gael ei drin fel cwyn o fis Mai 2021 ymlaen. Yn yr adroddiad yma, cyfeirir felly at rai gohebiaeth gan yr achwynydd a'r Cyngor sydd wedi ei ddyddio cyn cychwyn yr ymchwiliad statudol. Yn dilyn rhai trafodaethau gyda fy Swyddogion yn ystod yr ymholiad, derbyniais llythyr gan y Cyngor ar 06/04/2021. Roedd y llythyr hwn yn nodi bod gwasanaeth Cymraeg gan weithiwr cymdeithasol cymwysedig ac un aelod arall o staff oedd yn siarad Cymraeg wedi ei ddarparu i'r achwynydd a'i Mam ers Ionawr 2021. Mae'r llythyr hefyd yn rhoi ychydig o wybodaeth am weithdrefnau'r Cyngor a safbwynt y Cyngor ynglŷn â rhai o'r anawsterau yn ymwneud a'r mater yma. Mae manylion y llythyr yn cael ei drafod fel rhan o dystiolaeth yr ymchwiliad. Rhoddwyd crynodeb o brif bwyntiau'r llythyr yma i'r achwynydd ar 15/04/2021. Nodwyd yr achwynydd ar 29/04/2021 nad oedd y manylion roedd y Cyngor wedi ei ddarparu yn gywir ac nad oedd y

bod anghenion a dymuniadau ieithyddol o fewn yr asesiadau o anghenion sy'n ymwneud â lles y mae'n ei gynnal, yn cael eu cofnodi yn glir a diamwys.

3. Dylai'r Cyngor godi ymwybyddiaeth ei staff, gyda phwyslais arbennig ar staff sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol a lles, o ofynion safonau 26 a 26A, yn ogystal â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â'r Gymraeg.

4. Dylai'r Cyngor ddiwygio eu ffurflen asesu i gynnwys cynnig rhagweithiol ychwanegol o ddewis iaith ar gyfer y cynhaliwr/gofalwr a/neu'r sawl sy'n gofyn am wasanaeth. Dylai'r Cyngor wahaniaethu, lle bo hynny'n bosibl, rhwng dewis iaith yr unigolyn sy'n derbyn gofal a chymorth a'i gynhaliwr.

5. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cymryd camau i ddilyn y cyngor yma.

Amserlen: O fewn tri mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 03/02/2022.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.



wybodaeth yn adlewyrchu eu profiad nhw o ofyn am ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Oherwydd anfodlonrwydd yr achwynydd, esboniodd fy swyddogion ar y pwynt yma bydd yr ymholiad yn cael ei drin fel cwyn yn erbyn y Cyngor os oedd yr achwynydd yn fodlon i ni wneud hynny. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Darparodd yr achwynydd e-byst a mwy o wybodaeth i fy Swyddogion am y gŵyn rhwng Mai a Gorffennaf 2021.

Canolfan  
Mileniwm  
Cymru

CS058 Ar 10 Mehefin 2021 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn honni bod Canolfan Mileniwm Cymru (CMC) wedi recriwtio wyth 'cydymaith artistig' ond nad oes yr un ohonynt yn siarad Cymraeg. Mae'r gŵyn yn creu amheuaeth nad yw CMC wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i'r angen am sgiliau Cymraeg wrth asesu gofynion ieithyddol y swydd nac

01/02/2022

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 132: Mae safon 132 yn ei gwneud yn ofynnol ar CMC i asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg pan yn asesu swyddi newydd a gwag. Er mwyn cynnal asesiad trylwyr ac ystyrlon o ofynion ieithyddol swydd newydd neu gwag mae angen i gorff ystyried nifer o ffactorau. Er bod CMC wedi datgan iddo gynnal asesiad anffurfiol o'r swyddi Cymdeithion Artistig, nid yw wedi darparu tystiolaeth o'r asesiad hwnnw er mwyn rhoi sicrwydd bod yr asesiad a gynhaliwyd wedi bod yn ddigonol. Er bod CMC yn datgan bod rhai o'r swyddi wedi eu categorio fel swydd lle bo sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, nid yw wedi manylu ar gategori gweddill y swyddi. Casglaf felly bod CMC wedi methu â chydymffurfio â gofynion safon 132.

wrth hysbysebu a phenodi i'r swyddi hyn.

Safon 132A: Mae Safon 132A yn ei gwneud yn ofynnol ar CMC, pan fo wedi categorio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu bod angen pennu hynny wrth hysbysebu'r swydd a hysbysebu'r swydd honno yn Gymraeg. Mae CMC wedi cyflwyno tystiolaeth i mi bod y swyddi Cymdeithion Artistig wedi eu hysbysebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae CMC hefyd wedi cyflwyno tystiolaeth bod rhai o'r swyddi wedi eu categorio fel swyddi lle bo'r Gymraeg yn sgil hanfodol, ac wedi pennu hynny yn yr hysbyseb. Er bod amheuaeth ynglŷn â gofynion ieithyddol y swyddi eraill, nid oes tystiolaeth bod CMC wedi eu categorio fel rhai sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu bod angen. Ni ellir casglu felly bod CMC wedi methu â chydymffurfio â gofynion safon 132A yn yr achos hwn.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Canolfan Mileniwm Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 132 ond heb fethu â chydymffurfio â safon 132A.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Canolfan Mileniwm Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 132.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 132: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Ganolfan Mileniwm Cymru sicrhau ei fod yn cynnal asesiad llawn o ofynion ieithyddol pob swydd

newydd a gwag yn unigol.

2. Yn dilyn cynnal asesiad o ofynion ieithyddol swyddi newydd a gwag, rhaid i Ganolfan Mileniwm Cymru gategoreiddio pob swydd yn unigol yn unol â'r categorïau sydd wedi eu nodi yn safon 132.

3. Rhaid i Ganolfan Mileniwm Cymru sicrhau bod staff sydd yn gyfrifol am gynnal asesiadau o ofynion ieithyddol swyddi newydd a gwag yn derbyn arweiniad a hyfforddiant ar sut i gynnal asesiad trylwyr ac ystyrlon.

4. Rhaid i Ganolfan Mileniwm Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 3.

Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 147 – Cyngor yn unol ag adran 4(2)(j) Mesur y Gymraeg

Dylai Canolfan Mileniwm Cymru gymryd camau i sicrhau bod copi o pob asesiad a wneir o anghenion ieithyddol swyddi newydd a gwag a wneir yn unol â safon 132 (boed hynny yn asesiad ffurfiol neu anffurfiol) yn cael ei gadw ar gofnod er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safon 147.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Ganolfan Mileniwm Cymru ar 01/02/2022.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Bwrdd Iechyd  
Prifysgol  
Abertawe

CS041 Ar 23/02/2021, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd am lythyr apwyntiad ar gyfer Echocardiogram. Mae'r achwynydd yn anhapus bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gymysg ar frig y llythyr a bod manylion y clinig yn Saesneg ar y fersiwn Gymraeg o'r llythyr. Esboniodd yr achwynydd mai un llythyr ymysg nifer oedd yn arddangos yr un materion oedd y llythyr apwyntiad Echocardiogram.

18/01/2022

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 6: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 6 pan mae'r bwrdd iechyd yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid iddo beidio â thrin y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Cysylltodd yr achwynydd â mi i gwyno am lythyr apwyntiad yr oedd wedi ei dderbyn gan Fwrdd Iechyd Bae Abertawe. Roedd cyfeiriad yr ysbyty ar frig y fersiwn Gymraeg o'r llythyr yn Saesneg yn gyntaf ac roedd cyfeiriad y clinig ar gyfer yr apwyntiad yn Saesneg ar y fersiwn Gymraeg o'r llythyr hefyd. Gan fod y bwrdd iechyd wedi cynnwys y cyfeiriad Saesneg ar gyfer yr ysbyty yn gyntaf ar frig y llythyr Cymraeg a chan eu bod wedi cynnwys cyfeiriad y clinig yn Saesneg yn unig ar y fersiwn Gymraeg o'r llythyr rwyf o'r farn bod y bwrdd iechyd wedi trin y fersiwn Gymraeg o'r llythyr yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Rwy'n dyfarnu felly bod y bwrdd iechyd wedi methu â chydymffurfio â safon 6 yn yr achos yma.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 6.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 6.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 6: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe gymryd camau i sicrhau bod templed eu llythyrau apwyntiad yn cydymffurfio gyda safon 6 ac yn gosod y Gymraeg yn gyntaf ar y fersiwn Gymraeg o lythyrau apwyntiad.
2. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.  
Amserlen: O fewn mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.  
Safon 6: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77(3)(a) Mesur y Gymraeg
3. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau fod y maes lleoliad apwyntiad yn cael ei gynnwys yn Gymraeg ar fersiynau Cymraeg o lythyrau apwyntiad.  
Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys y wybodaeth ganlynol:
  - o disgrifiad o bob un o'r camau y bydd y bwrdd iechyd yn eu cymryd i sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth osod manylion lleoliadau ar lythyrau apwyntiad
  - o pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau
  - o amserlen bendant ar gyfer cyflawni pob un o'r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir)
  - o yr adnoddau (e.e., cyllid/staff) sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r camau.Dylai'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
  - o bod y bwrdd iechyd yn cynnal awdit o'r holl lythyrau

apwyntiad sydd ganddo i asesu a ydynt yn cydymffurfio â gofynion safon 6,  
o bod y bwrdd iechyd yn asesu a oes modd cydymffurfio gyda safon 6 o fewn y systemau llythyrau presennol,  
o bod y bwrdd iechyd yn trafod gyda phartneriaid eraill gan gynnwys Iechyd a Gofal Digidol Cymru pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn galluogi'r bwrdd iechyd i gydymffurfio gyda safon 6.

Amserlen: Rhaid i'r bwrdd iechyd lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a rhoi'r drafft hwnnw i'r Comisiynydd o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd, sef erbyn 18/04/2022.

4. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y maes lleoliad apwyntiad yn cael ei gynnwys yn Gymraeg ar fersiynau Cymraeg o lythyrau apwyntiad yn unol â gofynion safon 6. Amserlen: Rhaid i'r bwrdd iechyd gyflwyno tystiolaeth i mi ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 4 o fewn blwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun gweithredu.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe ar 18/01/2022.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Caerdydd

CS047 Ar 5 Mai 2021 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Cwyn yw hon gan P.

13/01/2022

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 100: Gofynion y safon yn rhan (a) yw bod rhaid i gorff ofyn i'w cyflogeion os ydynt yn dymuno derbyn gohebiaeth bapur gan y cyflogwr ynglŷn â'u cyflogaeth ac sydd wedi ei gyfeirio at yr unigolyn yn bersonol yn

Defnyddir y term P i ddiogelu adnabyddiaeth yr unigolyn dan sylw sy'n un o cyflogeion Cyngor Caerdydd ("Y Cyngor") (D). Yn y gŵyn, mae'n cyfeirio at gyfres o gyfathrebiadau rhwng D a P mewn perthynas ag achos disgyblu yn erbyn P. Mae'n honni methiannau gan D i gyfathrebu'n Gymraeg, wyneb yn wyneb ac yn ysgrifenedig yn unol â dymuniad P yn y cyfathrebiadau penodol ac yn fwy cyffredinol, ers i achos disgyblu yn ei erbyn gychwyn yn 2020. Mae P hefyd yn honni bod D wedi gwrthod cais gan P i gynnal gwrandawriad disgyblu yn Gymraeg, gan yn hytrach drefnu cyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg.

Gymraeg. Os dymunir derbyn gohebiaeth o'r fath yn Gymraeg, yn unol â rhan (b) o'r safon, rhaid i'r corff ddarparu'r ohebiaeth ohono yn Gymraeg. Gohebodd y Cyngor gyda'r achwynydd yn Saesneg. Gwnaeth hynny gan fod yr achwynydd, ar ei broffil adnoddau dynol, wedi nodi ei fod yn dymuno derbyn gohebiaeth Saesneg gan y Cyngor. Roedd hi'n rhesymol felly i'r Cyngor ohebu gyda'r achwynydd yn unol a'r iaith y dewisodd ar ei broffil adnoddau dynol. D Gofynnodd y Cyngor ofyn i'r achwynydd beth oedd ei ddewis iaith am ohebiaeth, ac felly, mae hyn yn cydymffurfio â safon 100 (a). Yn sgil cydymffurfiaeth â safon 100(a), mi wnaeth y Cyngor ohebu yn unol â dewis iaith yr achwynydd, felly, nid oes diffyg cydymffurfiaeth â safon 100(b). Wrth ystyried y dystiolaeth gyflynwyd, ni fu methiant i gydymffurfio â safon 100.

Safon 116A: Gofynion safon 116A(a), yw dylid datgan mewn dogfen am drefniadau y broses ddisgyblu ac y caiff unrhyw aelod o staff y cyfle i ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn. Mi wnaeth y Cyngor ddarparu dogfen polisi disgyblu'r Cyngor sy'n cadarnhau iddynt gydymffurfio â gofynion Safon 116A(a). Rwy'n derbyn i'r Cyngor ddarparu copi o'r polisi i'r achwynydd a bod y polisi hwn ar fewnwyd y Cyngor. Mi fu cydymffurfiaeth â safon 116A(a) yn y cyd-destun hwn. Serch hynny, mae dwy rhan i'r safon ac wrth ystyried gofynion Safon 116A(b) a'r dystiolaeth gyflynwyd, ni wnaeth y Cyngor gymryd camau rhagweithiol trwy roi gwybod i'r achwynydd am yr hawl i ymateb i unrhyw honiadau a wnaed yn ei erbyn yn Gymraeg. Roedd dyletswydd ar y Cyngor o dan safon 116A(b) i dynnu sylw'r achwynydd at y cymal perthnasol yn ei bolisi, beth bynnag

fo dewis iaith gohebiaeth yr unigolyn. Ni wnaed hyn gan y Cyngor, ac felly, ni fu cydymffurfiaeth â safon 116A(b). O ganlyniad, er i'r Cyngor gydymffurfio â gofynion 116A(a), ni fu cydymffurfiaeth â Safon 116A(b), felly, canfyddaf fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â gofynion Safon 116A oherwydd y diffyg i ddelio a Safon 116A(b).

Safon 118: Gofynion safon 118 yw bod rhaid i sefydliad, wrth drefnu cyfarfod disgyblu mewn perthynas ag ymddygiad aelod o staff, ofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg o fewn y cyfarfod hwnnw, esbonio y bydd y corff yn darparu gwasanaeth cyfieithu. Yn yr achos yma, ni ofynnwyd i'r achwynydd os oedd am ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod disgyblu gyda'r Cyngor. Yn ogystal, ni wnaeth y Cyngor amlinellu i'r achwynydd y byddai gwasanaeth cyfieithu yn y cyfarfod pan wnaeth y broses ddisgyblu gychwyn. Er i hyn newid pan ofynnodd yr achwynydd am gael cyfarfod Cymraeg, ni wnaed hyn yn eglur i'r achwynydd ar gychwyn y broses ddisgyblu. Gan ystyried cwyn yr achwynydd a'r dystiolaeth gyflwynwyd gan y Cyngor yn sgil y gŵyn, canfyddaf y bu methiant i gydymffurfio â gofynion safon 118 gan y Cyngor.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safonau 116A a 118 ond heb fethu â chydymffurfio â safon 100.

### **Datganiad gweithredu pellach**



Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safonau 116A a 118.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 116A: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor addysgu ac atgoffa swyddogion sy'n gyfrifol am drefniadau disgyblu'r Cyngor am ofynion safon116A wrth ymdrin ag unrhyw achos o ddisgyblaeth yn erbyn aelod o staff y Cyngor.

2. Rhaid i'r Cyngor mewn unrhyw ohebiaeth sy'n ymdrin a phroses ddisgyblu mewnol y Cyngor, amlinellu'n glir a diamwys hawl yr aelod o staff â ddisgyblir i dderbyn gohebiaeth am y broses ddisgyblu yn Gymraeg. Yn ogystal, dylai'r Cyngor amlinellu hawl yr unigolyn i ymateb i unrhyw honiadau a wneir yn erbyn yr aelod o staff yn Gymraeg, beth bynnag yw dewis iaith gohebiaeth yr aelod staff ar system DigiGov y Cyngor.

3. Rhaid i Cyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 118: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Cyngor Caerdydd addysgu ac atgoffa swyddogion sy'n gyfrifol am drefniadau disgyblu'r Cyngor am ofynion Safon 118 wrth ymdrin ag unrhyw achos o ddisgyblaeth yn erbyn aelod o staff y Cyngor.

2. Rhaid i'r Cyngor, wrth gychwyn proses ddisgyblu yn erbyn aelod o staff, amlinellu mewn unrhyw gohebiaeth i'w cyflogeion, y gellir defnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw achos disgyblu, beth bynnag yw statws iaith yr aelod staff ar system DigiGov y Cyngor.

3. Rhaid darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg os dymuniad yr aelod o staff a ddisgyblir yw cynnal cyfarfod am y broses ddisgyblu yn Gymraeg. Rhaid gwneud hyn yn eglur i cyflogeion ar gychwyn unrhyw broses ddisgyblu.

4. Rhaid i Cyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 13/01/2022.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Hywel  
Dda

CS045 Ar 29/04/2021 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Ar 16 Ebrill ffoniodd yr achwynydd linell gymorth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer ymholiadau am brofi a brechu rhag

16/12/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 8: Er mwyn cydymffurfio gyda'r safon roedd angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cyfarchiad cyntaf i'r achwynydd yn Gymraeg. Pan alwodd yr achwynydd y linell gymorth yn ystod mis Ebrill a mis Mehefin 2021 fe gafodd ei gyfarch yn Saesneg yn gyntaf ar neges awtomataidd. Gan bod yr achwynydd wedi derbyn y cyfarchiad cyntaf yn Saesneg pan alwodd linell gymorth COVID-19 y bwrdd iechyd yn

COVID-19 (0300 303 8322). Yn ôl yr achwynydd roedd y negeseuon awtomatig ar y llinell yn ddwyieithog, heblaw am y neges uniaith Saesneg yn ail-adrodd 'you are currently number X in the queue'. Yn ôl yr achwynydd roedd yr opsiynau yn Saesneg gyntaf felly ni fyddai unrhyw un yn gwrando ar yr opsiynau Cymraeg. Ar ôl dewis yr opsiynau ac aros, cafodd yr achwynydd gyfarchiad Saesneg gan swyddog. Holodd yr achwynydd a oedd y swyddog yn siarad Cymraeg ond nid oedd yn siarad Cymraeg. Ar 29 Ebrill am tua 09:45, ffoniodd yr un llinell am ragor o wybodaeth. Unwaith eto, cafodd gyfarchiad Saesneg gan swyddog. Gofynnodd a oedd y swyddog yn siarad Cymraeg, dywedodd 'tipyn bach', parhaodd yr achwynydd i siarad Cymraeg, ond cafodd ymateb Saesneg i lawer o'r cwestiynau. Ar 6 Mai derbyniodd yr achwynydd alwad ffôn uniaith Saesneg gan y Bwrdd Iechyd yn aildrefnu ei apwyntiad. Ffoniodd yr achwynydd y llinell gymorth eto ar 30 Mehefin tua 12 o'r gloch. Ni chafodd wasanaeth ffôn Cymraeg y tro yma chwaith.

ystod Ebrill a Mehefin 2021 rwy'n dyfarnu fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi methu â chydymffurfio â safon 8 yn yr achos yma.

Safon 9: Mae safon 9 yn gofyn i'r sefydliad roi gwybod i'r person sy'n cysylltu â'r corff ar un o'r rhifau ffôn perthnasol bod gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael. Pan gysylltodd yr achwynydd gyda'r llinell gymorth COVID-19 Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar fwy nag un achlysur yn ystod Ebrill a Mehefin 2021 ni wnaeth y bwrdd iechyd roi gwybod i'r achwynydd bod gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael. Gan na wnaeth y bwrdd iechyd roi gwybod i'r achwynydd bod gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn ar gael rwy'n dyfarnu fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi methu â chydymffurfio a safon 9 yn yr achos yma.

Safon 10: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 10 roedd angen i'r bwrdd iechyd rhaid i'r corff ddelio â'r alwad yn Gymraeg unwaith y mae'n gwybod bod y person yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn. Yn yr achos yma fe gysylltodd yr achwynydd gyda llinell gymorth COVID-19 y bwrdd iechyd ar dri achlysur gwahanol. Ar y bob achlysur fe atebwyd y galwadau gan swyddogion nad oedd yn gallu delio gyda'r galwadau yn Gymraeg. Gan na wnaeth y bwrdd iechyd lwyddo i ddelio gyda galwadau'r achwynydd yn Gymraeg unwaith yr oedd yn gwybod bod yr achwynydd yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn rwy'n dyfarnu fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi methu â chydymffurfio â safon 10 yn yr achos yma.

Safon 19: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 19 roedd angen i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ofyn yn

rhagweithiol i'r achwynydd a oedd yn dymuno derbyn galwadau Cymraeg gan y gwasanaeth ffôn COVID-19 yn y dyfodol. Yn yr achos yma fe dderbyniodd yr achwynydd alwad ffôn yn Saesneg yn unig gan y gwasanaeth llinell gymorth COVID-19. Ni ofynnwyd i'r achwynydd yn rhagweithiol a oedd yn dymuno derbyn galwadau Cymraeg gan y gwasanaeth yn y dyfodol. Gan na wnaeth y bwrdd iechyd ofyn i'r achwynydd a oedd yn dymuno cael galwadau ffôn oddi wrtho yn Gymraeg yn y dyfodol rwy'n dyfarnu fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi methu â chydymffurfio gyda safon 19 yn yr achos yma.

Safon 20: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 20 roedd angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd ganddo yn darparu'r gwasanaeth awtomataidd cyfan yn Gymraeg. Cysylltodd yr achwynydd gyda mi i gwyno nad oedd y neges 'you are currently number X in the queue' yn Gymraeg ac i gwyno bod y negeseuon yn Saesneg yn gyntaf ac na fyddai pwrpas i'r negeseuon Cymraeg gan y byddai'r galwr wedi clywed y neges Gymraeg yn barod. Fe amlygodd rhan gyntaf cwyn yr achwynydd nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio gyda safon 20 gan nad oedd yr holl negeseuon wedi eu hawtomeiddio ar y system ffôn y linell gymorth COVID-19 yn Gymraeg. Oherwydd hynny rwy'n dyfarnu fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi methu â chydymffurfio â safon 20 yn yr achos yma.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi methu â chydymffurfio â safonau 8, 9, 10, 19 a 20.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi methu â chydymffurfio â safonau 8, 9, 10, 19 a 20.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 8: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gymryd camau i sicrhau bod y cyfarchiad cyntaf ar y neges linell ffôn COVID-19 yn Gymraeg.

Safon 9: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

2. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol edrych ar y negeseuon ar y linell gymorth ar gyfer ymholiadau COVID-19 er mwyn rhoi gwybod i alwyr yn fuan yn yr alwad bod gwasanaeth ffôn ar gael yn Gymraeg.

Safon 10: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

3. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gymryd camau i sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu gyda'r linell gymorth COVID-19 yn derbyn gwasanaeth sy'n cydymffurfio gyda safon 10.

Amserlen: O fewn dau fis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 10: Argymhelliad yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg Rwy'n argymhell bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ystyried a yw eu prif rifau ffôn, unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau eraill yn

cydymffurfio gyda safon 10.

Safon 19: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

4. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ddarparu canllawiau i swyddogion y linell gymorth COVID-19 er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn cydymffurfio gyda safon 19.

Safon 20: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

5. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda sicrhau bod y system ffôn wedi ei hawtomeiddio ar rif ffôn 0300 303 8322 yn darparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg.

6. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-5.

Amserlen: O fewn dau fis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 16/12/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 8: Er mwyn cydymffurfio gyda'r safon roedd angen i Weinidogion Cymru sicrhau bod cyfarchiad Cymraeg yn cael ei roi i'r achwynydd. Cysylltodd yr achwynydd gyda'r gwasanaeth ffôn 119 ar sawl achlysur yn ystod mis Mawrth

Gweinidogion  
Cymru

CS040 Ar 13/04/2021 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn

honni iddi hi a'i chwaer fethu â derbyn gwasanaeth Cymraeg wrth geisio archebu prawf Covid-19 drwy'r llinell gymorth 119. Dywed iddynt gysylltu â'r gwasanaeth ar bedwar achlysur rhwng y 6ed a'r 17eg o Fawrth 2021 ac er iddynt ddewis y Gymraeg, na lwyddodd dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg. Honnai bod eu galwadau wedi eu trosglwyddo i Warrington, Llundain a Glasgow, ac i'r swyddogion fethu â phrosesu eu cais am brofion.

2021 a chael gwasanaeth ffôn yn Saesneg er iddi ddewis yr opsiwn Gymraeg. Mae'n ymddangos y cafodd yr achwynydd gyfarchiad Cymraeg ar ôl dewis yr opsiwn Cymraeg. Cafodd yr achwynydd ei chyfarch yn Saesneg hefyd yn ystod y galwadau ond mae gofynion y safon hon yn berthnasol i'r cyfarchiad cyntaf yn unig. Gan ei bod yn ymddangos bod y sefydliad wedi cyfarch y galwr drwy neges awtomatig yn Gymraeg yn gyntaf yna rwyf yn dyfarnu nad yw Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 8 yn yr achos yma.

Safon 9: Mae safon 9 yn gofyn i'r sefydliad roi gwybod i'r person sy'n cysylltu â'r corff ar un o'r rhifau ffôn perthnasol bod gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael. Yn yr achos yma fe gysylltodd yr achwynydd gyda'r gwasanaeth ffôn 119 sy'n linell gymorth. Mae'r gwasanaeth ffôn 119 yn rhoi opsiynau yn awtomataidd i bwysu i gael gwasanaeth Cymraeg neu Saesneg. Gan bod y gwasanaeth ffôn 119 wedi rhoi dewis awtomataidd i barhau gyda'r alwad yn Gymraeg yna rwyf o'r farn bod y sefydliad wedi cydymffurfio gyda safon 9 yn yr achos yma.

Safon 10: Er mwyn cydymffurfio â safon 10, roedd angen i Weinidogion Cymru sicrhau bod y gwasanaeth ffôn 119 yn ddelio â galwadau'r achwynydd yn Gymraeg yn eu cyfanrwydd gan mai dyna yw dymuniad yr unigolyn. Rhaid i'r corff ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd unwaith y bydd y sefydliad yn ymwybodol bod yr unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg. Pan gysylltodd yr achwynydd gyda'r linell ffôn 119 ar bedwar achlysur yn ystod Mawrth 2021 i geisio trefnu profion COVID-19 fe gafodd yr achwynydd gynnig dewis iaith ar y ffôn yn

awtomataidd. Fodd bynnag, ar ôl i'r achwynydd ddewis yr opsiwn Gymraeg, fe drosglwyddwyd y galwadau i swyddogion di-gymraeg ar bob achlysur. Gan bod galwadau yr achwynydd wedi cael eu trosglwyddo i swyddogion di-gymraeg ar ôl iddi ddewis yr opsiwn Cymraeg ni chafodd ei galwadau eu trin mewn modd oedd yn cydymffurfio gyda safon 10.

Safon 14: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 14, roedd angen i'r sefydliad nodi wrth gyhoeddi rhif ffôn llinell gymorth 119 eu bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg ar ddeunydd megis gwefannau, cyhoeddiadau, ffurflenni, deunydd cyhoeddusrwydd ayyb. Yn ystod mis Mawrth 2021, pan roedd yr achwynydd yn ceisio cael gwasanaeth Cymraeg ar y linell gymorth 119, nid oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y linell ffôn. Gan bod Gweinidogion Cymru wedi nodi sawl gwaith nad oedd gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael ar y pryd mae'n rhesymol i mi ddod i'r casgliad nad oedd Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio gyda safon 14 ar y pryd. Gwiriodd un o'm swyddogion wefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn ystod mis Medi 2021 a darganfod bod cyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Llywodraeth yn nodi eu bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg. Nid oedd gwefan y Llywodraeth oedd yn rhoi gwybodaeth am y linell ffôn 119 yn nodi eu bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg. Gan nad oedd gwefan y Llywodraeth yn nodi eu bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg ar y linell ffôn 119, rwyf yn dyfarnu fod D wedi methu â chydymffurfio â safon 14 yn yr achos yma.

**Dyfarniad y Comisiynydd**



O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 10 ac 14 ond heb fethu â chydymffurfio â safonau 8 a 9.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 14 ac heb fethu â chydymffurfio â safonau 8 a 9.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 8: Argymhellion yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg

Rwy'n argymhell bod Gweinidogion Cymru yn ail edrych ar drefn y negeseuon ar y gwasanaeth ffôn 119 ac ystyried a ddylid cyfarch galwyr o Gymru yn Gymraeg ynghynt yn yr alwad.

Safon 9: Argymhellion yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg

Rwy'n argymhell bod Gweinidogion Cymru yn ail edrych ar drefn y negeseuon ar y gwasanaeth ffôn 119 ac ystyried a ddylid cynnig dewis iaith i alwyr o Gymru ynghynt yn yr alwad.

Safon 14: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda safon 14 pan maent yn cyhoeddi eu prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau

		<p>ar wefan y Llywodraeth.</p> <p>2. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi</p> <p>1. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 16/12/2021.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro</u></p>	<p>CS032 Ar 02/04/2021, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â diffyg gwasanaeth Cymraeg ar rif ffôn 02921 841 234. Derbyniodd yr achwynydd (P) lythyr yn cadarnhau dyddiad yr apwyntiad ar gyfer derbyn ei frechlyn COVID. Gofynnodd y llythyr i P ffonio rhif 02921 841 234 os nad oedd yn gallu dod i'r apwyntiad a drefnwyd. Cysylltodd P â'r rhif ffôn ar 26 Mawrth 2021 am 08:59. Mae P yn honni: (i) nad oedd y system ffôn a oedd wedi ei hawtomeiddio wedi'i ddarparu i P yn Gymraeg (ii) nad</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b></p> <p>Safon 9: Pan fydd person yn cysylltu â D ar ei brif rif ffôn (neu ar un o'i brif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, mae safon 9 yn ei gwneud yn ofynnol i D roi gwybod i'r person yn ystod yr alwad bod gwasanaeth Cymraeg ar gael. Ar 26 Mawrth 2021, cysylltodd P â rhif ffôn 02921 841 234 i drefnu apwyntiad ar gyfer derbyn ei frechlyn COVID-19. Ni roddodd D wybod i P yn ystod yr alwad ffôn dan sylw bod gwasanaeth Cymraeg ar gael iddo, ac felly, ni chafodd gynnig i D ddelio ag o dros y ffôn yn Gymraeg. Roedd yr ymddygiad hwn yn gyfystyr â methiant gan D i gydymffurfio â gofynion safon 9.</p> <p>Safon 10: Pan fo person yn cysylltu â D ar ei brif rif ffôn (neu ar un o'i brif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, mae safon 10 yn ei gwneud yn ofynnol i D ddelio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r</p>

oedd P wedi cael cynnig dewis i siarad gyda rhywun yn Gymraeg, ac (iii) nad oedd yr aelod o staff a atebodd galwad P wedi cyfarch P yn Gymraeg. Gwnaeth cwyn P hefyd creu amheuan pellach o ddiffyg cydymffurfiaeth, sef: (iv) nad oedd yr aelod o staff a atebodd galwad P wedi delio ag ymholiad P yn Gymraeg.

person yn dymuno hynny— (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. Ar 26 Mawrth 2021, cysylltodd P â rhif ffôn 02921 841 234 i drefnu apwyntiad ar gyfer derbyn ei frechlyn COVID-19. Roedd P yn dymuno i D ddelio â'i alwad yn Gymraeg. Ni chyfarchodd ac ni ddeliodd D â galwad P yn Gymraeg o gwbl. Rhoddwyd gwasanaeth Saesneg yn unig iddo. Roedd yr ymddygiad hwn yn gyfateb â methiant gan D i gydymffurfio â gofynion safon 10, a oedd yn gosod gofyniad clir i D ddelio â galwad P drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oedd unrhyw un o'r aelodau staff, yr oedd D wedi eu gwneud yn gyfrifol i ddelio â galwadau ar y rhif ffôn yn Gymraeg, unrhyw sgiliau iaith Gymraeg o gwbl. Cyfrannodd hyn at y methiant dan sylw.

Safon 20: Mae safon 20 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd ganddo yn darparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg. Ystyr system ffôn "wedi ei hawtomeiddio" yw system sy'n ateb galwadau ffôn ac yn arwain personau drwy drefn benodedig gyda neges wedi ei recordio sy'n gofyn, er enghraifft, i berson bwyso bysellau gwahanol er mwyn dewis opsiynau gwahanol. Ar 26 Mawrth 2021, cysylltodd P â rhif ffôn 02921 841 234 i drefnu apwyntiad ar gyfer derbyn ei frechlyn COVID-19. Nid oedd y system ar y rhif ffôn yn darparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg. Roedd y system yn darparu'r gwasanaeth gyfan yn Saesneg yn unig. Roedd

yr ymddygiad hwn yn gyfystyr â methiant gan D i gydymffurfio â gofynion safon 20.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safonau 9, 10 a 20.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safonau 9, 10 a 20.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 9: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sicrhau ei fod yn rhoi gwybod i bersonau sy'n galw rhif ffôn 02921 841 234 bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y rhif ffôn. Gall y bwrdd iechyd sicrhau hyn drwy sicrhau, ond heb fod yn gyfyngedig i sicrhau: o ei fod yn rhoi dewis i bersonau gael gwasanaeth ffôn Cymraeg (neu wasanaeth Saesneg) drwy bwyso rhif penodol ar y ffôn; o bod aelodau staff sy'n ateb yr alwad yn rhoi gwybod i'r person yn rhagweithiol wrth sgwrsio â'r person hwnnw; o sicrhau bod y corff yn rhoi gwybod y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael (neu y bydd yn parhau ar gael) wrth i aelod o staff drosglwyddo'r alwad i aelod o staff arall sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg.

2. Rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa ei staff sy'n gwasanaethu rhif ffôn 02921 841 234 bod rhaid iddynt roi gwybod i

bersonau sy'n eu galw bod gwasanaeth Cymraeg ar gael dros y ffôn.

3. Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 9: Argymhellion yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rwyf yn argymhell i'r bwrdd iechyd gynnal arolygon gwirio i fonitro a yw'r bwrdd iechyd yn rhoi gwybod i bersonau sy'n galw rhif ffôn 02921 841 234 bod gwasanaeth Cymraeg ar gael (yn unol â gofynion safon 9).

2. Rwyf yn argymhell bod Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg y bwrdd iechyd yn adrodd ac yn craffu ar ganlyniadau'r arolygon gwirio er mwyn ystyried unrhyw gamau pellach y mae angen i'r bwrdd iechyd eu cymryd i sicrhau gwelliant yn ei gydymffurfiaeth â safon 9 ar rif ffôn 02921 841 234.

3. Rwyf yn argymhell i'r bwrdd iechyd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi gweithredu ar argymhellion 1–2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 10: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro roi trefniadau ar waith i sicrhau y gall ddelio â galwadau ar rif ffôn 02921 841 234 mewn modd sy'n bodloni gofynion safon 10.

2. Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o sgiliau iaith Gymraeg y tîm sy'n gyfrifol am ddelio â galwadau ar rif ffôn 02921 841 234 yn Gymraeg, er mwyn dod i gasgliadau ynglŷn ag i ba raddau: o y mae sgiliau iaith Gymraeg digonol o fewn y tîm i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â gofynion safon 10; o y dylid, wrth asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg wrth asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag o fewn y tîm, categoreiddio'r swyddi (neu gyfran o'r swyddi) fel rhai sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol.

3. Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1–2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 10: Argymhellion yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rwyf yn argymhell i'r bwrdd iechyd gynnal arolygon gwirio i fonitro a yw galwadau i rif ffôn 02921 841 234 yn cael eu delio â nhw yn Gymraeg (yn unol â gofynion safon 10).

2. Rwyf yn argymhell bod Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg y bwrdd iechyd yn adrodd ac yn craffu ar ganlyniadau'r arolygon gwirio er mwyn ystyried unrhyw gamau pellach y mae angen i'r bwrdd iechyd eu cymryd i sicrhau gwelliant yn ei gydymffurfiaeth â safon 10 ar rif ffôn 02921 841 234.

3. Rwyf yn argymhell i'r bwrdd iechyd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi gweithredu ar argymhellion 1–2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad

Cyngor Sir  
Fynwy

CS024 Ar 15 Mawrth 2021  
derbyniais gŵyn gan aelod o'r  
cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni  
amodau adran 93 Mesur y  
Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys.  
Roedd yr achwynydd yn cyflwyno  
cwyn ynghylch penderfyniad  
Cyngor Sir Fynwy i ymgynghori ar  
adolygu lleoedd ysgol gynradd yn  
nhref Cil-y-Coed, Sir Fynwy.  
Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal

terfynol.

Safon 20: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77  
Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sicrhau  
bod y system ffôn wedi ei hawtomeiddio ar rif ffôn 02921  
841 234 yn darparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei  
awtomeiddio yn Gymraeg.
2. Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig  
sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau  
cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad  
terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro ar 16/12/2021.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safonau 91, 92, 93: Mae'r safonau hyn yn ffordd o sicrhau  
bod dogfennau ymgynghori corff sy'n ymwneud â  
phenderfyniad polisi yn ystyried ac yn ceisio barn gan  
bersonau ynghylch yr effeithiau posibl y bydd y  
penderfyniad yn eu cael ar y Gymraeg ac ar y cyfleoedd i'w  
defnyddio. Cyhoeddodd Cyngor Sir Fynwy ddogfen  
ymgynghori ar gyfer penderfyniad polisi arfaethedig i  
gynyddu niferoedd lleoedd mewn dwy ysgol Saesneg yn  
nhref Cil y Coed fel rhan o gynllun i sicrhau lleihad mewn  
lleoedd gwag mewn ysgolion yn ardal Cil y Coed. Rwyf yn

rhwng 18 Ionawr a 2 Mawrth 2021. Roedd yn cynnig cynyddu niferoedd dwy ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn yr ardal sef, Ysgol Gynradd Dewstow ac Ysgol Gynradd yr Archesgob Rowan Williams. Mae'r gŵyn yn honni bod y cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau llunio polisi, ac yn benodol, y diffyg o fewn y dogfennau ymgynghori wrth ystyried a cheisio barn ar safle'r Gymraeg o fewn ym ymgynghoriad i gynyddu'r ddarpariaeth addysg Saesneg yn nhref Cil-y-Coed drwy fethu ag ystyried effaith ei gynlluniau ar y Gymraeg ac effaith y cynnydd arfaethedig mewn darpariaeth addysg Saesneg ar Ysgol Gymraeg y Ffin, Cil-y-Coed. Cyfeiria'r gŵyn at y dogfennau canlynol: ' Dogfen ymgynghori, 'Adolygu lleoedd ysgol gynradd yn nhref Cil-y-coed'. ' Gwerthusiad cenedlaethau dyfodol dyddiedig 23 Tachwedd 2021. ' Ymateb Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG) i'r ddogfen ymgynghori. Mae'r safonau llunio polisi yn gosod gofynion ar y Cyngor wrth iddo ymgynghori ar benderfyniadau polisi arfaethedig. Mae'r safonau yn

canfod nad oedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiynau penodol a oedd yn ceisio barn y cyhoedd ynghylch sut yr oedd y penderfyniad polisi arfaethedig yn mynd i effeithio ar gyfleoedd personau i ddefnyddio'r Gymraeg, neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r safonau hefyd yn gosod gofyniad i'r dogfennau ymgynghori ystyried effeithiau posib ar y Gymraeg. Rwyf o'r farn felly fod angen i'r ddogfen ddarparu gwybodaeth ynghylch effaith posib yr holl gynigion ar y Gymraeg. Rwy'n canfod yn yr achos hwn, nad oedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys ystyriaethau ar gyfer yr holl gynigion yr ymgynghorwyd arnynt. Mae'r safonau yn gosod gofyniad clir bod rhaid ceisio barn o fewn y ddogfen ymgynghori ynghylch yr effeithiau posib yn ogystal â gofyn sut mae modd newid neu addasu'r penderfyniad fel ei fod yn cael effeithiau mwy positif neu lai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Nid oedd y ddogfen ymgynghori dan sylw yn cynnwys cwestiynau penodol o'r fath.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir Fynwy wedi methu â chydymffurfio â safonau 91, 92 a 93.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir Fynwy wedi methu â chydymffurfio â safonau 91, 92 a 93.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safonau 91, 92 a 93 gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Sir Fynwy sicrhau bod dogfennau



nodi bod yn rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn ynghylch effeithiau posib ar y Gymraeg wrth gyhoeddi dogfen ymgynghori. Roedd y gŵyn yn creu amheuaeth ynghylch a oedd y ddogfen ymgynghori gyhoeddodd y Cyngor wrth gyflwyno ei gynigion ar gyfer y cynnydd mewn addysg Saesneg yn ardal Cil y Coed yn diwallu gofynion y safonau dan sylw.

ymgynghori yn cynnwys ystyriaethau wedi eu seilio ar dystiolaeth gadarn o effaith cynigion arfaethedig ar y Gymraeg er mwyn galluogi rhanddeiliaid i ymateb yn wybodus i'r ymgynghoriad.

2. Rhaid i'r Cyngor ddatblygu canllaw neu addasu canllaw sydd eisoes yn bodoli, er mwyn sicrhau bod swyddogion sy'n gyfrifol am ddatblygu dogfennau ymgynghori yn ymwybodol o ofynion y safonau ac yn gweithredu yn unol â'r gofynion hynny.

3. Rhaid i Gyngor Sir Fynwy gymryd camau i sicrhau, wrth gyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniadau polisi, bod y dogfennau hynny yn ceisio barn ar effeithiau posib y cynigion ar

(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dylid ystyried cyd-destun y penderfyniad polisi wrth lunio unrhyw gwestiynau a ddefnyddir i geisio barn ar effeithiau posib y cynigion.

4. Rhaid i Gyngor Sir Fynwy gymryd camau i sicrhau, wrth gyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud a phenderfyniadau polisi, bod y dogfennau hynny yn ceisio barn ar sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar

(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dylid ystyried cyd-destun y penderfyniad polisi wrth lunio unrhyw gwestiynau a ddefnyddir i geisio barn ar effeithiau posib y cynigion.

5. Rhaid i Gyngor Sir Fynwy gymryd camau i sicrhau, wrth

gyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud a phenderfyniadau polisi, bod y dogfennau hynny yn ceisio barn ar sut y gellid llunio neu addasu'r polisi dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar

(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dylid ystyried cyd-destun y penderfyniad polisi wrth lunio unrhyw gwestiynau a ddefnyddir i geisio barn ar effeithiau posib y cynigion.

Amserlen: O fewn 3 mis diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

6. Rhaid i Gyngor Sir Fynwy ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Comisiynydd ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-5.

Amserlen: O fewn 4 mis diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Fynwy ar 16/12/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

#### Gweinidogion Cymru

CS013 Ar 11/02/2021 derbynias gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Ar 11/02/2021 derbyniodd y Comisiynydd gwyn gan aelod o'r

09/12/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 37: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 37 mae angen i Weinidogion Cymru sicrhau, pan maent yn llunio unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd (gan gynnwys fideos) eu bod yn eu llunio yn Gymraeg, ac nad yw'r trin fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol. Yn yr achos yma fel gysylltodd yr achwynydd

cyhoedd yn honni bod  
Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi  
fideos uniaith Saesneg ar ei gyfrif  
Facebook 'Mae addysg yn dechrau  
yn y cartref'. Tynnodd yr  
achwynydd sylw at 3 fideo penodol:

1

[https://fb.watch/5pSQPrRizN/11/02/2021:](https://fb.watch/5pSQPrRizN/11/02/2021)

2

[https://fb.watch/5pSOWopclM/19/02/2021:](https://fb.watch/5pSOWopclM/19/02/2021)

3 [https://fb.watch/5pSJb\\_B6MB/](https://fb.watch/5pSJb_B6MB/)  
Mae ymchwil pen desg y swyddog  
Ymchwilio a Gorfodi y Comisiynydd  
hefyd wedi canfod bod sawl  
enghraifft arall yn ymddangos ar y  
cyfrif Facebook sydd yn creu  
amheuaeth o fethiant i gydymffurfio  
â safonau'r Gymraeg wrth gyhoeddi  
fideos ar y cyfrif Facebook 'Mae  
addysg yn dechrau yn y cartref'.

Mae'r rhestr ganlynol yn  
enghreifftiau o'r fideos dan sylw:

4 <https://fb.watch/4SOM-Zgvct/>

5 <https://fb.watch/4SOPyQIWC5/>

6 <https://fb.watch/4SOQX0o53Z/>

7 <https://fb.watch/4SOSBa3l8V/>

8 <https://fb.watch/4SOU8UBmn4/>

9 <https://fb.watch/4SOWV5rAvs/>

â mi i gwyno bod fideos Saesneg yn unig yn cael eu gosod  
ar y cyfrif Facebook Cymraeg 'Mae Addysg yn dechrau yn  
y cartref'. Gan bod fideos Saesneg yn unig wedi eu gosod  
ar y cyfrif Facebook, a chan nad oedd fersiwn Gymraeg  
hefyd wedi eu gosod ar y cyfrif, rwy'n dyfarnu fod  
Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon  
37.

Safon 58: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 58 rhaid i  
Weinidogion Cymru sicrhau nad ydynt yn trin y Gymraeg yn  
llai ffafriol na'r Saesneg ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn yr  
achos yma derbyniwyd cwyn ynglŷn â chyhoeddi fideos  
Saesneg yn unig ar gyfrif Facebook Cymraeg 'Mae Addysg  
yn dechrau yn y cartref.' Gan nad yw safon 58 yn  
berthnasol ar gyfer clipiau fideo a ddarperir drwy'r  
cyfryngau cymdeithasol rwyf o'r farn nad yw Gweinidogion  
Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 58 yn yr achos  
yma.

Safon 69: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 69 rhaid i  
Weinidogion Cymru beidio â thrin fersiwn Gymraeg o  
hysbysiad swyddogol yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.  
Yn yr achos yma fe gyhoeddodd Gweinidogion Cymru  
fideos Saesneg yn unig oedd yn darparu gwybodaeth  
swyddogol i'r cyhoedd. Gan bod Gweinidogion Cymru wedi  
cyhoeddi fideos Saesneg yn unig oedd yn darparu  
gwybodaeth swyddogol i'r cyhoedd rwy'n dyfarnu fod  
Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon  
69 yn yr achos yma.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 37 a 69 ond heb fethu â chydymffurfio â safon 58.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon safonau 37 a 69.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 37: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru ddiwygio ei ddogfen 'Canllawiau ar ddefnyddio'r Gymraeg yng ngwaith cyfathrebu a marchnata Llywodraeth Cymru' er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safon 37 pan yn cyhoeddi fideos ar eu gwefan neu ar eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

Safon 69: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

2. Rhaid i Weinidogion Cymru ddiwygio ei ddogfen 'Canllawiau ar ddefnyddio'r Gymraeg yng ngwaith cyfathrebu a marchnata Llywodraeth Cymru' er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safon 69 pan yn cyhoeddi fideos ar eu gwefan neu ar eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

3. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 09/12/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 19: Os yw corff yn ffonio unigolyn am y tro cyntaf, mae safon 19 yn cynnwys gofyniad sy'n yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ofyn i'r unigolyn a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrtho yn Gymraeg. Derbyniodd P alwad ffôn i'w ffôn symudol am 12.20pm ar 11 Medi 2020 gan drydydd parti a oedd yn gwneud gwaith ymchwil, ar ran Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, ynglŷn ag effaith COVID-19 ar les pobl. Ni wnaeth cyfwelydd y trydydd parti ofyn i P yn ystod yr alwad a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrtho yn Gymraeg. Yn hytrach, mewn ymateb i gais P ei hun i'r trydydd parti ddelio â hi yn Gymraeg, dywedodd y trydydd parti, gan gyfeirio at gwblhau'r arolwg dros y ffôn, "we can do it in English if you want to do it yourself". Arweiniodd hynny at ddryswch bod yr arolwg ond yn cael ei gynnig a'i gynnal yn Saesneg yn unig, ac nad oedd opsiwn ar gael i P i'r trydydd parti gwblhau'r arolwg gyda hi yn Gymraeg. Arweiniodd hynny yn ei dro i P derfynu'r alwad yn gynamserol, cyn roedd modd i'r trydydd parti egluro'r weithdrefn am sut y byddai P wedi gallu cwblhau'r arolwg yn Gymraeg.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

CSG769 Ar 16/09/2020, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnodd yr achwynydd (P) iddo dderbyn galwad ffôn i'w ffôn symudol am 12.20pm ar 11 Medi 2020 gan gwmni a oedd yn gwneud gwaith ymchwil, ar ran Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (D), ynglŷn ag effaith COVID-19 ar les pobl. Honnir i P ddweud y byddai'n hapus i gwblhau'r ymchwil, ond byddai angen trefnu i rywun sy'n siarad Cymraeg ei ffonio. Honnodd P i'r galwr ddweud nad oedd hynny'n bosibl gan mai dim ond yn Saesneg y mae'r cwmni'n cynnal yr ymchwil.

01/12/2021

Ymddiriedolaeth  
GIG Iechyd  
Cyhoeddus  
Cymru

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 19.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 19.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 19: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) roi trefniadau ar waith i sicrhau, pan fydd yn trefnu i drydydd parti ddarparu gwasanaeth ar ei ran, bod gofynion y safonau (y mae ICC dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw) sydd yn berthnasol i'r gwasanaeth dan sylw yn eglur i'r trydydd parti sy'n darparu'r gwasanaeth hwnnw. Rhaid i ICC sicrhau:

- bod unrhyw gytundebau neu contract a wneir rhwng ICC a'r trydydd parti yn:
- nodi pa safonau penodol sy'n gymwys i'r gwasanaeth y mae ICC wedi trefnu i'r trydydd parti ei ddarparu ar ei ran
- disgrifio'r gwasanaeth Cymraeg y mae angen i'r trydydd parti ei darparu yn unol â'r cytundeb/contract er mwyn sicrhau bod ICC yn cydymffurfio â'r safonau sy'n gymwys i'r gwasanaeth dan sylw
- bod ICC yn rhoi cyngor ac arweiniad i drydydd parti ar sut i ddarparu gwasanaethau sy'n cydymffurfio â'r safonau y mae ICC dan

ddyletswydd i gydymffurfio â nhw (e.e. darparu canllawiau, gweithdrefnau, dogfennau cyngor neu gyngor ymarferol arall i drydydd partïon yn ymwneud â gweithredu safonau'r Gymraeg)

2. Rhaid i ICC ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau'r cam gorfodi.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 01/12/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CS028/CS029 Derbyniais ddwy gŵyn gan aelodau o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y cwynion yn ymwneud â phroffion llif unffordd Covid-19 i athrawon a disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru. CS028: Dywed yr achwynydd bod ei mab wedi derbyn pecyn prawf llif unffordd (lateral flow test) Covid-19 drwy ei ysgol uwchradd. Mae'r achwynydd yn honni nad yw'r daflen wybodaeth oedd yn y pecyn

01/12/2021

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 4: Roedd wedi dod i'm sylw bod amheuaeth bod gohebiaeth oedd yn cael ei yrru i unigolion yn dilyn iddynt fewnbynnu canlyniad eu prawf llif unffordd COVID-19 ar wefan [www.gov.uk](http://www.gov.uk) yn cael ei yrru yn Saesneg yn unig. Mae Gweinidogion Cymru wedi datgan yn ei ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth ei fod yn derbyn a chytuno bod yr ohebiaeth dan sylw yn cael ei anfon yn uniaith Saesneg. Eglurir mai AIGC Llywodraeth y DU sydd yn gyfrifol am yr broses broffion llif unffordd COVID-19 a'i fod gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru wrth ddarparu'r gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru. Ymddengys bod yr ohebiaeth dan sylw bellach yn cael ei anfon yn Gymraeg ers 28 Mehefin 2021, ac felly bod cydymffurfiaeth wedi ei adfer. Serch

Gweinidogion  
Cymru

profi ar gael yn Gymraeg ac nad yw'r wefan ar gyfer mewnbynnu canlyniadau prawf y mab ar gael yn Gymraeg ychwaith.

CS029: Honnai'r achwynydd nad oes ffurflen ddigidol Gymraeg ar gyfer cofnodi canlyniadau prawf 'llif unffordd' fel athro i wefan [www.gov.uk](http://www.gov.uk).

Amheuon pellach: Mae wedi dod i'm sylw hefyd bod y rhai sydd yn cyflwyno canlyniadau profion llif unffordd ar wefan [gov.uk](http://gov.uk) hefyd yn derbyn neges destun a/neu neges dros e-bost yn cadarnhau derbyn y canlyniadau a chynnig cyngor pellach. Mae amheuaeth nad yw cynnwys y negeseuon hyn yn Gymraeg.

hynny, mae'n glir i mi, ar yr adeg yr oeddwn yn ystyried cynnal ymchwiliad i gwynion CS028 a CS029 nad oedd Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â safon 4 pan yn gohebu â unigolion yn dilyn iddynt fewnbynnu canlyniadau profion llif unffordd COVID-19 ar wefan [www.gov.uk](http://www.gov.uk). Rwyf eisoes wedi cyfeirio ym mharagraff 4.32 at yr angen i mi ddod i ddyfarniad ar sail y wybodaeth a'r amgylchiadau oedd yn berthnasol ar adeg y cyflwynodd yr achwynydd ei gŵyn i mi. Casglaf felly bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 4.

Safon 40: Mae safon 40 yn ei gwneud yn ofynnol ar Weinidogion Cymru i sicrhau, pan ei fod yn llunio dogfen sydd at ddefnydd y cyhoedd yn Saesneg, bod yn rhaid ei llunio yn Gymraeg. Mae Gweinidogion Cymru yn derbyn bod achwynydd cwyn CS028 wedi derbyn pecyn profi llif unffordd COVID-19 oedd â thaflen gyfarwyddiadau Saesneg yn unig. Mae Gweinidogion Cymru wedi egluro bod y daflen gyfarwyddiadau wedi ei llunio yn Gymraeg a'i bod ar gael ar ffurf electronig ar wefan Llywodraeth y DU ([www.gov.uk](http://www.gov.uk)). Casglaf felly nad oes methiant i gydymffurfio â safon 40 gan bod ddogfen dan sylw wedi ei llunio yn Gymraeg yn unol â gofynion y safon.

Safon 48: Mae safon 48 yn ei gwneud yn ofynnol ar Weinidogion Cymru i beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o ddogfen a lunnir yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Er bod fersiwn Gymraeg o'r daflen gyfarwyddiadau wedi ei llunio, nid yw yr un mor hygyrch a'r fersiwn Saesneg gan mai fersiwn electronig ar-lein yn unig yw'r fersiwn Gymraeg tra bo'r fersiwn Saesneg wedi ei



hargraffu a'i chynnwys ym mhob pecyn profi llif unffordd â ddsberthir i'r cyhoedd yng Nghymru.

Safon 50: Mae safon 50 yn ei gwneud yn ofynnol ar Weinidogion Cymru i lunio unrhyw ffurflen at ddefnydd y cyhoedd yn Gymraeg. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod nad oedd y ffurflen ar gyfer cofnodi canlyniadau profion llif unffordd COVID-19 ar gael yn Gymraeg ar wefan Llywodraeth y DU [www.gov.uk](http://www.gov.uk) ar yr adeg y cyflwynodd yr achwynwyr eu cwynion. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno diweddariad i gadarnhau bod y ffurflen ar gael yn Gymraeg ers 23 Medi 2021. Ymddengys felly bod Gweinidogion Cymru wedi cymryd camau i atal y methiant. Fodd bynnag, sefydlwyd yn achos Tribiwnlys y Gymraeg TyG/WLT/20/05 bod yn rhaid i'r Comisiynydd ystyried yr achos ar sail y wybodaeth a'r amgylchiadau oedd yn berthnasol pan wnaethpwyd y gŵyn i'r Comisiynydd. O ganlyniad, mae'n rhaid i mi gasglu bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 50 gan fod y ffurflen Gymraeg wedi ei lansio chwe mis yn hwyrach na'r ffurflen Saesneg.

Safon 52: Mae safon 52 yn ei gwneud yn ofynnol ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod testun pob tudalen ar ei wefan ar gael yn Gymraeg. Mae tudalen Report a COVID-19 rapid lateral flow test result - GOV.UK ([www.gov.uk](http://www.gov.uk)) ar wefan [www.gov.uk](http://www.gov.uk) yn cael ei darparu i'r cyhoedd yng Nghymru gan Lywodraeth y DU ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i mi wedi fy ngalluogi i gasglu nad oedd y dudalen we ar gyfer cofnodi canlyniadau profion llif unffordd COVID-19 ar gael yn Gymraeg ar yr adeg y cyflwynodd yr achwynwyr eu

cwynion. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno diweddariad i gadarnhau bod y dudalen we ar gael yn Gymraeg ers 23 Medi 2021. Ymddengys felly bod Gweinidogion Cymru wedi cymryd camau i atal y methiant. Fodd bynnag, yn unol â phenderfyniad Tribiwnlys y Gymraeg (achos TyG/WLT/20/05), mae'n rhaid i mi gasglu bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 52 gan fod y dudalen we Gymraeg wedi ei lansio chwe mis yn hwyrach na'r dudalen gyfatebol Saesneg.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 4, 48, 50 a 52 ond heb fethu â chydymffurfio â safon 40.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 4, 48, 50 a 52.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Llunio a chyhoeddi dogfennau (safon 48): Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau nad yw y fersiwn Gymraeg o'r daflen gyfarwyddiadau ar gyfer gwneud prawf llif unffordd COVID-19 yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.
2. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau bod y fersiwn Gymraeg o'r daflen gyfarwyddiadau ar gyfer gwneud prawf llif unffordd COVID-19 ar gael mewn ffordd sydd yr un mor hygyrch â'r fersiwn Saesneg.

3. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd yng Nghymru bod fersiwn Gymraeg o'r daflen gyfarwyddiadau ar gyfer gwneud prawf llif unffordd COVID-19 ar gael iddynt ei ddefnyddio.

Llunio a chyhoeddi ffurflenni (safon 50) a gwefannau a gwasanaethau ar-lein (safon 52): Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

4. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau bod gwefan gov.uk yn amlygu o'r cychwyn bod modd i'r cyhoedd gyflwyno canlyniadau prawf llif unffordd COVID-19 trwy gyfrwng y Gymraeg.

5. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r ffaith bod y gwasanaeth ar-lein ar gyfer cyflwyno canlyniadau prawf llif unffordd COVID-19 ar gael yn Gymraeg.

Gohebiaeth a anfonir gan gorff (safon 4), llunio a chyhoeddi dogfennau (safon 48), llunio a chyhoeddi ffurflenni (safon 50) a gwefannau a gwasanaethau ar-lein (safon 52): Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

6. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau bod AIGC Llywodraeth y DU yn galluogi Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg pan fo'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ar ei ran. Dylai'r dull o wneud y gofynion yn glir (yn yr achos hwn defnyddiwyd Memorandwm o Ddealltwriaeth) fod yn benodol ynghylch y gofynion ar y sawl sy'n gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru, fel nad oes risg i Weinidogion Cymru fethu cydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

7. Rwy'n ei gwneud yn ofynnol ar Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad llawn o'r modd y mae wedi gweithredu yn ystod cyfnod y pandemig COVID-19 yng nghyd-destun safonau'r Gymraeg.
8. Yn dilyn cynnal yr adolygiad, rwy'n ei gwneud yn ofynnol ar Weinidogion Cymru baratoi papur canfyddiadau a chynnwys adran am y gwersi a ddysgwyd. Rhaid hefyd cynhyrchu cyngor ymarferol yn egluro wrth staff sut i gynllunio a pharhau i weithredu'n Gymraeg mewn sefyllfaoedd brys. Rhaid atodi'r cyngor at gynllun(iau) parhad busnes y sefydliad.
9. Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad penodol o'r modd y sicrhair bod corff sy'n darparu gwasanaethau ar eu rhan (fel yr AIGC) yn eu galluogi i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Dylid cynnal yr adolygiad i alluogi Weinidogion Cymru i adnabod dull o bennu gofynion yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg ar bartion sy'n darparu gwasanaethau ar eu rhan, a fydd yn sicrhau y bydd Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â'r safonau yn y dyfodol.
10. Yn codi o ganfyddiadau adolygiad cam gweithredu 9, rwy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fabwysiadu trefniadau diwygiedig fel bod pob corff sy'n darparu ar ei ran yn gwbl glir ynghylch y gofynion penodol sy'n ofynnol iddynt eu rhoi ar waith er mwyn i Weinidogion Cymru allu cydymffurfio gyda safonau.
11. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 i 10

Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 01/12/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Mae Safon 1 yn ei gwneud yn ofynnol ar Weinidogion Cymru i ateb gohebiaeth yn Gymraeg pan fo'n derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bu i'r achwynydd dderbyn e-bost gan Weinidogion Cymru ar 19 Medi 2020 yn cadarnhau tocyn a archebwyd trwy gyfrwng y Gymraeg ar wefan Cadw. Er bod rhan helaeth o'r ohebiaeth yn Gymraeg, roedd rhai adrannau yn Saesneg yn unig. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod gwallau yn yr e-bost a yrrwyd ac wedi cymryd camau i ddatrys y gwallau hynny er mwyn sicrhau bod holl gynnwys yr e-bost bellach ar gael yn Gymraeg. Er bod camau bellach wedi eu cymryd camau i atal y methiant rhag parhau, rhaid i mi gasglu bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 1 ar yr adeg y derbyniodd yr achwynydd yr e-bost sydd yn sail i'r gŵyn yr ymchwiliad.

Safon 52: Mae Safon 52 gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod testun pob tudalen ar ei wefannau yn Gymraeg, yn gweithredu yn llawn ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd mân wallau ieithyddol ar ddewislen gwefan Cadw ar yr amser y gwnaeth yr achwynydd ymweld â'r wefan. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod y gwallau hyn wedi ymddangos ar ei wefan ac wedi cymryd camau i gywiro'r

CSG773 Ar 28 Medi 2020 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Dywed yr achwynydd iddo dderbyn e-bost gan Cadw yn dilyn archebu tocyn ar wefan Cadw. Honnai bod yr e-bost a dderbyniodd yn cadarnhau ei archeb yn cynnwys penawdau '*Billing address*' a '*Delivery address*' yn Saesneg yn unig, a bod cyfeiriad y sefydliad ar waelod yr e-bost hefyd yn Saesneg yn unig. Honnai'r achwynydd hefyd bod gwallau sillafu ar dudalennau Cymraeg gwefan Cadw. Cyflwynodd yr achwynydd sgrin luniau gyda ei chŵyn.

01/12/2021

Gweinidogion  
Cymru

gwallau. Ymddengys felly bod y methiant wedi ei atal rhag parhau. Fodd bynnag, mae'n rhaid casglu nad oedd Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio yn llawn gyda safon 52 ar yr adeg y gwnaeth yr achwynydd ymweld â'r wefan.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 1 a 52.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 1 a 52.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad o'i drefniadau mewn lle wrth ohebu â'r cyhoedd yng Nghymru mewn perthynas â gwerthiant tocynnau ar-lein i sicrhau bod yr ohebiaeth ddilynol yn cydymffurfio'n llawn â safon 1.
2. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod unrhyw dempledi cyfrwng Cymraeg a lunnir at bwrpas gohebu â'r cyhoedd ynglŷn ag archebion, yn gywir o ran cynnwys ac ansawdd.
3. Rhaid i Weinidogion Cymru roi mesurau mewn lle i fonitro cydymffurfiaeth â safon 1 pan fo darparwr trydydd parti yn darparu gwasanaeth i'r cyhoedd ar ei ran.
4. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 52: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg  
5. Rhaid i Weinidogion Cymru rhoi mesurau mewn lle i fonitro cynnwys ei wefan yn rheolaidd gan gynnwys gwirio ansawdd y testun ar ei dudalennau Cymraeg.

6. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 5.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 01/12/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

#### Cyngor Sir y Fflint

CSG803 Ar 16/11/2020 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn cwyno iddo fethu cael gwasanaeth yn Gymraeg drwy ffonio Cronfa Bensiynau Clwyd wedi iddo ffonio rhif ar lythyr derbyniodd ganddynt. Mae gwasanaeth Cronfa Bensiynau

01/12/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 19: Gofynion safon 19 yw bod rhaid delio â galwadau uniongyrchol yn Gymraeg hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. Yn yr achos yma mae'r Cyngor heb gynnal yr alwad ffôn wreiddiol gyda'r achwynydd yn Gymraeg, gan mai dim ond y cyfarchiad oedd yn Gymraeg. Rwy'n dyfarnu bod methiant i gydymffurfio â safon 19 yn yr achos yma.

Clwyd yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir y Fflint (“Y Cyngor”).

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir y Fflint wedi methu â chydymffurfio â safon 19.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir y Fflint wedi methu â chydymffurfio â safon 19.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

1. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint wneud y canlynol:

- Ail-ystyried gofynion Safon 19
- Adolygu ei ganllawiau i adlewyrchu gofynion y safon
- Newid ei drefniant delio â galwadau ffôn i gydymffurfio â gofynion Safon 19
- Hyfforddi staff perthnasol am ofynion y safon

2. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint ddarparu tystiolaeth i mi ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir y Fflint ar 01/12/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Gweinidogion  
Cymru

CSG782 Ar 30 Medi 2020  
derbyniais gŵyn gan aelod o'r  
cyhoedd. Roedd yn bodloni

30/11/2021

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 58: Mae safon 58 yn ei gwneud yn ofynnol ar Weinidogion Cymru i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol



amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Mae'r achwynydd yn honni bod un o Weinidogion Cymru wedi cyhoeddi neges ar ei chyfrif Twitter (@walesintheworld) yn uniaith Saesneg. Darparwyd sgrinlun o'r neges dan sylw. Wrth ystyried tystiolaeth yr achwynydd, daeth i sylw'r Comisiynydd bod enw'r cyfrif Twitter dan sylw wedi newid o enw'r Gweinidog (Eluned Morgan) fel ag yr oedd ym mis Medi 2020 i enw uniaith Saesneg '*Welsh Government International*' erbyn Mawrth 2021.

na'r Saesneg ar ei gyfryngau cymdeithasol. Mae'n ofynnol ar Weinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 58 ymhob amgylchiad, ac eithrio cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir ar gyfer cynulleidfaoedd a ragwelir sydd wedi eu lleoli tu allan i Gymru. Roedd cyfrif @walesintheworld yn gyfrif swyddogol y Gweinidog dros iaith Gymraeg a chysylltiadau rhyngwladol. Tra bod cyfran o'r gynulleidfa a ragwelir ar gyfer y cyfrif hwn yn debygol o fod y tu allan i Gymru, cesglir hefyd bod cyfran fawr o'r gynulleidfa a ragwelir wedi eu lleoli yng Nghymru ac hefyd yn siaradwyr Cymraeg. Ar 29 Medi 2020 cyhoeddodd Gweinidogion Cymru neges ar y cyfrif Twitter dan sylw yn Saesneg yn unig. Casglaf bod y wybodaeth a gyhoeddwyd yn y neges o ddi-ddordeb i'r cyhoedd yng Nghymru ac felly nad oedd yr eithriad yn safon 58 yn gymwys yn achos y neges hon. Casglaf felly bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 58 yn yr achos hwn.

Safon 83: Mae safon 83 yn ei gwneud yn ofynnol ar Weinidogion Cymru i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth iddo lunio, cyflwyno neu ddiwygio ei hunaniaeth gorfforaethol. Rhwng Mehefin 2016 a Mehefin 2021 roedd Gweinidogion Cymru yn cyflwyno ei hunaniaeth gorfforaethol drwy gyfrwng cyfrif ar Twitter oedd â enw defnyddiwr (@walesintheworld) ac enw cyfrif (Welsh Government International) oedd yn Saesneg yn unig. Mae Gweinidogion Cymru eisoes wedi cymryd camau i atal y methiant rhag parhau, fodd bynnag ar yr adeg y cyflwynodd yr achwynydd ei gŵyn, roedd Gweinidogion Cymru yn methu â chydymffurfio â safon 83.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 58 ac 83.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 58 ac 83.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 58: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru ddiwygio ei ddogfen *Canllawiau ar gyfer defnyddio'r iaith Gymraeg yng ngwaith cyfathrebu a marchnata Llywodraeth Cymru* er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safon 58 pan yn llunio testun wrth:

- ymateb yn gyhoeddus i neges ar ei gyfryngau cymdeithasol, neu

- rannu negeseuon ar ei gyfryngau cymdeithasol.

2. Rhaid i Weinidogion Cymru ddiwygio cymalau 3.24 a 3.25 y canllaw i'w gwneud yn glir bod angen i unrhyw destun a lunnir gan Weinidogion Cymru fod yn Gymraeg wrth ymateb i negeseuon neu wrth ail-drydar negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol (ac eithrio cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir ar gyfer cynulleidfaoedd a ragwelir sydd wedi eu lleoli tu allan i Gymru).

3. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni'r Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 -2.

Safon 83: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

4. Rhaid i weinidogion Cymru ddiwygio ei ddogfen 'Canllawiau ar gyfer defnyddio'r iaith Gymraeg yng ngwaith cyfathrebu a marchnata Llywodraeth Cymru' i gynnwys cyfarwyddyd bod angen sicrhau bod enwau cyfrifon ac enwau defnyddwyr (neu 'handles') a ddefnyddir ar ei gyfryngau cymdeithasol yn cydymffurfio gyda gofynion safon 83.

5. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni'r Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 4.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 30/11/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Gweinidogion  
Cymru (Cyllid  
Myfyrwyr  
Cymru)

CS011 Ar 9 Chwefror 2021, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Cyflwynodd yr achwynydd gŵyn yn honni iddo ffonio llinell gymorth Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar y rhif 0300 100 0611 ar fore 9

25/11/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 10: Mae safon 10 yn gofyn i Weinidogion Cymru sicrhau eu bod yn delio â galwadau i'w rhifau llinell gymorth yn Gymraeg yn eu cyfanrwydd, os yw'r person sy'n galw yn dymuno hynny. Ar fore 9 Chwefror, 2021 ffoniodd yr achwynydd linell gymorth Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar y rhif 0300 100 0611. Yn dilyn dewis yr opsiwn Cymraeg dewisodd opsiwn 2 – Ad-daliadau, a chafodd neges awtomatig yn datgan "I can't find the audio sorry" a doedd

Chwefror, 2021. Yn dilyn dewis yr opsiwn Cymraeg dewisodd opsiwn 2 – Ad-daliadau, a chafodd neges awtomatig yn datgan “*I can't find the audio sorry*” a doedd dim modd parhau â'r alwad.

dim modd parhau â'r alwad. O ganlyniad i nam technegol yn y system, nododd Gweinidogion Cymru ei fod yn cytuno gyda honiadau'r achwynydd nad oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael i wneud ad-daliadau dros y ffôn ar y rhif 0300 100 0611 ar 9 Chwefror 2021.

Safon 157: Mae'r safon yn gofyn i gorff sicrhau bod ganddo drefniadau ar gyfer goruchwyllo'r modd y mae yn cydymffurfio â'r safonau, yn hybu'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig yn unol â'r safonau hynny, a hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny. Mae'n gofyn yn ogystal ar i gorff gyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar ei wefan, a sicrhau bod copi o'r ddogfen ar gael ym mhob swyddfa sy'n agored i'r cyhoedd. Nid oes gan Weinidogion Cymru drefniadau cyhoeddedig ar gyfer goruchwyllo cydymffurfiaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru â safonau'r Gymraeg. Yn absenoldeb dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau ar gyfer goruchwyllo, hybu a hwyluso'r gwasanaethau Cymraeg a gynigir gan Cyllid Myfyrwyr Cymru, nid oes copi wedi ei gyhoeddi. Mae hyn yn dangos methiant i gydymffurfio â gofynion safon 157.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 10 a 157.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 157.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 157: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru lunio dogfen sydd yn goruchwyllo'r modd y mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg.
2. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r ddogfen ar ei wefan, ar dudalen gwe Cyllid Myfyrwyr Cymru.
3. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod pecyn sydd yn hybu a hwyluso'r gwasanaethau Gymraeg a gynigir ganddo, ar gael i fyfyrwyr.
4. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.

Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 25/11/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Bwrdeistref Sirol  
Torfaen

CS046 Yn dilyn ymholiad gan aelod o'r cyhoedd ynghylch gwersi nofio yn ardal Cyngor Bwrdeistref Torfaen ("Y Cyngor"), cafodd un o'm swyddogion reswm i edrych ar ddarpariaeth gwasanaethau hamdden Y Cyngor a'r modd defnyddir y Gymraeg yn y

22/11/2021

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 52: Mae safon 52 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod tudalennau ei wefannau a'i wasanaethau ar lein ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau a'r gwasanaethau hynny. Yn y mater hwn, mae'r cyfrifoldeb am gydymffurfiaeth ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i sicrhau bod testun pob tudalen o

gwasanaethau hynny. Daeth yr ymholiad gan aelod o'r cyhoedd oedd am archebu gwersi nofio Cymraeg, ond nid oedd modd gwneud hynny.

Wrth edrych i mewn i'r ymholiad ac edrych yn benodol ar y porth archebu, daeth fy swyddog ar draws y porth archebu a deall mae Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen ("Yr Ymddiriedolaeth") oedd yn darparu'r gwasanaethau hamdden yn ardal Torfaen ar ran y Cyngor. Yn sgil yr ymholiad gwreiddiol ynglŷn ag archebu gwersi nofio ar borth archebu'r Ymddiriedolaeth, sylweddolodd fy swyddog bod gwefan yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys diffygion, gan gynnwys y canlynol:

- Nid oedd y wefan ar gael yn Gymraeg;
  - Nid oedd unrhyw sôn am ddarparu gwersi nofio yn Gymraeg.
- Wrth ystyried y wefan a'r ddarpariaeth i archebu gwasanaethau hamdden yn ardal Torfaen, penderfynwyd ymchwilio i'r ddarpariaeth a pham bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth archebu

wasanaethau'r Cyngor ar gael yn Gymraeg. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i mi yn fy ngalluogi i gasglu nad yw'r dudalen we ar gyfer gwasanaethau hamdden yn ardal Torfaen ar gael yn Gymraeg. Yn ogystal, ar sail yr ymatebion ddarparwyd gan y Cyngor, teimlaf nad oes ymrwymiad digonol i ddarparu'r gwasanaethau hamdden, porth archebu na'r wefan yn Gymraeg yn y dyfodol a does dim ymrwymiad pendant a dyddiad i greu gwefan na phorth archebu yn Gymraeg yn sgil y safonau osodwyd. Casglaf felly bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

Safon 55: Mae safon 55 yn ei gwneud yn ofynnol ar Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i sicrhau bod unrhyw tudalen Gymraeg ar wefan yn cyfateb i dudalen Saesneg gan nodi hyn neu ddarparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i mi yn fy ngalluogi i gasglu nad oes unrhyw dudalen Gymraeg ar wefan yr Ymddiriedolaeth. O ganlyniad, nid oes angen nodi nac ychwaith gynnwys dolen uniongyrchol at dudalen Gymraeg o dudalen Saesneg gyfatebol yr Ymddiriedolaeth. Ar sail y canfyddiadau uchod, ac wrth ystyried geriad Safon 55, nid yw hyn yn fethiant i gydymffurfio â safon 55.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safon 52 ond heb fethu â chydymffurfio â safon 55.

### **Datganiad gweithredu pellach**

gwasanaethau hamdden y Cyngor ar-lein yn Nhorfaen.

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 52 : Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen sicrhau fod pob tudalen gwefan sy'n cael ei ddarparu ar ei ran gan Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen yn cydymffurfio â gofynion safon 52.
2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistrefol Sirol Torfaen sicrhau fod y porth archebu gwasanaethau sy'n cael ei ddarparu ar ei ran gan Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen yn cydymffurfio â gofynion safon 52 o'r dyddiad y bydd ar gael i'w ddefnyddio gan y cyhoedd.
3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gynnal adolygiad o'i drefniadau sy'n galluogi i weithgaredd gael ei gyflawni ar ran y Cyngor, neu i wasanaeth gael ei gyflawni ar ei ran gan drydydd parti, er mwyn sicrhau fod y gofynion i gydymffurfio â safonau' Gymraeg wedi eu cynnwys yn y trefniadau a wneir rhwng y trydydd parti a'r Cyngor.
4. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen atgoffa staff perthnasol (gan gynnwys staff Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen) o'r ddyletswydd statudol i gydymffurfio â safon 52 a 55.
5. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gymryd camau i godi ymwybyddiaeth staff sy'n gyfrifol am alluogi i weithgaredd gael ei gyflawni ar ran y Cyngor, neu i wasanaeth gael ei gyflawni ar ei ran gan drydydd parti, er mwyn sicrhau fod y gofynion i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn glir.

6. Yn unol â Adran 76(3)(a) o Mesur y Gymraeg, argymhellir fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen yn creu ac yn datblygu gwefan Gymraeg am y gwasanaethau ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth yn unol ag ysbryd Mesur y Gymraeg 2011.

7. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 – 6.

Amserlen: Rhaid cydymffurfio â chamau gorfodi 1, 3, 4, 5, 6 a 7 o fewn 3 mis. Rhaid cydymffurfio â cham gorfodi 2 erbyn y diwrnod y bydd y gwasanaeth Saesneg ar gael i'w ddefnyddio gan y cyhoedd.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar 22/11/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CS018 Ar 05/03/2021 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Dyma honiad na wnaeth y Cyngor nodi wrth hysbysebu swydd y Prif Weithredwr mewn Pecyn Recriwtio bod angen i'r ymgeisydd siarad Cymraeg.

22/11/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 136A: Mae safon 136A yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor, os yw wedi categorio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, neu fod angen dysgu, bennu hynny wrth hysbysebu'r swydd; a hysbysebu'r swydd yn Gymraeg. Mae'r Cyngor yn yr achos yma wedi categorio swydd y Prif Weithredwr fel un ble mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, ac felly mae safon 136A yn weithredol yma. Dyma'r tri mater dan ystyriaeth:  
1. Nid yw'r Cyngor wedi pennu'r categori iaith yn y Pecyn Recriwtio;

Cyngor  
Gwynedd



2. Nid yw'r Cyngor wedi pennu'r categori iaith ar ochr Gymraeg y wefan;
3. Nid yw'r Cyngor wedi pennu'r categori iaith yn Gymraeg o gwbl wrth hysbysebu'r swydd. 3.20 Mae mater un a dau yn fethiant i gydymffurfio â'r safon gan fod rhaid i'r Cyngor bennu'r categori iaith wrth hysbysebu'r swydd, ac mae hyn yn cynnwys Pecyn Recriwtio ac ar ochr Gymraeg y wefan. Mae'r trydydd mater yn fethiant i gydymffurfio â'r safon gan fod safon 136A(b) yn berthnasol ar gyfer yr holl hysbyseb, ac felly rhaid i'r frawddeg sy'n pennu'r categori iaith fod yn Gymraeg ar yr hysbyseb swydd.

Safon 137: Mae safon 137 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor, wrth hysbysebu swydd, ddatgan y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais Cymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na chais Saesneg. Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw datganiad o'r fath yn cael ei gynnwys wrth hysbysebu'r swydd. Mae'n dadlau bod ei gynnwys mewn gohebiaeth ddilynol yn bodloni'r safon. Nid yw hyn yn wir, gan fod y safon yn ei wneud yn glir bod rhaid cynnwys y datganiad gael ei arddangos wrth hysbysebu'r swydd. Mae hyn felly yn fethiant i gydymffurfio â safon 137.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Gwynedd wedi methu â chydymffurfio â safonau 136A a 137.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Gwynedd wedi methu â chydymffurfio â safonau 136A a 137.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 136A: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Pan mae'r Cyngor yn hysbysebu swyddi gan ddilyn trefn hysbysebu wahanol i'r drefn arferol, rhaid i'r Cyngor sicrhau'r canlynol: a. Rhaid i'r Cyngor bennu categori iaith y swydd yn yr holl hysbysebion swyddi, gan gofio mai enghreifftiau yn unig sydd ar y rhestr yn y Cod Ymarfer, ac felly mae mathau eraill o hysbysebion swyddi hefyd yn gymwys, e.e. Pecyn Recriwtio.

b. Rhaid i'r Cyngor ddefnyddio union eiriad y safon wrth bennu'r categori iaith, hynny yw, bod sgiliau yn y Gymraeg yn 'hanfodol, yn ddymunol, neu angen eu dysgu'.

c. Rhaid i'r Cyngor bennu'r categori iaith yn Gymraeg yn ei holl hysbysebion er mwyn cydymffurfio'n llawn gyda'r safon.

2. Rhaid i'r Cyngor addasu ei Bolisi Recriwtio a Phenodi er mwyn adlewyrchu'r tri phwynt uchod, fel ei fod yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio yn llawn â safon 136A yn y dyfodol ar gyfer swyddi lle dilynir trefn hysbysebu wahanol i'r drefn arferol.

3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: O fewn mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 137: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

4. Pan mae'r Cyngor yn hysbysebu swyddi gan dilyn trefn hysbysebu wahanol i'r arfer, rhaid i'r Cyngor gyflawni'r canlynol:

a) Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cynnwys datganiad wrth hysbysebu'r swyddi sy'n cyfleu y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais Cymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na chais Saesneg.

5. Rhaid i'r Cyngor addasu ei Bolisi Recriwtio a Phenodi er mwyn sicrhau bod gofynion safon 137 yn glir ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn yn y dyfodol wrth hysbysebu swyddi gan ddilyn trefn wahanol i'r arfer.

6. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 4 a 5.

Amserlen: O fewn mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Gwynedd ar 22/11/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Bwrdeistref Sirol  
Wrecsam

CSG774 a CS019 Ar 22/09/2020, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r

10/11/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd** CS019

Safon 4: Mae safon 4 yn ei wneud yn ofynnol i gorff anfon unrhyw ohebiaeth sy'n mynd at nifer o bersonau yn ddwyieithog, beth bynnag fo dewis iaith y cwsmer. Yn yr achos yma, mae'r achwynydd wedi derbyn e-bost Saesneg

achwynydd iddo dderbyn neges e-bost Saesneg yn unig gan y Cyngor ar 15/09/2020 yn cadarnhau derbyn taliad gan yr achwynydd mewn perthynas â gwasanaeth casglu gwastraff gardd. Ffurfiodd y gŵyn yma ymchwiliad CSG774.

Ar 07/03/2021, derbyniais gŵyn gan yr un aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd iddo dderbyn neges e-bost Saesneg yn unig ar 01/03/2021 gan y Cyngor mewn perthynas â gwastraff gardd. Ffurfiodd y gŵyn yma ymchwiliad CS019.

Gan fod y ddau ymchwiliad yn ymwneud â'r un achwynydd, ac yn deillio o'r un galwadau ffôn, penderfynais gyfuno'r ddau adroddiad i greu un gan roi dyfarniad ar wahân ar gyfer y ddau ymchwiliad.

yn unig gan y Cyngor yn ymwneud â gwasanaeth casglu gwastraff gardd. Dywedai'r Cyngor bod hyn oherwydd bod Saesneg wedi ei nodi fel dewis iaith yr achwynydd mewn camgymeriad. Nid yw hyn mewn gwirionedd yn effeithio fy nyfarniad gan na ddylai dewis iaith gael ei ystyried wrth anfon gohebiaeth at nifer o bersonau. Mae'r Cyngor felly wedi methu cydymffurfio â safon 4.

Gofyniad yn hysbysiad penderfynu CSG769: Mae'r cam gorfodi osodwyd ar y Cyngor yn ei wneud yn glir bod angen iddynt sicrhau bod llythyrau anfonir at nifer o bersonau yn cael eu hanfon yn Gymraeg a Saesneg er mwyn cydymffurfio â safon 4. Yn yr achos yma, derbyniodd yr achwynydd ohebiaeth oedd yn mynd at nifer o bersonau yn Saesneg yn unig. Mae hyn yn fethiant gan y cyngor i gydymffurfio â'r gofyniad yn hysbysiad penderfynu ymchwiliad CSG719.

#### CSG774

Safon 2: Mae safon 2 yn berthnasol ar gyfer y tro cyntaf mae sefydliad yn gohebu gydag unigolyn. Wrth wneud hyn, mae'n rhaid i sefydliad ofyn i gwsmer a yw'n dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, ac os ydi, yna rhaid gwneud cofnod o hynny a gohebu â'r cwsmer yn Gymraeg o hynny ymlaen. Yn dilyn derbyn y ffeithiau yn llawn gan y Cyngor, mae wedi dod i'r amlwg nad dyma'r tro cyntaf i'r Cyngor ohebu gyda'r achwynydd, ac felly nid yw safon 2 yn berthnasol. Nid oes methiant yma i gydymffurfio â safon 2.

Safon 5: Mae safon 5 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth os nad yw'n gwybod a yw person yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.

Mae wedi dod i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad mai gohebiaeth at nifer o bersonau sydd dan sylw'r gŵyn, ac felly safon 4 sy'n berthnasol, nid safon 5. Nid oes methiant felly i gydymffurfio â safon 5.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

#### CS019

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 4 a gofyniad yn hysbysiad penderfynu ymchwiliad CSG719.

#### CSG774

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam heb fethu â chydymffurfio â safonau 2 a 5.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 4 a gofyniad yn hysbysiad penderfynu ymchwiliad CSG719.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

#### CS019

Safon 4: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw ohebiaeth sy'n mynd at nifer o bersonau yn cael ei anfon yn Gymraeg, a hynny ar yr un pryd ag y mae'n anfon unrhyw fersiwn Saesneg. Mae hyn yn wir beth bynnag fo dewis iaith y cwsmeriaid.

2. Rhaid i'r Cyngor addasu ei ganllawiau er mwyn sicrhau bod gofynion safon 4 yn cael ei egluro'n llawn i'r staff. Rhaid i'r canllawiau egluro'r canlynol:

I. Pa fath o ohebiaeth sy'n cael ei ystyried fel gohebiaeth sy'n mynd at 'nifer o bersonau'. Nid oes rhaid i ohebiaeth fynd at fwy nag un person ar yr un pryd er mwyn dod o dan y categori yma.

II. Nid yw dewis iaith y cwsmer yn effeithio gofynion safon 4 os yw'r ohebiaeth dan sylw yn mynd at nifer o bersonau. Rhaid i'r math yma o ohebiaeth gael ei anfon yn ddwyieithog.

3. Rhaid i'r Cyngor dynnu sylw'r staff perthnasol at y newidiadau yma i'r canllawiau.

4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1, 2 a 3.

Amserlen: O fewn mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 10/11/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 56: Gofynion safon 56 yw bod rhaid i sefydliad ddarparu rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar ei wefan yn Gymraeg. Yn yr achos yma, mae'r Cyngor yn nodi i mi bod y system yn ddwyieithog, gyda dewisiadau iaith ar gael yn fewnol ac yn allanol, a bod problemau

Cyngor  
Caerdydd

CS051 Ar 13/05/2021 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn honni bod Cyngor Caerdydd wedi

05/11/2021

cyhoeddi gwahoddiad i dendro yn Saesneg yn unig. Nododd yr achwynydd fod y tendr yn effeithio ar ganolfan sydd wedi ei phenodi ar gyfer y Gymraeg, sef yr Hen Lyfrgell yng Nghaerdydd.

cyfredol gyda'r cwymplenni allanol yn cael eu datrys. Mae hyn yn golygu nad oes methiant i gydymffurfio â gofynion safon 56.

Safon 76: Gofynion safon 76 yw bod rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro gan gorff cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a bod rhaid peidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r tendrau yn llai ffafriol na thendrau a gyflwynir yn Saesneg. Yn yr achos yma, mae'r amrywiad i'r safon ar gyfer Cyngor Caerdydd yn nodi bod rhaid cydymffurfio â safon 76 yn yr amgylchiadau isod: (a) Os yw pwnc y gwahoddiad i dendro am gontract yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg, neu (b) Os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cyhoeddi'r gwahoddiad yn Gymraeg. Gan mai adeilad "Yr Hen Lyfrgell" sydd dan sylw, oedd yn y gorffennol yn ganolfan i faterion Cymraeg, mae'r cymalau (a) a (b) uchod yn weithredol. Oherwydd na hysbysebwyd y tendr yn wreiddiol yn Gymraeg, (drwy'r ddogfen dendro na'r wefan), mae methiant i gydymffurfio â gofynion safon 76, ac mae'r Cyngor yn nodi'n glir mai camgymeriad oedd hyn. Mae methiant arall ar y sail bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol yn y ddogfen dendro diwygiedig dwyieithog a ddarparwyd i mi. Mae hyn ar y sail bod y testun Saesneg yn ymddangos cyn y testun Cymraeg ar ddogfen dendro diwygiedig y Cyngor. Mae'r Cyngor yn ddiffuant ac yn glir yn ei esboniad bod camgymeriad wedi bod yn y sefyllfa yma, ac y mae wedi dosbarthu dogfennaeth i atgoffa staff a thrydydd partïon am ofynion safonau'r Gymraeg wrth dendro.

Safon 77: Gofynion safon 77 yw bod rhaid i gorff ddatgan mewn gwahoddiad i dendro bod modd i dendrwr gyflwyno

tendr yn Gymraeg ac na chaiff tendr o'r fath ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg. Yn yr achos yma, nid oedd datganiad o'r fath unman ar y ddogfen dendro nac ar wefan EJ Hales. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â gofynion safon 77 oherwydd nad oedd y ddogfen dendro nac unrhyw wybodaeth ar wefan EJ Hales yn nodi bod modd cyflwyno tendr yn Gymraeg ac na fyddai tendr o'r fath yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.

Safon 50: Gofynion safon 50 yw bod rhaid i bob ffurflen y mae corff yn ei llunio at ddefnydd y cyhoedd cael ei llunio yn Gymraeg. Mae dehongliad y safon, fodd bynnag, yn esbonio nad yw'r safon yn gymwys mewn sefyllfa tendro. Yn yr achos yma, sefyllfa tendro sydd dan sylw felly nid oes methiant i gydymffurfio â safon 50.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safonau 76 a 77 ond heb fethu â chydymffurfio â safonau 56 a 50.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safonau 76 a 77.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 76: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg



1. Rhaid i Gyngor Caerdydd adolygu ei ganllaw gwirio mewnol a'i ganllaw i drydydd partiön i gynnwys gofynion safonau'r Gymraeg sy'n ymwneud â thendro.
  2. Rhaid i Gyngor Caerdydd nodi i sefydliadau allanol sydd yn hysbysebu neu yn gweinyddu tendrau ar ran y Cyngor holl ofynion safon 76, a'r amrywiad termau, gan gynnwys yr angen am dudalennau gwefan Cymraeg pan yn hysbysebu neu gweinyddu tendrau ar ran y Cyngor ar wefan.
  3. Rhaid i Gyngor Caerdydd greu fformat addas i'w dogfennau dendro sydd ddim yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol, yn unol â gofynion safon 76. Mae hyn yn cynnwys hysbysu trydydd partiön sydd yn creu dogfennau tendro ar gyfer y Cyngor am natur y gofynion.
  4. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.
- Amserlen: O fewn tri mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 77: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

5. Rhaid i Gyngor Caerdydd adolygu ei ganllawiau tendro, gan wneud gofynion safon 77 yn glir i staff mewnol a thrydydd partiön.
  6. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 5.
- Amserlen: O fewn tri mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 05/11/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CSG798 Ar 03/11/2020 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Dyma gŵyn am safon y Gymraeg ar wefan Freedom Leisure sy'n darparu gwasanaeth ar ran y Cyngor. Cyfeiriodd yr achwynydd yn benodol at y dudalen gwersi nofio: <https://www.freedom-leisure.co.uk/welsh/centres/canolfan-hamdden-agweithgareddau%E2%80%99r-waun/newyddion/mae-gwersi-nofio-yn-%C3%B4!!/>. Darparodd yr achwynydd yr enghreifftiau canlynol: "Or 7fed o Medi"  
"Mae pob amser dosbarth yn syfrdanol o 10 munud..."  
Dangosodd archwiliad pen desg y swyddog ymchwilio a gorfodi bod amheuaeth bod mwy o dudalennau ar y wefan yn methu cydymffurfio â'r safon.

28/10/2021

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 52: Mae safon 52 yn ei wneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod tudalennau ei wefannau a'i wasanaethau ar-lein ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau a'r gwasanaethau hynny. Yn yr achos yma, mae gwallau ieithyddol niferus i'w gweld ar wefan Freedom Leisure, sy'n darparu gwasanaeth ar ran y Cyngor. Mae yma hefyd enghraifft o dudalen sy'n llawn gwybodaeth ar ochr Saesneg y wefan, ond yn wag ar ochr Gymraeg y wefan. Mae hyn yn fethiant clir i gydymffurfio â safon 52.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Safon 52: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Cyngor  
Bwrdeistref Sirol  
Wreccsam

1. Rhaid i'r Cyngor wirio holl dudalennau perthnasol Freedom Leisure er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafrïol ar draws y wefan. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad oes gwallau ieithyddol yn bodoli, a bod yr holl wybodaeth yn gyflawn ar ochr Gymraeg y wefan.
  2. Rhaid i'r Cyngor gryfhau'r broses o brawf ddarllen testun gwefan Freedom Leisure cyn iddo gael ei gyhoeddi er mwyn sicrhau nad oes gwallau ieithyddol yn bodoli yn y dyfodol.
  3. Rhaid i'r Cyngor atgoffa staff perthnasol (gan gynnwys staff Freedom Leisure) o'r dyletswydd statudol i gydymffurfio â safon 52 bob amser.
  4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1, 2 a 3.
- Amserlen: O fewn mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam ar 28/10/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Bwrdeistref Sirol  
Wreccsam

CSG772(a) Ar 11/09/2020 derbynias gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd bod cyfrif

26/10/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 58: Mae safon 58 yn ei wneud yn ofynnol i gorff sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafrïol na'r Saesneg wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Yn yr achos yma, mae'r Cyngor wedi rhannu

Twitter Cymraeg y Cyngor wedi rhannu neges uniaith Saesneg gan gyfrif Llywodraeth Cymru, a hynny er bod fersiwn Gymraeg o'r neges ar gael.

neges Saesneg yn unig gan Lywodraeth Cymru ar ei gyfrif Twitter Cymraeg, er bod fersiwn Gymraeg o'r neges ar gael. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â safon 58.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu â chydymffurfio â safon 58.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu â chydymffurfio â safon 58.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 58: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rwy'n ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw neges sy'n cael ei ail-drydar ar ei gyfrif Twitter Cymraeg yn cael ei rannu yn Gymraeg os oes fersiwn Gymraeg ar gael.
2. Rwy'n ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor addasu ei ganllawiau er mwyn gwneud yn glir beth yw gofynion safon 58.
3. Rwy'n ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor godi ymwybyddiaeth y staff o'r canllawiau diweddaraf er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o ofynion safon 58.
4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1, 2 a 3.

Amserlen: O fewn 1 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 26/10/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CSG801 Ar 11 Tachwedd 2020 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn honni nad oedd canllawiau cyfnod clo a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar 19 Hydref 2020 ar gael yn Gymraeg pan gyhoeddwyd neges ar gyfrif Twitter Llywodraeth Cymru (@WelshGovernment) am 12:51pm ar 19 Hydref 2020 oedd â dolen i'r canllawiau dan sylw. Darparodd yr achwynydd sgrin luniau o'r tudalennau dan sylw. Cyd-destun pellach: Ar 19 Hydref 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei fwriad i orfodi cyfnod atal byr (firebreak) i atal lledaeniad y firws COVID-19. Byddai'n weithredol o 23 Hydref 2020 hyd at 9 Tachwedd 2020. Roedd y canllawiau sydd yn sail i gŵyn yr

22/10/2021

Gweinidogion  
Cymru

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safonau 52 a 56: Mae safon 52 yn ei gwneud yn ofynnol ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod ei dudalennau gwe ar gael yn Gymraeg ac nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae safon 56 yn ei gwneud yn ofynnol ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rhyngwyneb a dewislenni ar er i wefan ar gael yn Gymraeg. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod iddo gyhoeddi gwybodaeth ar ei wefan yn Saesneg yn unig am gyfnod o 2 awr a 42 munud ar 19 Hydref 2020 cyn cyhoeddi'r fersiwn gyfatebol Gymraeg. Mae methiant i gyhoeddi'r canllawiau ar y cyfnod atal byr yn Gymraeg yr un pryd a'r canllawiau Saesneg yn golygu bod y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn yr achos hwn. Casglaf felly bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 52 a 56.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 52 a 56.

### **Datganiad gweithredu pellach**

achwynydd yn rhai dros dro i ddarparu cyngor ac arweiniad i'r cyhoedd am y cyfnod atal byr penodol hwn.

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 52 a 56.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Gwefannau a Gwasanaethau ar-lein (Safonau 52 a 56):  
Gofyniad i gymryd camau unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau bod gwybodaeth frys at sylw'r cyhoedd yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi ar ei wefan yn Gymraeg cyn neu yr un pryd ac y mae'n cyhoeddi'r wybodaeth honno yn Saesneg.
  2. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad llawn o'i drefniadau a'r modd y mae wedi gweithredu yn ystod cyfnod y pandemig COVID-19 yng nghyd-destun cydymffurfiaeth a safonau'r Gymraeg wrth gyhoeddi gwybodaeth ar frys i'r cyhoedd ar ei wefan.
  3. Yn dilyn cynnal yr adolygiad, rwy'n ei gwneud yn ofynnol ar Weinidogion Cymru baratoi papur canfyddiadau a chynnwys adran am y gwersi a ddysgwyd. Rhaid hefyd cynhyrchu cyngor ymarferol yn egluro wrth staff sut i gynllunio a pharhau i weithredu'n Gymraeg mewn sefyllfaoedd brys. Rhaid atodi'r cyngor at gynllun(iau) parhad busnes y sefydliad.
  4. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 i 3.
- Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 22/10/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 33: Mae safon 33 yn ei gwneud yn ofynnol ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael ym mhob cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd ac i hysbysu'r rheiny sy'n bresennol bod y gwasanaeth ar gael a bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg. Er mwyn bod yn gyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd at ddibenion safon 33, casglaf bod rhaid i aelodau'r cyhoedd fod yn "bresennol" yn y cyfarfod boed hynny drwy fod yno mewn person neu yn rhithiol (megis drwy ddolen fideo uniongyrchol) os yw'n galluogi trafod neu ryngweithio ddwy ffordd a bod cyswllt uniongyrchol. Casglaf nad oedd aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn y cynadleddau i'r wasg oedd yn destun yr ymchwiliad gan mai trwy ddarllediad yn unig oedd modd iddynt eu dilyn ac felly nad oedd y cynadleddau hynny yn disgyn o fewn darpariaethau safon 33. Gan nad yw safon 33 yn berthnasol i'r cynadleddau i'r wasg dan sylw, ni allaf ddyfarnu bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â'r safon.

Safon 36: Mae safon 36 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau, pan ei fod yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad hwnnw, gan gynnwys mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad. Er mwyn bod yn

### Gweinidogion Cymru

CS001 Ar 19 Rhagfyr 2020 a 07 Ionawr 2021 cyflwynodd aelod o'r cyhoedd gŵyn i'r Comisiynydd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn honni bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng nghynadleddau i'r wasg Gweinidogion Cymru i drafod diweddariadau yn ymwneud â'r pandemig Covid-19. Darparwyd dolen i recordiad o gynadleddau'r wasg Gweinidogion Cymru ar wefan *YouTube*.

22/10/2021

ddigwyddiad cyhoeddus at ddibenion safon 36, casglaf bod rhaid i aelodau'r cyhoedd fod yn "bresennol" yn y digwyddiad boed hynny drwy fod yno mewn person neu yn rhithiol (megis drwy ddolen fideo uniongyrchol) os yw'n galluogi trafod neu ryngweithio ddwy ffordd a bod cyswllt uniongyrchol. Casglaf nad oedd aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn y cynadleddau i'r wasg oedd yn destun yr ymchwiliad gan mai trwy ddarllediad yn unig oedd modd iddynt eu dilyn ac felly nad oedd y cynadleddau hynny yn disgyn o fewn darpariaethau safon 36. Gan nad yw safon 36 yn berthnasol i'r cynadleddau i'r wasg dan sylw, ni allaf ddyfarnu bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â'r safon.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 33 a 36.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad nad yw Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 33 a 36.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Cynadleddau'r wasg: Cyngor yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg

Rwy'n cynghori Gweinidogion Cymru i ystyried sut y gellir gwella'r modd y mae'n hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ei gynadleddau'r wasg yn y dyfodol. Rwy'n ei gynghori i ymchwilio i ddulliau amgen ac arferion gorau



wrth gynnal cynadleddau'r wasg yn ddwyieithog neu'n amlieithog.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 22/10/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Mae'r achwynydd wedi apelio i Dribiwnlys y Gymraeg, o dan adran 99(2) o Fesur y Gymraeg, yn erbyn y dyfarniad nad oedd methiant i gydymffurfio wedi bod.

CSG768 Ar 14/09/2020, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd (P). Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn honni bod arwyddion uniaith Saesneg wedi eu gosod yng nghanolfan brofi COVID-19 yn Stadiwm Dinas Caerdydd, pan ymwelodd P â'r ganolfan ar 11/09/2020.

21/10/2021

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 61: Ar 11/09/2020, gwelodd P arwyddion uniaith Saesneg wedi eu gosod yng nghanolfan brofi COVID-19 yn Stadiwm Dinas Caerdydd. Roedd nifer o arwyddion wedi'u gosod ar y safle ar y dyddiad hwnnw, ac nad oedd y testun a oedd yn cael ei arddangos ar yr arwyddion yn cael ei arddangos yn Gymraeg. Roedd safon 61 yn ei gwneud yn ofynnol i D sicrhau bod y testun a arddangosir ar yr arwyddion a osodwyd yn y ganolfan yn cael ei arddangos yn Gymraeg. Fodd bynnag, gwnaeth D fethu â sicrhau hynny yn yr achos hwn. Adran Iechyd a Gofal Llywodraeth y DU (AIGC) oedd yn gyfrifol am osod ac arddangos testun ar arwyddion ar y safle. Roedd AIGC yn darparu'r gwasanaeth ar ran D, o dan drefniadau a wnaed rhwng D ac AIGC. Yn unol ag adran 1(5) o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, roedd felly dyletswydd ar D i sicrhau bod AIGC yn cydymffurfio â safon 61 wrth i AIGC osod arwyddion, ac arddangos testun ar yr arwyddion hynny, yn y ganolfan dan sylw. Rwyf yn canfod nad oedd

Gweinidogion  
Cymru

gan D reolaeth ddigonol ar y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu ar ei ran gan AIGC, ac fe gyfrannodd hynny at fethiant D i sicrhau bod y gwasanaeth dan sylw i'r ymchwiliad yma wedi'i ddarparu yn Gymraeg yn unol â gofynion safon 61.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 61.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 61.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 61: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod unrhyw arwyddion, sydd wedi (ac a gaiff) eu gosod mewn canolfannau profi COVID-19 yng Nghymru, yn cydymffurfio â gofynion safon 61. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod:

- y testun ar unrhyw arwyddion sydd wedi (ac a gaiff) eu gosod yng nghanolfan profi COVID-19 yn Stadiwm Dinas Caerdydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg.

2. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod AIGC yn darparu tystiolaeth i Weinidogion Cymru i gadarnhau bod pob arwydd, a leolir yn y canolfannau profi y mae AIGC yn eu gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru, yn cydymffurfio â gofynion safon 61.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir gan gorff (safonau 61–63): Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

3. Rhaid i Weinidogion Cymru drafod canfyddiadau'r ymchwiliad hwn yn y cyfarfod gweithredol a pholisi wythnosol nesaf a geir gyda AIGC. Dylid cytuno ar gamau gweithredu ac amserlen bendant i sicrhau y bydd Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â gofynion y safonau ynghylch arwyddion mewn canolfannau profi yn y dyfodol. Rhaid i'r cyfarfod gynnwys eitem i drafod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a geir rhwng Gweinidogion Cymru ac AIGC a'r angen i gytuno yn derfynol ar gynnwys yr atodlen sydd yn ymwneud ag AIGC yn darparu gwasanaethau COVID-19 i'r cyhoedd yn Gymraeg ar ran Gweinidogion Cymru.

4. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad llawn o'r modd y gwnaethant (ac AIGC) weithredu gofynion y safonau ynghylch arwyddion yn ystod cyfnod pandemig COVID-19. Yn dilyn cynnal yr adolygiad, rhaid i Weinidogion Cymru baratoi papur canfyddiadau a chynnwys adran am y gwersi a ddysgwyd.

5. Rhaid i Weinidogion Cymru gynhyrchu cyngor ymarferol i staff sydd yn egluro sut i gynllunio a pharhau i weithredu yn unol â'r safonau ynghylch arwyddion mewn sefyllfaoedd brys. Rhaid atodi'r cyngor at gynllun(iau) parhad busnes y sefydliad.

6. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad llawn o'r modd y maent yn sicrhau bod trydydd partïon sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar eu rhan (fel AIGC) yn eu galluogi i gydymffurfio â'r safonau ynghylch arwyddion.

Rhaid cynnal yr adolygiad i alluogi Weinidogion Cymru i adnabod dull o bennu gofynion yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg, ar bartïon sy'n darparu gwasanaethau ar eu rhan, a fydd yn sicrhau y bydd Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â'r safonau yn y dyfodol.

7. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg eu bod wedi cwblhau camau gorfodi 1–6.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 21/10/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CS034 Ar 08/04/2021, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys.

Roedd y gŵyn ynglŷn â'r ffaith bod yr achwynydd wedi methu rhag-archebu safle parcio ym maes parcio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr Awdurdod) ym Mhen y Pass yn Gymraeg. Roedd yr Awdurdod yn darparu dolennau o'i wefan i wefan JustPark,

15/10/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 50: Gofynion safon 50 yw bod rhaid i unrhyw ffurflen sydd yn cael ei llunio gan sefydliad at ddefnydd y cyhoedd gael ei llunio yn Gymraeg. Mae hyn hefyd yn ofyniad o ran gwasanaethau a ddarperir gan drydydd parti. Yn y sefyllfa yma, mae'r ffurflen dan sylw, sef yr ardal mewnbynnu gwybodaeth i archebu parcio, ar gael yn Saesneg yn unig drwy'r ddolen i wefan JustPark. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â gofynion safon 50.

Safon 52: Gofyniad y safon yw bod rhaid sicrhau bod pob tudalen ar wefan ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffaithriol na'r Saesneg ar y tudalennau hynny. Mae hyn yn cynnwys

Awdurdod Parc  
Cenedlaethol  
Eryri

ble roedd modd rhag-archebu safle parcio.

Roedd gwefan JustPark yn dangos testun disgrifiadol Cymraeg a Saesneg am y maes parcio, ond roedd y rhyngwyneb i'r holl strwythur archebu a'r wefan ei hun yn Saesneg yn unig.

gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau trydydd parti, sef y tudalen archebu parcio. Yn yr achos yma, ni ddarparwyd y dudalen archebu parcio yn Gymraeg gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â gofynion safon 52.

Safon 56: Gofyniad y safon yw bod rhaid i gorff ddarparu rhyngwyneb a dewislenni yn Gymraeg ar bob tudalen o'i gwefan. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau trydydd parti, sef y tudalen archebu parcio. Yn yr achos yma, ni ddarparwyd y rhyngwyneb archebu parcio yn Gymraeg gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â gofynion safon 56.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi methu â chydymffurfio â safonau 50, 52 a 56.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi methu â chydymffurfio â safonau 50, 52 a 56.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 50, Safon 52, a Safon 56 : Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau fod y canlynol ar gael ac yn gweithredu yn llawn yn Gymraeg:

- Y ffurflen mewnbynnu gwybodaeth i rhag-archebu parcio

- Y rhyngwyneb a'r dewislenni i'r holl dudalennau rhag-archebu parcio
- Pob tudalen o'r wefan sy'n ymwneud â'r broses rhag-archebu parcio

Amserlen: Rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyflwyno cynllun gweithredu drafft yn unol â gofynion Adran 80 Mesur y Gymraeg o fewn 3 mis o dderbyn yr hysbysiad penderfynu terfynol.

2. Rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sicrhau fod y camau isod wedi eu cwblhau a bod y dair elfen yn gweithredu'n unol â gofynion safonau'r Gymraeg.

- Y ffurflen mewnbynnu gwybodaeth i rhag-archebu parcio ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg

- Y rhyngwyneb a'r dewislenni i'r holl dudalennau rhag-archebu parcio ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg

- Pob tudalen o'r wefan sy'n ymwneud â'r broses rhag-archebu parcio ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg

3. Rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyflwyno tystiolaeth i mi ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 2.

Amserlen: O fewn blwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun gweithredu.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar 15/10/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Bwrdd Iechyd  
Prifysgol  
Caerdydd a'r  
Fro

CS039 Ar 13/04/2021 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn anfodlon nad oedd y ffurflen cofrestru ar gyfer rhestr wrth gefn y brechlyn COVID-19 ar gael yn Gymraeg. Darparodd yr achwynydd y ddolen yma <https://cavuhb.nhs.wales/covid-19/cavuhb-covid-19-mass-vaccination-programme/covid-19-forms/i-would-like-to-be-on-a-standby-list-for-the-covid-19-vaccine/> Roedd yr achwynydd o'r farn bod hyn yn amddifadu siaradwyr Cymraeg o dderbyn y brechlyn.

14/10/2021

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 36: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 36 roedd angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y ffurflen dan sylw wedi ei llunio yn Gymraeg. Cysylltodd yr achwynydd gyda mi i gwyno nad oedd wedi gallu dod o hyd i'r fersiwn Gymraeg o'r ffurflen i gofrestru ar gyfer rhestr wrth gefn i gael brechlyn COVID-19. Cadarnhaodd y bwrdd iechyd nad oedd y ffurflen yma ar gael yn Gymraeg ar y pryd gan na chafodd ei chyfieithu mewn pryd i'w gosod ar y wefan yr un pryd â'r fersiwn Saesneg. Gan nad oedd y ffurflen i gofrestru ar gyfer y rhestr wrth gefn i gael y brechlyn COVID-19 wedi ei llunio yn Gymraeg ar y pryd rwy'n dyfarnu fod y bwrdd iechyd wedi methu â chydymffurfio â safon 36 yn yr achos yma.

Safon 38: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 38 mae angen i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sicrhau nad yw ffurflenni sy'n cael eu llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg yn trin fersiwn Gymraeg y ffurflen mewn ffordd sy'n llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg ohoni. Mae hynny'n golygu na ddylai'r fersiwn Gymraeg gael ei drin yn llai ffafriol o ran sut y mae'n edrych, ei faint, ei leoliad na'i amlygrwydd, pryd ac ar ba fformat caiff ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos. Ni ddylid trin fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg mewn perthynas â'r amser i'w chwblhau. Rhaid i fersiynau Saesneg gynnwys datganiad i esbonio bod fersiwn Gymraeg hefyd ar gael. Pan gysylltodd yr achwynydd gyda'r Comisiynydd i gwyno nad oedd modd dod o hyd i'r ffurflen gofrestru ar gyfer y rhestr wrth gefn ar gyfer brechlyn COVID-19 roedd amheuaeth nad oedd y ffurflen Gymraeg ar gael i'r un graddau â'r fersiwn Saesneg. Esboniodd y bwrdd iechyd nad oedd y ffurflen ar

gael o gwbl. Wrth gyflwyno ei ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth fe ddarparodd y bwrdd iechyd ddolen i'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ffurflen. Nid oedd y ddolen i'r ffurflen Gymraeg yn gweithio felly roedd y fersiwn Gymraeg o'r ffurflen yn cael ei thrin yn llai ffafriol o ran ei amlygrwydd. Yn ogystal â hynny, nid oedd y fersiwn Saesneg yn cynnwys datganiad i esbonio bob fersiwn Gymraeg ar gael hefyd. Ar y sail nad yw y fersiwn Gymraeg ar gael yn yr un modd â'r fersiwn Saesneg, ac ar sail nad oedd y fersiwn Saesneg o'r ffurflen yn cynnwys datganiad yn esbonio yn glir fod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg rwy'n dyfarnu bod y bwrdd iechyd wedi methu â chydymffurfio gyda safon 38 yn yr achos yma.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safon 36 a 38.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safon 36 a 38.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 36: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r bwrdd iechyd roi camau mewn lle i sicrhau bod ffurflenni sy'n cael eu llenwi gan unigolyn yn cael eu llunio yn Gymraeg fel eu bod ar gael i'r cyhoedd yr un pryd â'r ffurflen gyfatebol Saesneg.



Safon 38: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

2. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gymryd camau i sicrhau bod ffurflenni Saesneg yn cynnwys datganiad clir bod fersiwn Gymraeg o'r ffurflen ar gael hefyd.

3. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gymryd camau i sicrhau nad yw ffurflenni Cymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg ar eu gwefan.

4. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Cyngor o dan Adran 4 Mesur y Gymraeg  
Rwy'n cynghori Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd i gymryd camau i sicrhau bod y tudalennau newydd ar eu gwefan sy'n ymwneud â'r broses frechu ar gyfer COVID-19 yn cydymffurfio gyda safon 41.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 14/10/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Bwrdd Iechyd  
Prifysgol

CSG763 Ar 28/08/2020,  
derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r  
cyhoedd(P). Roedd yn bodloni

13/10/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 40: Mae gofynion safon 40 yn golygu bod rhaid i gorff sicrhau:

## Caerdydd a'r Fro

amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Roedd y gwyn yn honni bod gwefan newydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (D) yn bennaf yn uniaith Saesneg. Dywedodd P wrthyf ei fod wedi cwyno i D yn uniongyrchol am ddiffygion ar ei wefan ers dechrau 2020. Nododd y gwnaeth dderbyn ymateb gan D adeg hynny yn addo y byddai gwefan Gymraeg newydd yn cael ei gyhoeddi yn fuan ac y byddai'n gallu pori gwybodaeth ar y wefan yn Gymraeg yn y dyfodol agos fel yr oedd yn dymuno. Roedd P felly yn fodlon ag ymateb D, yn gwybod bod addewid y bydd gwefan newydd ar gael yn Gymraeg o fewn ychydig fisoedd. Fodd bynnag, ym mis Awst 2020, gwelodd P fod D wedi cyhoeddi'r wefan newydd yn bennaf yn Saesneg yn unig, a gwnaeth hynny ei ysgogi i gwyno eto i D. Yn dilyn ymateb D, teimlodd P fod rhaid cwyno i mi yn uniongyrchol am y methiannau. Nododd P rwystredigaeth bod D wedi mynd ati i gyhoeddi gwefan hollol newydd, yn gwybod ei fod ond ar gael yn Saesneg. Ychwanegodd hefyd ei fod yn

bod testun hafan ei wefan ar gael yn Gymraeg  
 bod unrhyw destun Cymraeg ar hafan ei wefan (neu pan fo'n berthnasol, hafan Gymraeg ei wefan) yn gweithredu'n llawn, ac  
 nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â hafan ei wefan.

Ar 28/08/2020, gwnaeth bori'r hafan ar wefan newydd D (<https://bipcaf.qig.cymru>). Nid oedd y testun ar yr hafan ar gael yn Gymraeg yn llawn ar y dyddiad hwn. Roedd llawer o'r testun a gyhoeddir arni yn Saesneg yn unig. Roedd hyn yn gyfystyr â methiant gan D i gydymffurfio â gofynion safon 40. Pan wiriwyd yr hafan ar 3/08/2021, roedd D yn parhau i fethu â chydymffurfio â safon 40. Nid oedd pob darn o destun ar yr hafan ar gael yn Gymraeg. Roedd nifer o'r is-benawdau a geir ar frig y dudalen yn parhau ar gael yn Saesneg yn unig. Nid oedd yr holl destun, sy'n ffurfio rhan o'r cyfleuster chwilio, wedi'i gyhoeddi yn Gymraeg. Hefyd, roedd testun ar ryngwyneb yr hafan ond ar gael yn Saesneg. Hefyd, roedd D dal i fethu â'r gofyniad iddo beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r hafan. Gwelwyd bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg:

o ran y dolenni a ddefnyddir ar yr hafan,ac  
 o ran cywirdeb y testun a gynhwysir ar yr hafan.

Yn benodol, roedd rhai hyperddolenni a ddefnyddir ar yr hafan Gymraeg yn dal i arwain defnyddwyr at fersiynau Saesneg o dudalennau gwe, er bod yna fersiynau Cymraeg o'r tudalennau hyn ar gael. Gwelwyd hefyd bod enghreifftiau o gamsillafu ar yr hafan.

teimlo bod D yn ystyried ei gydymffurfiaeth â'r safonau fel rhywbeth dewisol y gallent anwybyddu os ydynt yn creu gormod o drafferth iddo. Teimlodd hefyd nad oedd y datrysiadau yr oedd D yn eu hawgrymu yn mynd i olygu bod y Gymraeg yn cael ei thrin â pharch nac yn sicrhau y bydd D yn cydymffurfio â'r safonau. Am nad oedd yn teimlo ei fod wedi cael ymateb boddhaol i'r cwynion y gwnaeth gyflwyno yn syth i'r bwrdd iechyd, nododd P ei fod wedi cyrraedd "pen ei dennyn" gyda cheisio cael D i gydymffurfio ac nad oedd am wastraffu mwy o'i amser yn ceisio gwneud hynny. Dyna felly a'i ysgogodd i gyflwyno cwyn yn uniongyrchol i mi.

Safon 41: Os yw D yn cyhoeddi tudalen newydd ar ei wefan, neu'n diwygio tudalen sydd ar ei wefan, mae'n ddyletswydd arno yn unol â gofynion safon 41 i sicrhau:

- bod testun y dudalen honno ar gael yn Gymraeg
- bod unrhyw fersiwn Gymraeg o'r dudalen yn gweithredu'n llawn, ac
- nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran testun y dudalen honno.

Ar 28/08/2020, gwnaeth bori gwefan newydd D (<https://bipcaf.gig.cymru>). Nid oedd yr wefan yn cydymffurfio yn llawn â gofynion safon 41 ar y dyddiad hwn am nad oedd D yn sicrhau bod pob tudalen arni ar gael yn Gymraeg. Pan wiriwyd yr hafan ar 3/08/2021, roedd D yn parhau i fethu â chydymffurfio â safon 41. Roedd D yn parhau i fethu â sicrhau bod pob tudalen ar yr wefan ar gael yn Gymraeg. Nid oedd ychwaith yn sicrhau bod pob tudalen ar fersiwn Gymraeg yr wefan yn gweithredu'n llawn. Er enghraifft, roedd dolenni ar rai o'r tudalennau yn parhau wedi torri ac yn arwain at neges wall. At hynny, nid oedd D yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r tudalennau ar y wefan. Roedd yn dal i drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran y dolenni a ddefnyddir ar dudalennau Cymraeg y wefan ac o ran cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir ar dudalennau Cymraeg y wefan. Er enghraifft:

- roedd rhai tudalennau Cymraeg yn cynnwys dolenni arnynt oedd yn arwain defnyddwyr at dudalen neu ddeunydd Saesneg, er gwaethaf y ffaith bod y dudalen neu'r deunydd dan sylw ar gael yn Gymraeg; ac
- nid oedd y botwm 'Cymraeg' ar dudalennau Saesneg pob amser yn arwain defnyddiwr at y tudalennau Cymraeg cyfatebol.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safon 40 a 41.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safon 40 a 41.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 40: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i D sicrhau bod pob darn o destun ar yr hafan Gymraeg ar ei wefan (<https://bipcaf.gig.cymru/>) ar gael yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, sicrhau bod:

pob is-bennawd a geir ar frig yr hafan ar gael yn Gymraeg

yr holl destun sy'n ffurfio rhan o'r cyfleuster chwilio ar gael yn Gymraeg

holl destun ar ryngwyneb yr hafan ar gael yn Gymraeg. 2. Rhaid i D sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r hafan Gymraeg ar ei wefan, gan gynnwys sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran:

y dolenni a ddefnyddir ar yr hafan; a

chywirdeb y testun a gynhwysir ar yr hafan.

Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, sicrhau bod:

yr hyperddolenni sydd wedi'u cysylltu â botymau 'NHS Wales', 'Health Boards' a 'Trusts' ar frig yr hafan yn cynnwys hyperddolenni sy'n cyfeirio defnyddiwr at y fersiwn Gymraeg o wefan GIG 111 Cymru;

yr hyperddolenni sydd wedi'u cysylltu â botwm 'NHS 111 Wales' yn cynnwys hyperddolen sy'n cyfeirio defnyddiwr at y fersiwn Gymraeg o wefan Iechyd yng Nghymru;

y testun ar frig yr hafan gyfyngedig yn cael ei gywiro o 'Gwymplen' i 'Cwymplen'.

3. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1–2.

Amserlen: O fewn 3mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 41: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

5. Rhaid i D sicrhau bod pob tudalen ar ei wefan newydd (<https://bipcaf.qig.cymru/>) ar gael yn Gymraeg.

6. Rhaid i D sicrhau bod pob tudalen ar fersiwn Gymraeg ei wefan yn gweithredu'n llawn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad yw dolenni ar y tudalennau wedi torri.

7. Rhaid i D sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r tudalennau ar ei wefan, gan cynnwys sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran:

y dolenni a ddefnyddir ar dudalennau ei wefan

cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir ar dudalennau Gymraeg y wefan

Mae hyn yn cynnwys sicrhau:

- bod pob dolen ar ei wefan yn arwain defnyddwyr i gynnwys Cymraeg (os yw'r cynnwys ar gael yn Gymraeg)
- bod yr holl wybodaeth sydd yn cael ei chynnwys ar dudalennau Saesneg ar y wefan yn cael ei chynnwys ar y tudalennau Cymraeg cyfatebol.

8. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1–3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 13/10/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

#### Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

CS037 Ar 12/04/2021 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Cyflwynodd achwynydd gŵyn am ddiffyg ffurflen Gymraeg ar gyfer rhestr wrth gefn brechlyn Covid19. Yn ôl yr achwynydd fe wnaeth y bwrdd iechyd osod dolen at ffurflen brechiad ar ei gyfrif Twitter ac roedd y ddolen yn arwain at ffurflen Saesneg.

13/10/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 36: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 36 roedd angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y ffurflen dan sylw wedi ei llunio yn Gymraeg. Cysylltodd yr achwynydd gyda mi i gwyno nad oedd wedi gallu dod o hyd i'r fersiwn Gymraeg o'r ffurflen i gofrestru ar gyfer rhestr wrth gefn i gael brechlyn COVID-19. Cadarnhaodd y bwrdd iechyd nad oedd y ffurflen yma ar gael yn Gymraeg ar y pryd gan na chafodd ei chyfieithu mewn pryd i'w gosod ar y wefan yr un pryd â'r fersiwn Saesneg. Gan nad oedd y ffurflen i gofrestru ar gyfer y rhestr wrth gefn i gael y brechlyn COVID-19 wedi ei llunio yn Gymraeg ar y pryd rwy'n

[https://twitter.com/BIP\\_CaF/status/1380516623119962112](https://twitter.com/BIP_CaF/status/1380516623119962112) Mewn

ymateb i'r neges Twitter fe ofynnodd yr achwynydd i'r bwrdd iechyd a oedd ffurflen Gymraeg. Ni dderbyniodd yr achwynydd ymateb i'w neges Gymraeg. Yn ôl yr achwynydd roedd y dudalen ar wefan y bwrdd iechyd yn mynd o'r ffurflen Saesneg i'r dudalen hafan.

dyfarnu fod y bwrdd iechyd wedi methu â chydymffurfio â safon 36 yn yr achos yma.

Safon 38: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 38 mae angen i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sicrhau nad yw ffurflenni sy'n cael eu llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg yn trin fersiwn Gymraeg y ffurflen mewn ffordd sy'n llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg ohoni. Mae hynny'n golygu na ddylai'r fersiwn Gymraeg gael ei drin yn llai ffafriol o ran sut y mae'n edrych, ei faint, ei leoliad na'i amlygrwydd, pryd ac ar ba fformat caiff ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos. Ni ddylid trin fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg mewn perthynas â'r amser i'w chwblhau. Rhaid i fersiynau Saesneg gynnwys datganiad i esbonio bod fersiwn Gymraeg hefyd ar gael. Pan gysylltodd yr achwynydd gyda'r Comisiynydd i gwyno nad oedd modd dod o hyd i'r ffurflen gofrestru ar gyfer y rhestr wrth gefn ar gyfer brechlyn COVID-19 roedd amheuaeth nad oedd y ffurflen Gymraeg ar gael i'r un graddau â'r fersiwn Saesneg. Esboniodd y bwrdd iechyd nad oedd y ffurflen ar gael o gwbl. Wrth gyflwyno ei ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth fe ddarparodd y bwrdd iechyd ddolen i'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ffurflen. Nid oedd y ddolen i'r ffurflen Gymraeg yn gweithio felly roedd y fersiwn Gymraeg o'r ffurflen yn cael ei thrin yn llai ffafriol o ran ei amlygrwydd. Yn ogystal â hynny, nid oedd y fersiwn Saesneg yn cynnwys datganiad i esbonio bob fersiwn Gymraeg ar gael hefyd. Ar y sail nad yw y fersiwn Gymraeg ar gael yn yr un modd â'r fersiwn Saesneg, ac ar sail nad oedd y fersiwn Saesneg o'r ffurflen yn cynnwys datganiad yn esbonio yn glir fod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg

rwy'n dyfarnu bod y bwrdd iechyd wedi methu â chydymffurfio gyda safon 38 yn yr achos yma.

Safon 42: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 42, mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau os oes tudalen Gymraeg ar ei wefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, yna mae'n rhaid iddo nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg. Rhaid iddo hefyd ddarparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol. Cysylltodd yr achwynydd â mi i esbonio ei fod wedi cael ei ddargyfeirio i hafan Gymraeg gwefan y bwrdd iechyd pan geisiodd yr achwynydd newid y dudalen Saesneg i'r Gymraeg. Pan gyflwynodd yr achwynydd ei gwyn, nid oedd gan y bwrdd iechyd dudalen gyfatebol Gymraeg i'r wefan. Er mwyn cydymffurfio gyda safon 42 roedd angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw dudalen Gymraeg gyfatebol i'r dudalen Saesneg yr oedd yr achwynydd wedi ymweld â hi, ynghyd â darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol. Fodd bynnag, yn yr achos yma nid oedd tudalen Gymraeg gyfatebol. Rwyf felly o'r farn na wnaeth y bwrdd iechyd fethu â chydymffurfio gyda'r safon gan bod y safon yn berthnasol dim ond pan mae tudalen gyfatebol Gymraeg yn bodoli.

Safon 46: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 46 mae angen i'r bwrdd iechyd ateb yn Gymraeg unrhyw neges sy'n cael ei ofyn drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg sydd angen ateb. Mae hynny yn cynnwys pan fo person yn cysylltu â'r corff drwy ymateb i neges y mae'r corff wedi'i gyhoeddi ar ei gyfrif. Yn yr achos yma, fe wnaeth yr achwynydd gysylltu â'r bwrdd iechyd drwy'r cyfryngau



cymdeithasol yn Gymraeg drwy ymateb i neges roedd y corff wedi ei gyhoeddi ar ei gyfrif. Ni chafodd yr achwynydd unrhyw ymateb i'r cwestiwn ofynnodd yn Gymraeg. Gan na chafodd yr achwynydd ymateb i neges Gymraeg a oedd angen ateb a gyflwynwyd drwy'r cyfryngau cymdeithasol yna rwy'n dyfarnu fod y bwrdd iechyd wedi methu â chydymffurfio â safon 46 yn yr achos yma.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safon 42, ond bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safonau 36, 38 a 46.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safonau 36, 38 a 46.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 36: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r bwrdd iechyd roi camau mewn lle i sicrhau bod ffurflenni sy'n cael eu llenwi gan unigolyn yn cael eu llunio yn Gymraeg fel eu bod ar gael i'r cyhoedd yr un pryd â'r ffurflen gyfatebol Saesneg.

Safon 38: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

2. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gymryd camau i sicrhau bod ffurflenni Saesneg yn cynnwys

datganiad clir bod fersiwn Gymraeg o'r ffurflen ar gael hefyd.

3. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gymryd camau i sicrhau nad yw ffurflenni Cymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg ar eu gwefan.

Safon 46: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

4. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gymryd camau i sicrhau eu bod yn ymateb i negeseuon Cymraeg sy'n cael eu cyflwyno drwy cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg.

5. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-4.

6. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-5.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Cyngor o dan Adran 4 Mesur y Gymraeg  
Rwy'n cynghori Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd i gymryd camau i sicrhau bod y tudalennau newydd ar eu gwefan sy'n ymwneud â'r broses frechu ar gyfer COVID-19 yn cydymffurfio gyda safon 41.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 13/10/2021.

Cyngor Bro  
Morgannwg

CS025 Ar 18/03/2021 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn cwyno bod arwydd ffordd uniaith Saesneg ar Heol Raisdale, Penarth yn sgil gwaith ffordd newydd.

14/09/2021

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 61: Gofynion safon 61 yw, wrth osod arwydd newydd neu adnewyddu arwydd, bod rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (un ai ar yr un arwydd neu ar arwydd ar wahân). Os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid peidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. Roedd marc ffordd uniaith Saesneg, "No Entry", wedi ei beintio ar ffordd yn Heol Raisdale, Penarth. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â safon 61.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bro Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â safon 61.

**Datganiad gweithredu pellach**

Yn achos fy nyfarniad fod Cyngor Bro Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â safon 61, ni fyddaf yn gweithredu ymhellach.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos fy nyfarniad fod Cyngor Bro Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â safon 61, ni fyddaf yn gweithredu ymhellach.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bro Morgannwg ar 14/09/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CSG789 Ar 14/10/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Cyflwynwyd y gwyn gan aelod o'r cyhoedda oedd wedi cysylltu gyda Cadw ar ran papur bro. Roedd yr achwynydd yn honni iddynt dderbyn ymateb uniaith Saesneg i ymholiad a gyflwynwyd yn Gymraeg i Cadw. Honnai'r achwynydd iddi gyflwyno ymholiad yn Gymraeg am Blas Nannau dros e-bost i Cadw ar 09/09/2020.

Derbyniodd yr achwynydd ymateb gan Weinidogion Cymru ar 12/09/2020. Roedd yr ymateb yn Saesneg yn unig. Darparodd yr achwynydd gopi o'r ohebiaeth â fu rhyngddi â D. Derbyniodd yr achwynydd e-bost arall Cymraeg gan aelod arall o staff D yn ymddiheuro ei bod wedi derbyn ymateb yn Saesneg. Yn yr e-bost hwnnw, mae D yn egluro bod yr ymholiad wedi ei basio ymlaen i

13/09/2021

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Pan mae sefydliad yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg sydd angen ymateb yna rhaid i'r sefydliad ateb yn Gymraeg, oni bai bod y person a anfonodd yr ohebiaeth wedi dweud nad oes angen gwneud hynny. Yn yr achos yma fe wnaeth yr achwynydd anfon e-bost Cymraeg ar ran papur bro yr oedd angen ymateb iddo. Derbyniodd ymateb awtomatig dwyieithog i'r e-bost a galwad ffôn Cymraeg ond fe dderbyniodd ymateb dilynol i'w ymholiad yn Saesneg yn unig. Gan bod y sefydliad wedi anfon ymateb yn Saesneg yn unig mewn ymateb i ohebiaeth Gymraeg gan yr achwynydd, rwy'n dyfarnu fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio gyda safon 1 yn yr achos yma.

Safon 40: Os yw corff yn llunio unrhyw ddogfen at ddefnydd y cyhoedd, rhaid iddo sicrhau bod y ddogfen yn cael ei llunio yn Gymraeg. Yn yr achos yma fe gyflwynodd yr achwynydd ymholiad at adran y wasg yn Gymraeg ac fe dderbyniodd ymateb ysgrifenedig yn Saesneg. Gan mai ymateb i ymholiad gan y wasg oedd yr ohebiaeth anfonwyd at yr achwynydd yn hytrach na datganiad i'r wasg nid wyf o'r farn bod safon 40 yn berthnasol yn yr achos yma felly rwy'n dyfarnu nad yw Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 40 yn yr achos yma.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

Gweinidogion  
Cymru (Cadw)

swyddfa'r wasg D gan mai ymholiad gan bapur bro ydoedd. Ar 21/09/2020 derbyniodd yr achwynydd fersiwn Gymraeg o'r ymateb a yrrwyd ar 12/09/2020 ynghyd ag ymddiheuriad arall gan y swyddog oedd wedi gyrru'r e-bost uniaith Saesneg.

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 40, ond bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 1.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 1.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 1: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru atgoffa staff adran y wasg ynghylch gofynion safon 1 a'r camau sy'n rhaid ei dilyn er mwyn cydymffurfio â'r safon.
2. Rhaid i Weinidogion Cymru wirio ac ail-ddanfôn y canllawiau ynghylch delio â gohebiaeth i staff adran y wasg.
3. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-2.

Amserlen: O fewn mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Cyngor o dan Adran 4 Mesur y Gymraeg

			<p>Rwy'n cynghori Gweinidogion Cymru i gynnal adolygiad o'r modd mae Cadw yn anfon cylchlythyrau yng nghyd-destun safon 4 a gweithredu ar ganfyddiadau'r adolygiad.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 13/09/2021.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Cyngor Dinas a Sir Abertawe</u></p>	<p>CSG697 Ar 26 Ionawr 2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yn ymwneud â phenderfyniad Cyngor Dinas a Sir Abertawe (y cyngor) i waredu Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre (YGG Felindre) o'i bortffolio eiddo yn dilyn cau'r ysgol ym mis Awst 2019. Roedd yr achwynydd yn bryderus bod y cyngor wedi dewis gwerthu'r safle yn hytrach na'i ddefnyddio at bwrpasau cymunedol neu gyhoeddus eraill. Nid oedd yn ymddangos i'r achwynydd bod y cyngor wedi ymgynghori â'r gymuned leol ynghylch effaith y penderfyniad ar y Gymraeg, nac</p>	<p>03/09/2021</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safonau 88, 89 a 90: Lluniodd y cyngor bolisi newydd pan benderfynodd waredu YGG Felindre i berchnogaeth breifat. Roedd hwn yn benderfyniad lefel uchel strategol a oedd yn arfer pwerau statudol o werthu eiddo sy'n disgyn o fewn gwmpas diffiniad Rheoliadau Safonau'r Gymraeg o 'benderfyniad polisi'. Roedd dyletswydd ar y cyngor felly i ystyried pa effeithiau, os o gwbl, y byddai penderfyniad polisi yn eu cael ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Dangosodd dystiolaeth y cyngor na ystyriwyd effaith penderfyniad y polisi newydd o wneud YGG Felindre yn adeilad dan berchnogaeth breifat ar y Gymraeg fel y rhagnodir gan safonau 88, 89 a 90.</p> <p><b>Dyfarniad y Comisiynydd</b> O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safonau 88, 89 a 90.</p> <p><b>Datganiad gweithredu pellach</b></p>

wedi cynnal asesiad o'r effaith honno.

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safonau 88, 89 a 90.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safonau 88, 89 a 90: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag isadran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r cyngor sefydlu proses gadarn ar gyfer sicrhau bod unrhyw benderfyniadau'n ymwneud â chynllunio strategol i reoli ei stoc o eiddo cymunedol yn destun asesiad effaith ar y Gymraeg fel y rhagnodir gan safonau 88, 89 a 90.
2. Rhaid i'r cyngor sefydlu proses gadarn ar gyfer sicrhau bod unrhyw benderfyniadau'n sy'n defnyddio pwerau statudol i werthu eiddo cymunedol yn destun asesiad effaith ar y Gymraeg fel y rhagnodir gan safonau 88, 89 a 90.
3. Rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod yn asesu effaith ei gynllun rheoli asedau ar yr iaith Gymraeg, yn unol â gofynion y safonau uchod, pan fydd y cynllun nesaf yn cael ei adolygu neu ei addasu.
4. Rhaid i'r cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi un a dau.

Amserlen: O fewn tri mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safonau 88, 89 a 90: Gofyniad i cyhoedduswydd i'r methiant i gydymffurfio yn unol ag isadran 77(3)(d) Mesur y Gymraeg

5. Rhaid i'r Cyngor roi cyhoedduswydd i'w fethiant i gydymffurfio â safonau 88, 89 a 90 trwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei brif wefan.

Amserlen: O fewn 6 wythnos o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar 03/09/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Mae Cyngor Abertawe wedi apelio i Dribiwnlys y Gymraeg, o dan adran 95(2) o Fesur y Gymraeg, yn erbyn y dyfarniad ei fod wedi methu cydymffurfio â safonau 88, 89 a 90. Sail yr apêl yw na fethodd y Cyngor gydymffurfio â'r safonau hyn.

Mae Cyngor Abertawe wedi apelio i Dribiwnlys y Gymraeg, o dan adran 95(4) o Fesur y Gymraeg, yn erbyn y camau gorfodi sydd wedi eu gosod arnynt yn sgil y dyfarniad eu bod wedi methu cydymffurfio â safonau 88, 89 a 90. Sail yr apêl yw bod y camau gorfodi yn afresymol neu'n anghymesur.

Cyngor Bro  
Morgannwg

CSG775 Ar 22 Medi 2020  
derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r  
cyhoedd. Roedd yn bodloni  
amodau adran 93 Mesur y  
Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys.

27/08/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 89: Nid oes sail i gredu fod y cyngor wedi llunio, addasu neu adolygu polisi. Dim ond wrth ymgymryd â'r gweithgareddau penodol hyn y mae'n rhaid iddo gydymffurfio â gofynion safon 89. Dilynodd bolisi enwi a



Roedd yn ymwneud â phenderfyniad gan Gyngor Bro Morgannwg (y cyngor) i roi enw Saesneg, 'Melrose Walk', ar stryd mewn datblygiad tai newydd ym mhentref Sili. Roedd yr achwynydd yn anhapus oherwydd ei bod yn ymddangos bod y dewis o enw Saesneg yn groes i bolisi'r cyngor. Dywedodd bod polisi'r cyngor ar enwi strydoedd yn ffafrio defnyddio enwau sydd â chysylltiad â threftadaeth a hanes yr ardal ac sy'n defnyddio'r Gymraeg fel y bo'n briodol.

rhifo strydoedd sydd mewn grym ers 2005 ac sy'n darparu ar gyfer mabwysiadu enwau strydoedd nad ydynt o reidrwydd yn Gymraeg cyn belled bod ganddynt gysylltiad â threftadaeth yr ardal. Nid oedd dewis yr enw 'Melrose Walk' yn anghyson â'r polisi. Gan na fui'r cyngor lunio, addasu neu adolygu polisi, nid oedd darpariaethau'n safon yn berthnasol ac ni fu methiant ganddo i gydymffurfio.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bro Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â safon 89.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach er mwyn cynghori a gwneud argymhellion i'r cyngor. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 89: Cyngor ac argymhellion yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg

1. Dylai'r cyngor adolygu ei bolisi enwi a rhifo strydoedd er mwyn sicrhau ei fod yn gynhwysfawr ac yn cymryd i ystyriaeth ei ddyletswyddau o safbwynt yr iaith Gymraeg.
2. Dylai'r cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn â gofynion safonau llunio polisi 88, 89 a 90 wrth adolygu ei bolisi enwau a rhifo strydoedd.
3. Dylai'r cyngor roi sylw i bolisiâu awdurdodau lleol eraill ar enwi strydoedd wrth adolygu ei bolisi ei hun.
4. Dylai'r cyngor roi'r adroddiad hwn gerbron aelodau etholedig fel eu bod yn ymwybodol o'r cyd-destun

cyfreithiol yn ymwneud â'r Gymraeg pan ymgynghorir ag aelodau etholedig ar enwau strydoedd newydd.

5. Awgrymaf fod y cyngor yn ail ystyried y polisi enwi a rhifo strydoedd drafft er mwyn sicrhau ei fod yn cydnabod statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru ac yn cyfeirio at y ddeddfwriaeth gywir yn ymwneud a'r iaith a'r egwyddorion sydd ymhlyg a'r ddeddfwriaeth.

6. Awgrymaf fod Panel Enwi Strydoedd arfaethedig y cyngor yn ystyried y ffynonellau canlynol fel mater o drefn pan yn awgrymu enwau strydoedd newydd:

- Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru
- Canllawiau Safoni Enwau Cymru
- Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol
- Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llundain a Defnyddio

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bro Morgannwg ar 27/08/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CS036 Ar 4 Ionawr 2021 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd ymwneud â thrafferthion a brofodd yr achwynydd wrth iddo geisio adnewyddu ei gofrestrriad landlord yn Gymraeg ar wefan

27/08/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safonau 52 a 55: Ar 3 Ionawr 2020 anfonodd y cyngor ddolen at yr achwynydd oedd yn ei gyfeirio at fersiwn Saesneg gwefan Rhentu Doeth Cymru, yn groes i'w ddewis iaith. Wrth ddefnyddio'r wefan ar yr un dyddiad, profodd yr achwynydd broblemau gyda'r opsiwn i newid iaith y safle oedd yn golygu ei fod naill ai'n cael ei gyfeirio i dudalennau oedd naill ai'n Saesneg neu'n arddangos neges gwall. Eglurodd y cyngor mai gwall cronfa ddata oedd y rheswm

Cyngor  
Caerdydd

Rhentu Doeth Cymru ar 3 Ionawr 2021. Dywedodd yr achwynydd:

□ ei fod wedi derbyn e-bost yn ei atgoffa i adnewyddu ei gofrestriad, oedd yn cynnwys dolen i dudalen uniaith Saesneg ar wefan Rhentu Doeth Cymru. Dywedodd nad oedd botwm newid iaith ar y dudalen dan sylw;

□ bod y tudalennau dilynol oedd yn rhan o'r broses ailgofrestru yn arwain at dudalennau oedd yn Saesneg a bod y botwm 'Cymraeg' naill ai'n ailgyfeirio yn ôl i'r dudalen Saesneg neu'n arwain at dudalen gwall oedd yn dangos y testun 'Page not found'; a

□ bod yr adran i nodi dewis iaith ar ddiwedd y broses ailgofrestru yn nodi'r Saesneg fel iaith ddiodyn.

am y materion hyn. Er mwyn cael mynediad at dudalennau Cymraeg y wefan roedd yn rhaid i'r achwynydd gymryd camau ychwanegol, na fyddai'n rhaid i ddefnyddwyr y Saesneg eu cymryd. Roedd yn rhaid iddo fynd i edrych am a chlicio ar yr opsiwn 'Cymraeg' ac ar ôl gwneud hynny parhaodd i gael ei gyfeirio at dudalennau oedd naill ai'n Saesneg neu ddim yn gweithio. Nid oedd pob tudalen Gymraeg ar y wefan felly yn gweithredu'n llawn, sef gofyniad (b) safon 52. Arweiniodd hyn yn y pen draw at yr achwynydd yn adnewyddu ei gofrestriad yn Saesneg. Er bod yr opsiwn 'Cymraeg' yn dynodi bod tudalennau Saesneg hefyd ar gael yn Gymraeg, nid oedd yn gweithio mewn ffordd oedd yn darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol, sef gofyniad safon 55. Roedd hyn yn fethiant gan y cyngor i gydymffurfio â safonau 52 a 55.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safonau 52 a 55.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safonau 52 a 55.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Ar y sail bod y cyngor wedi cymryd camau i atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd, rwyf wedi penderfynu peidio â gweithredu ymhellach yn yr achos hwn. Cywirodd y gwall cronfa ddata wnaeth achosi'r methiant ac

ymgymerodd i brofi'r wefan i'r dyfodol er mwyn sicrhau nad yw'r un gwall yn effeithio'r wefan eto.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 27/08/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CSG813 Ar 4 Rhagfyr 2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn honni bod ef, a myfyrwyr eraill sydd yn astudio cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r myfyrwyr sydd yn astudio'r un cwrs trwy gyfrwng y Saesneg. Honnai'r achwynydd nad yw'r rhan helaeth o ohebiaeth y cwrs TAR ar gael yn Gymraeg. Honnai hefyd bod myfyrwyr y cwrs Cymraeg yn cael manylion am eu haseiniadau yn hwyrach na myfyrwyr y cwrs Saesneg ac nad oedd estyniad yn cael ei gynnig i'r dyddiad cau i'r myfyrwyr Cymraeg

26/08/2021

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 4: Mae safon 4 yn ei gwneud yn ofynnol ar y Brifysgol, pan fo'n anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, i anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y mae'n anfon y fersiwn Saesneg ohoni. Mae'r Brifysgol wedi cyflwyno tystiolaeth i mi sydd yn dangos bod gohebiaeth Saesneg yn unig wedi ei yrru at fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg ar 22 Hydref 2020 (atodiad 17) gyda'r rhan helaeth o'r testun yn uniaith Saesneg. Mae'r e-bost yn ymwneud â lleoli myfyrwyr y cwrs TAR mewn ysgolion. Yn ogystal, rwyf wedi derbyn tystiolaeth gan y Brifysgol sydd yn creu amheuaeth gryf bod e-byst eraill wedi eu gyrru at fyfyrwyr yn uniaith Saesneg (atodiad 16 ac 19). Mae'r achwynydd hefyd wedi cyflwyno tystiolaeth i mi o e-byst Saesneg yn unig a yrrwyd ato (ynghyd â myfyrwyr eraill) ar 22 Hydref 2020 ac eto rhwng 28 Mai 2021 ac 14 Mehefin 2021. Roedd yr e-byst hyn yn ymwneud ag aseiniadau myfyrwyr a lleoliadau mewn ysgolion. Wrth yrru'r e-byst hynny at fyfyrwyr yn uniaith Saesneg, casglaf bod y Brifysgol wedi methu â chydymffurfio â safon 4.

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd

er gwaethaf yr oedi wrth osod y gwaith. Dywed hefyd bod oedi wrth roi gwybod i'r myfyrwyr Cymraeg am eu lleoliadau ysgolion er bod myfyrwyr y cwrs Saesneg wedi cael gwybod am eu lleoliadau lawer cynt.

Safon 90A: Mae'n ofynnol ar y Brifysgol i sicrhau nad yw gwaith ysgrifenedig a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na gwaith a gyflwynir yn Saesneg yn unol â gofynion safon 90A. Rwy'n dehongli hyn i olygu y dylid rhoi yr un faint o amser i unigolyn sydd yn dymuno cyflwyno ei waith yn Gymraeg i gwblhau'r gwaith ac unigolyn sydd yn dymuno cyflwyno ei waith yn Saesneg. Mae'r achwynydd yn honni bod y Brifysgol wedi oedi wrth rhoi gwybod i rai myfyrwyr Cymraeg am fanylion eu haseiniad cyntaf. Honnai bod rhai myfyrwyr wedi gorfod disgwyl wythnos a mwy am y wybodaeth. Mae'r Brifysgol yn gwadu honiadau'r achwynydd gan ddatgan bod y myfyrwyr Cymraeg a Saesneg wedi derbyn gwybodaeth am eu haseiniad cyntaf yr un pryd ond yn cydnabod y bu oedi o 24 awr wrth roi gwybod i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg am eu ysgolion arweiniol. Mae'r Brifysgol hefyd yn cydnabod bod oedi pellach wedi bod wrth rannu manylion lleoliad ysgolion rhai myfyrwyr, ond yn egluro bod yr oedi hyn wedi effeithio myfyrwyr Cymraeg a Saesneg. Nid wyf wedi derbyn tystiolaeth i ddangos yn bendant pryd y gwnaeth y myfyrwyr dderbyn gwybodaeth am eu haseiniad. Nid wyf ychwaith wedi derbyn tystiolaeth bod myfyrwyr Cymraeg wedi derbyn y wybodaeth wythnos yn hwyrach na'r myfyrwyr Saesneg. Fodd bynnag, rwy'n fodlon bod rhywfaint o'r myfyrwyr Cymraeg wedi derbyn y wybodaeth ar 22 Hydref 2020. Rhaid tybio na fyddai unrhyw un wedi derbyn y wybodaeth cyn hynny gan fod amseru rhannu'r wybodaeth yn cyd-fynd ag amseru rhannu gwybodaeth am ysgol arweiniol y myfyrwyr (a gyhoeddwyd ar 21 a 22 Hydref 2020). Heb tystiolaeth gadarn sy'n profi pa bryd y cafodd y myfyrwyr eu manylion eu haseiniadau cyntaf, ni

allaf ddyfarnu bod y Brifysgol wedi methu â chydymffurfio â safon 90A.

Safonau Atodol 154, 155 a 156: Mae safonau 154, 155 a 156 yn gosod dyletswydd ar y Brifysgol i gadw cofnod o gwynion a gyflwynir sydd yn ymwneud â'r Gymraeg a chydymffurfedd â safonau'r Gymraeg. Mae'r Brifysgol yn datgan nad oedd wedi derbyn unrhyw gwynion drwy ei weithdrefn gwynion am y materion sydd wedi eu cynnwys yng nghwyn yr achwynydd. Mae'r achwynydd hefyd wedi cyflwyno tystiolaeth sydd yn awgrymu na chyflwynwyd unrhyw gŵyn i'r Brifysgol yn ffurfiol. Gan nad oedd yr achwynydd wedi cyflwyno cwyn ffurfiol i'r Brifysgol nid oedd gofynion y safonau yn berthnasol. O ganlyniad mae'n rhaid i mi ddyfarnu nad yw'r Brifysgol wedi methu â chydymffurfio â safonau 154, 155 a 156.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safonau 90A, 154, 155 a 156, ond bod Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 4.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 4.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y

methiant i gydymffurfio gyda safon 4rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae adran 76 Mesur y Gymraeg hefyd yn caniatáu i mi weithredu ymhellach lle na fu methiant. Yn achos safonau 90A, 154, 155 a 156 rwyf o'r farn ei bod yn briodol i mi weithredu ymhellach er mwyn rhoi cyngor i'r Brifysgol at y diben o sicrhau nad yw'r sefydliad yn methu â chydymffurfio yn y dyfodol. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 4: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Brifysgol Metropolitan Caerdydd gynnal adolygiad llawn o'i drefniadau ar gyfer gohebu â myfyrwyr y Brifysgol ynglŷn â materion sydd yn ymwneud â'u cyrsiau, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safon 4
  2. Rhaid i Brifysgol Metropolitan Caerdydd gymryd camau penodol i atgoffa staff o ofynion safonau'r Gymraeg a chynnig arweiniad clir iddynt ar sut i gydymffurfio â safon 4 wrth ohebu â myfyrwyr ynghylch eu cyrsiau.
  3. Rhaid i Brifysgol Metropolitan Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-2.
- Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 90A: Cyngor yn unol ag isadran 76(3)(b) Mesur y Gymraeg

Rwy'n cynghori Prifysgol Metropolitan Caerdydd i roi mesurau mewn lle i sicrhau bod myfyrwyr sydd yn astudio cyrsiau cyfrwng Cymraeg a Saesneg cyfatebol yn derbyn manylion eu haseiniadau yr un pryd bob amser.

			<p>Safonau 154, 155 a 156: Cyngor yn unol ag isadran 76(3)(b) Mesur y Gymraeg Rwy'n cynghori Prifysgol Metropolitan Caerdydd i gymryd camau i:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- godi ymwybyddiaeth staff y Brifysgol o'r camau i'w cymryd lle bo myfyrwyr wedi mynegi pryderon wrthynt am wasanaeth neu ddarpariaeth Cymraeg er mwyn sicrhau bod y materion yn cael eu cofnodi a bod y Brifysgol yn ymateb i'r pryderon hynny.</li> <li>- godi ymwybyddiaeth myfyrwyr o'u hawl i gyflwyno cwynion sydd yn ymwneud â'r Gymraeg i'r Brifysgol a'u hannog i wneud hynny drwy'r weithdrefn gwynion gorfforaethol.</li> </ul> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Brifysgol Metropolitan Caerdydd ar 26/08/2021.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Y Comisiwn Etholiadol</u></p>	<p>CSG723 Ar 24 Mawrth 2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â materion sy'n gysylltiedig â chais i gofrestru plaid wleidyddol newydd yn dwyn yr enw 'Welsh National Party' ac roedd yr achwynydd yn honni fod:</p>	<p>26/08/2021</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safonau 84, 85 ac 86: Mae'n ofynnol ar y Comisiwn i ystyried a nodi'r holl effeithiau perthnasol y gall penderfyniad polisi eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio polisi newydd neu adolygu addasu polisi sydd eisoes yn bodoli. Mae'n ofynnol arno i ystyried sut y gellir gweithredu fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hefyd yn</p>



a) y Comisiwn Etholiadol (y Comisiwn) wedi gwrthod caniatâd i'r 'Welsh National Party' ddefnyddio'r enw Cymraeg 'Plaid Genedlaethol Cymru'

b) y penderfyniad wedi ei seilio ar ganllawiau polisi'r Comisiwn sy'n cael ei osod ar dudalen o wefan y Comisiwn sydd â'r teitl 'Meini prawf ar gyfer cofrestru enw, disgrifiadau neu arwyddluniau plaid'.

c) y dudalen o'r wefan, ac felly'r canllaw polisi, wedi cael ei ddiwygio neu ei ddiweddarau ar 8/8/2019

ch) y Comisiwn wedi methu cydymffurfio â'r safonau llunio polisi sydd wedi eu cynnwys yn hysbysiad cydymffurfio safonau'r Gymraeg y Comisiwn wrth:

(i) wneud ei benderfyniad i ganiatáu cofrestru'r enw 'Welsh National Party'

(ii) wneud ei benderfyniad i wrthod caniatâd i gofrestru'r enw 'Plaid Genedlaethol Cymru'

(iii) ddiwygio neu ddiweddarau ei ganllaw polisi 'Meini prawf ar cofrestru enw, disgrifiadau neu arwyddluniau plaid'.

ofynnol arno i ystyried sut y gellir gweithredu fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thri n y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Cyhoeddodd y Comisiwn ei ganllaw 'Trosolwg o enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau' yn 2016. Gwnaed man addasiadau i'r ddogfen honno yn 2018. Mae'r Comisiwn wedi egluro mai addasiadau geiriol oedd rhain ac nad oeddent yn newidiadau i'r polisi ei hunan. Wrth ystyried y newidiadau a wnaed i'r ddogfen, casglaf nad oedd y newidiadau gyfystyr ac addasiad neu adolygiad polisi gan na wnaed unrhyw newidiadau oedd yn golygu unrhyw newid ym mhrosesau'r Comisiwn neu yn y ffordd y mae'n arfer ei swyddogaethau. Dim ond pan fo'r Comisiwn yn llunio polisi newydd neu yn adolygu neu addasu polisi y mae safonau 84, 85 ac 86 yn berthnasol. Casglaf felly nad oedd yma achos o fethiant i gydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Y Comisiwn Etholiadol wedi methu â chydymffurfio â safonau 84, 85 ac 86.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Mae adran 76 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi weithredu ymhellach lle na fu methiant. Yn achos safonau 84, 85 ac 86 rwyf o'r farn ei bod yn briodol i mi weithredu ymhellach er mwyn rhoi cyngor i'r Comisiwn Etholiadol at y diben o sicrhau nad yw'r sefydliad yn methu â chydymffurfio yn y dyfodol.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safonau 84, 85 a 86: Cyngor yn unol ag isadran 76(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rwy'n cynghori'r Comisiwn Etholiadol i gynnal adolygiad llawn o'i broses ar gyfer asesu effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion safonau 84, 85 ac 86. Dylai'r adolygiad hwnnw ystyried i ba raddau y mae'r ffurflen sgrinio gychwynol, y ffurflen asesu effaith ar gydraddoldeb a'r canllaw ar gynnal asesiad effaith yn ddigonol i ateb gofynion penodol y dair safon a'u diwygio fel bo'r angen. Dylid ystyried y cyngor ac arweiniad sydd wedi ei gynnwys yn fy nogfen gyngor 'Safonau Llundio Polisi: Creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'
2. Rwy'n cynghori'r Comisiwn Etholiadol i ystyried ffurfioli'r trefniant i ymgynghori gyda'r tîm Comisiwn yng Nghymru ar benderfyniadau polisi sy'n berthnasol i Gymru.
3. Rwy'n cynghori'r Comisiwn Etholiadol i addasu'r ddogfen 'Trosolwg o enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau' yn dilyn cynnal yr adolygiad o'i drefniadau asesu effaith ar y Gymraeg, er mwyn sicrhau bod y ddogfen yn adlewyrchu trefniadau diwygiedig y Comisiwn. Dylai'r canllawiau hefyd gyfeirio at ddyletswydd ar y Comisiwn i gydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau ac felly goblygiadau hynny ar y broses gofrestru pleidiau yng Nghymru.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i'r Comisiwn Etholiadol ar 26/08/2021.

Cyngor  
Bwrdeistref Sirol  
Wreccsam

CSG807 Ar 19/11/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn cwyno iddo dderbyn gohebiaeth uniaith Saesneg gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam ("Y Cyngor") ar 16/11/2020 yn ei atgoffa i wneud cais am le i'w blentyn mewn ysgol ar gyfer mis Medi 2021. Roedd dau o'r llythyrau hynny yn rhai Cymraeg a Saesneg yn egluro nad yw'r Cyngor wedi derbyn cais ganddo eto. Honnai'r achwynydd bod y llythyrau wedi eu plygu fel bod y fersiwn Saesneg ar y tu allan ac felly bod y defnydd o'r Saesneg yn cael ei hybu a'i hwyluso ar draul y Gymraeg. Yn amgaaedig hefyd, meddai, roedd copi o lythyr wedi ei atodi at ffurflen gofrestru i dderbyn lle mewn ysgol –roedd y ddwy ddogfen hynny yn uniaith Saesneg. Yr elfen olaf yma a ymchwilir yma –y ffurflen gofrestru uniaith Saesneg.

24/08/2021

### Apelau a wnaed i'r tribiwnlys

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### Canfyddiadau'r Comisiynydd

Safon 50: Gofyniad safon 50 yw bod rhaid i unrhyw ffurflen sydd yn cael ei llunio at ddefnydd y cyhoedd gael ei llunio yn Gymraeg. Mae'r ffaith fod safonau 50A a 50B yn safonau dibynnol yn golygu bod yna hefyd ofynion i sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg; rhaid hefyd sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, a rhaid peidio â gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen. Fe dderbyniais dystiolaeth cychwynol yn yr ymateb gwreiddiol gan y Cyngor ar 07/12/2020, ond nid oedd y dystiolaeth hynny yn cynnwys y ffurflen gofrestru Cymraeg roedd y Cyngor yn nodi oedd yn bodoli. Fe dderbyniais dystiolaeth bellach ar 17/06/2021 oedd yn cynnwys y fersiwn Gymraeg o'r ffurflen gofrestru. Nid oes methiant i gydymffurfio â safon 50 oherwydd mae'r Cyngor wedi danfon tystiolaeth i mi drwy ddanfôn y fersiwn Gymraeg o'r ffurflen. Pe baem wedi ymchwilio i safon 50A yn yr achos yma, mae'n debygol y byddem wedi canfod methiant i gydymffurfio â gofynion y safon hynny.

### Dyfarniad y Comisiynydd

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu â chydymffurfio â safon 50.

### Datganiad gweithredu pellach

Yn achos fy nyfarniad nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 50, byddaf yn gweithredu ymhellach er mwyn gwneud gofynion safonau cysylltiedig yn glir: Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 50: Gweithredu pellach yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg

1. Argymhellir bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn sicrhau bod staff yn deall gofynion y safonau sydd yn ddibynnol ar safon 50, sef safon 50A a safon 50B, drwy ledaenu gwybodaeth am y gofynion hynny.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 24/08/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Bwrdd Iechyd  
Prifysgol  
Caerdydd a'r  
Fro

CSG754 Ar 07/08/2020, derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg. Roedd felly'n gŵyn ddilys. Mae'r gŵyn yn honni nad oes tudalen ar wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (D) sy'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn ag argaeledd gwasanaethau gofal

20/08/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 65: Pan fydd corff yn gwybod bod darparwr gofal sylfaenol yn fodlon darparu gwasanaeth gofal sylfaenol yn rhannol neu'n llawn yn Gymraeg, rhaid i'r corff:

ddynodi a chynnal tudalen ar ei wefan sy'n cynnwys yr wybodaeth honno; a

chyhoeddi'r dudalen honno yn Gymraeg.

Ar 7 Awst 2020, ceisiodd P ddod o hyd i dudalen (yn Gymraeg) ar hen wefan D a oedd yn cynnwys yr wybodaeth honno, a methodd â gwneud hynny. Roedd D

sylyfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwnaeth y gŵyn hefyd creu amheuaeth bod D wedi methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd iddo gydymffurfio â safonau 40 a 41 sy'n ymwneud â gwefannau.

wedi dynodi a chynnal tudalen ar ei wefan ar 7 Awst 2020 oedd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch pa feddygon teulu yr oedd D yn gwybod oedd yn fodlon darparu gwasanaethau gofal sylfaenol yn Gymraeg. Roedd y dudalen wedi'i chyhoeddi yn Gymraeg. Fodd bynnag, roedd D yn gwybod am ddarparwyr gofal sylfaenol eraill oedd yn fodlon darparu eu gwasanaethau gofal sylfaenol yn Gymraeg. Ond, methodd D â chyhoeddi'r wybodaeth am y darparwyr hynny ar y dudalen dan sylw. Roedd yr wybodaeth ar y dudalen—sef tudalen yr oedd D wedi'i dynodi yn arbennig i hysbysu pwy oedd yn fodlon darparu eu gwasanaethau gofal sylfaenol yn Gymraeg—yn anghyflawn. Yn ogystal, ar 7 Awst 2020, nid oedd D wedi dynodi a chynnal unrhyw dudalen ar ei wefan newydd a oedd yn cynnwys gwybodaeth am ddarparwyr gofal sylfaenol yr oedd ef yn gwybod oedd yn fodlon darparu eu gwasanaethau gofal sylfaenol yn Gymraeg. Oherwydd bod D wedi methu â chyhoeddi tudalen berthnasol o gwbl (mewn unrhyw iaith) ar ei wefan newydd, gwnaeth hefyd methu â chyhoeddi'r dudalen yn Gymraeg. Erbyn 26 Ionawr 2021, roedd D yn parhau i fethu â chydymffurfio â safon 65. Cyhoeddodd dudalen ar ei wefan newydd a oedd ond yn cynnwys gwybodaeth am gyfran o'r darparwyr gofal sylfaenol yr oedd yn gwybod oedd yn fodlon darparu gwasanaethau gofal sylfaenol yn Gymraeg. Roedd y dudalen yn cynnwys gwybodaeth am feddygon teulu yn unig. Yn ogystal â hynny, roedd D wedi cyhoeddi'r dudalen honno yn Saesneg yn unig. Erbyn heddiw, mae D yn parhau i fethu â chydymffurfio'n llawn â gofynion safon 65. Nid oes cynnydd amlwg wedi bod i gydymffurfiaeth â'r safon ers y cyhoeddwyd y dudalen ar ei wefan newydd ar 26 Ionawr 2021.

Safon 40: Yn unol â gofynion safon 40, mae'n ddyletswydd ar D i sicrhau:

- bod testun hafan ei wefan ar gael yn Gymraeg
- bod unrhyw destun Cymraeg ar hafan ei wefan (neu pan fo'n berthnasol, hafan Gymraeg ei wefan) yn gweithredu'n llawn, ac
- nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â hafan ei wefan.

Pan wiriais y fersiwn Gymraeg o'r hafan ar wefan newydd D (<https://bipcaf.gig.cymru/>) ar 4 Mehefin 2021, nid oedd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion safon 40. Nid yw D yn sicrhau bod pob darn o destun ar yr hafan Gymraeg ar gael yn Gymraeg. Mae rhan fwyaf o'r testun a gyhoeddir ar yr hafan Gymraeg yn uniaith Saesneg. Nid yw D yn sicrhau bod pob darn o destun Cymraeg ar yr hafan Gymraeg yn gweithredu'n llawn. Mae rhai dolenni ar yr hafan wedi torri ac yn mynd â defnyddwyr at dudalen sy'n cynnwys neges wall. Ni cheir neges wall wrth glicio'r dolenni cyfatebol a geir ar yr hafan Saesneg. Mae'r dolenni cyfatebol ar yr hafan Saesneg yn gweithio'n llawn ac yn cyfeirio defnyddwyr at y tudalennau cywir. Nid yw D yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â hafan ei wefan. Mae'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran y dolenni a ddefnyddir ar yr hafan Gymraeg. Mae rhai dolenni a ddefnyddir ar yr hafan Gymraeg yn arwain defnyddwyr at fersiynau Saesneg o dudalennau gwe, hyd yn oed pan mae fersiynau Cymraeg o'r tudalennau hyn ar gael. Mae'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran cywirdeb y testun a gynhwysir ar yr hafan. Gwelir enghreifftiau o gamsillafu ar yr hafan. Mae'r Gymraeg

yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir ar yr hafan Gymraeg. Mae'r hafan Gymraeg a'r hafan Saesneg yn cynnwys carwsél sy'n hysbysu'r erthyglau newyddion mwyaf diweddar y mae D wedi'u cyhoeddi. Pob amser y mae D yn cyhoeddi erthygl newyddion newydd ar ei wefan, mae D yn diweddarau'r carwsél ar yr hafan Saesneg i gynnwys gwybodaeth am yr erthygl honno. Ond, nid yw D pob amser yn diweddarau'r carwsél cyfatebol ar yr hafan Gymraeg. Felly, nid yw rhai o'r erthyglau newyddion mwyaf diweddar yn cael eu crybwyll o gwbl ar yr hafan Gymraeg. Mae hyn yn golygu nad yw defnyddwyr yr hafan Gymraeg yn cael gwybod am yr wybodaeth ddiweddaraf am y bwrdd iechyd yn yr un modd ag y mae defnyddwyr yr hafan Saesneg. Mae hyn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gan nad yw D wedi sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r elfennau hyn o safon 40 erbyn 4 Mehefin 2021, rwyf yn ystyried yr oedd D yn methu â'r safon yn yr un modd pan gwnaeth D bori'r wefan ar 7 Awst 2020.

Safon 41: Os yw D yn cyhoeddi tudalen newydd ar ei wefan, neu'n diwygio tudalen sydd ar ei wefan, mae'n ddyletswydd arno yn unol â gofynion safon 41 i sicrhau:

- bod testun y dudalen honno ar gael yn Gymraeg
- bod unrhyw fersiwn Gymraeg o'r dudalen yn gweithredu'n llawn, ac
- nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran testun y dudalen honno.

Pan wiriais ddetholiad o dudalennau ar wefan newydd D (<https://bipcaf.gig.cymru/>) ar 4 Mehefin 2021, nid oeddynt yn cydymffurfio'n llawn â gofynion safon 41. Nid yw D yn sicrhau bod pob tudalen ar yr wefan ar gael yn Gymraeg.

O'r holl dudalennau a wiriais ar y fersiwn Gymraeg o wefan D, mae bron pob un ohonynt wedi'u cyhoeddi yn Saesneg yn unig (neu yn rhannol yn Saesneg). Nid yw D yn sicrhau bod pob tudalen ar fersiwn Gymraeg ei wefan yn gweithredu'n llawn. Mae dolenni ar nifer o dudalennau wedi torri, ac yn arwain defnyddwyr at neges wall. Mae rhan fwyaf o'r tudalennau Saesneg cyfatebol yn rhydd o wallau fel hyn. Hefyd, nid yw'r chwiliadur ar y wefan Gymraeg yn gweithio'n llawn. Rhaid defnyddio termau Saesneg i chwilio am wybodaeth, a chanfod gwybodaeth, sydd ar dudalennau nad yw D eto wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg. Os defnyddir termau Cymraeg i chwilio am yr wybodaeth sydd ar y tudalennau hynny, nid ydynt yn ymddangos ar ganlyniadau'r chwiliad. Nid yw D yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r tudalennau ar ei wefan. Mae'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran y dolenni a ddefnyddir ar dudalennau ei wefan. Mae'r holl ddolenni ar y tudalennau nad yw D eto wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg yn arwain defnyddwyr at gynnwys Saesneg, er bod y cynnwys ar gael (neu y dylent fod ar gael) yn Gymraeg. Mae'r methiant hwn hefyd yn ymddangos ar y tudalennau y mae D eisoes wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg. Mae gan rai tudalennau sydd eisoes wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg ddolenni arnynt sy'n arwain defnyddwyr at gynnwys Saesneg, er bod y cynnwys ar gael yn Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir ar dudalennau Cymraeg y wefan. Mae gwybodaeth sydd yn cael ei chynnwys ar rai o'r tudalennau Saesneg yn hollol absennol o'r tudalennau Cymraeg. Hefyd, pan mae D yn diweddarau cynnwys ar y fersiwn Saesneg o'i wefan, nid yw'n



sicrhau pob amser bod y fersiwn Gymraeg o'i wefan yn cael ei ddiweddarau ar yr un pryd. Mae hyn yn golygu bod gwybodaeth sydd wedi dyddio yn ymddangos ar rai tudalennau Cymraeg, a gall hynny olygu mewn rhai achosion fod yr wybodaeth a ddarperir i'r cyhoedd bellach yn anghywir. Dau brif ffactor a wnaeth cyfrannu at y methiannau yn yr achos hwn yw'r canlynol:

- diffyg hanesyddol, dros gyfnod estynedig, i gynllunio a rhag-baratoi am ddyfodiad y gofynion, ac i gymryd camau digonol o flaen llaw i wneud yn siŵr y bydd cynnwys ei wefan newydd ar gael yn Gymraeg; a
- phenderfyniad gwybodus D i lansio'r wefan yn gyhoeddus, cyn sicrhau o flaen llaw bod yr holl dudalennau arni yn cydymffurfio â gofynion safon 41.

Mae'n parhau yn arfer gan D i lunio a chyhoeddi cynnwys o'r newydd ar ei wefan yn Saesneg, heb sicrhau bod y cynnwys yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg gyntaf. Gan nad yw D wedi sicrhau ei fod yn cydymffurfio â holl elfennau o safon 41 erbyn 4 Mehefin 2021, rwyf yn ystyried yr oedd D yn methu â'r safon yn yr un modd pan gwnaeth D bori'r wefan ar 7 Awst 2020.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safonau 65, 40 a 41.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safonau 65, 40 a 41.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos fy nyfarniad fod D wedi methu â chydymffurfio â safon 65, byddaf yn gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau. Byddaf hefyd yn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D i gydymffurfio â safon 65. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 65: Rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Byddaf yn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D i gydymffurfio â safon 65, drwy rannu Adran 3 yr adroddiad hwn gyda'r personau canlynol:

- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru
- Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr y GIG yng Nghymru (Dr Andrew Goodall CBE)

Safon 65: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i D sicrhau ei fod yn cyhoeddi fersiynau Cymraeg o'r tudalennau canlynol ar wefan newydd D (<https://bipcaf.gig.cymru/>):

- <https://cavuhb.nhs.wales/about-us/equality-diversity-and-humanrights/languages-spoken-by-gps-in-cardiff-and-the-vale-of-glamorgan/>;
- <https://cavuhb.nhs.wales/our-services/primary-careservices/languages-spoken-by-gps-in-cardiff-and-vale-of-glamorgan/>;
- tudalennau a gyhoeddir ar wefan D sydd wedi'u cynhyrchu gan ategyn IGDC (e.e.

<https://bipcaf.gig.cymru/hospitals-and-health-centres/localhealth-services/>)

2. Rhaid i D sicrhau bod y dudalen y mae wedi'i dynodi i gynnwys gwybodaeth am y darparwyr gofal sylfaenol (y mae D yn gwybod) sy'n fodlon darparu eu gwasanaethau gofal sylfaenol yn rhannol neu'n llawn yn Gymraeg, yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) gwybodaeth am:

- meddygon teulu;
- fferyllwyr;
- deintyddion; ac
- optometryddion.

3. Rhaid i D sicrhau ei fod yn cyhoeddi fersiwn Gymraeg o unrhyw dudalen a ddynodir ac a gynhelir ganddo i gynnwys gwybodaeth am y darparwyr gofal sylfaenol sy'n fodlon darparu gwasanaeth gofal sylfaenol neu ran o'r gwasanaeth gofal sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg.

4. Os yw D yn dewis cydymffurfio â safon 65 at y dyfodol drwy ddefnyddio'r ategyn a ddatblygir gan IGDC, rhaid i D:  
- ddiweddarau'r sgriniau cynnal a chadw gofal sylfaenol trwy'r System Rheoli Cynnwys (CMS) Cascade i sicrhau bod y nodwedd ar yr ategyn (sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal sylfaenol yn Gymraeg) yn gweithio yn llawn

- ystyried cael trefniant ffurfiol (e.e. cytundeb) gyda IGDC i sicrhau bod IGDC yn cyflenwi gwasanaethau ar ran D mewn ffordd sy'n cydymffurfio â gofynion safon 65;
- gynnal trafodaethau gyda IGDC i gadarnhau a chytuno ar y datblygiadau pellach i'r ategyn sydd eu hangen i sicrhau bod y tudalennau a gynhyrchir gan yr ategyn (a'r wybodaeth a ddangosir arnynt) yn sicrhau cydymffurfiaeth D â gofynion safon 65.

5. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1–4.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 65: Cyngor yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg  
1. Dylai D asesu a yw pob darparwr gofal sylfaenol yn ardal y bwrdd iechyd wedi ei hysbysu yn ysgrifenedig a ydynt yn darparu gwasanaeth gofal sylfaenol yn Gymraeg ai peidio. Dylai D adnabod y rhai sydd wedi gwneud hynny a'r rhai nad ydynt wedi gwneud hynny.

2. Os nad yw darparwr gofal sylfaenol eisoes wedi hysbysu D yn ysgrifenedig a ydynt yn darparu gwasanaeth gofal sylfaenol yn Gymraeg ai peidio, dylai D ohebu â'r darparwr yn gofyn iddo ddarparu'r wybodaeth i D (a derbyn ymateb gan y darparwr hwnnw).

Amserlen: Dylai D gwblhau'r camau o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Yn achos fy nyfarniad fod D wedi methu â chydymffurfio â safonau 40 a 41, byddaf yn gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 40: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i D sicrhau bod pob darn o destun ar yr hafan Gymraeg ar ei wefan (<https://bipcaf.gig.cymru/>) ar gael yn Gymraeg. Os yw testun a ddangosir ar yr hafan yn deillio o rannau eraill o wefan D, rhaid i D sicrhau bod y testun hwnnw ar gael yn Gymraeg.

2. Rhaid i D sicrhau bod pob darn o destun Cymraeg ar yr hafan Gymraeg ar ei wefan yn gweithredu'n llawn.

3. Rhaid i D sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r hafan Gymraeg ar ei wefan, gan gynnwys sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran:

- y dolenni a ddefnyddir ar yr hafan Gymraeg; a
- chynnwys yr wybodaeth a gynhwysir ar yr hafan Gymraeg.

4. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1–3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 41: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i D sicrhau bod pob tudalen ar ei wefan newydd (<https://bipcaf.gig.cymru/>) ar gael yn Gymraeg.

2. Rhaid i D sicrhau bod pob tudalen ar fersiwn Gymraeg ei wefan yn gweithredu'n llawn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau:

- nad yw dolenni ar y tudalennau wedi torri
- bod y chwiliadur yn gweithio'n llawn yn Gymraeg.

3. Rhaid i D sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r tudalennau ar ei wefan, gan gynnwys sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran:

- y dolenni a ddefnyddir ar dudalennau ei wefan
- cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir ar dudalennau Cymraeg y wefan.

Cymraeg y wefan.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau:

- bod pob dolen ar ei wefan yn arwain defnyddwyr i gynnwys Cymraeg (os yw'r cynnwys ar gael yn Gymraeg)  
- bod yr holl wybodaeth sydd yn cael ei chynnwys ar dudalennau Saesneg ar y wefan yn cael ei chynnwys ar y tudalennau Cymraeg cyfatebol.

4. Rhaid i D gytuno ar gynllun gweithredu gyda'r trydydd parti sy'n gyfrifol am gyfieithu a chyhoeddi yr wefan i'r Gymraeg ar ran D. Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys:

- disgrifiad o bob un o'r camau y disgwylir i'r trydydd parti eu cymryd i sicrhau bod D yn cydymffurfio â holl ofynion safon 41 erbyn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol, ac

- amserlen bendant ar gyfer cyflawni pob un o'r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir).

5. Rhaid i D roi hyfforddiant i'r sawl sy'n gyfrifol am lunio, cyfieithu neu gyhoeddi cynnwys ar ei wefan am ofynion safon 41.

6. Rhaid i D ddiwygio ei brosesau ar gyfer cyhoeddi cynnwys ar ei wefan i sicrhau nad oes modd cyhoeddi cynnwys newydd (neu ddiweddarau cynnwys) ar ei wefan Saesneg, heb sicrhau ei fod yn gwneud yr un peth ar ei wefan Gymraeg ar yr un pryd.

7. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1–6.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 20/08/2021.

Cyngor  
Bwrdeistref Sirol  
Torfaen

CS020 Ar 10/03/2021 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn cwyno iddo dderbyn dau lythyr uniaith Saesneg am drefniadau adeg y pandemig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ("Y Cyngor") drwy Ysgol Panteg. Fe gwynodd i'r Cyngor ar ôl derbyn y cyntaf, dyddiedig 11 Chwefror 2021. Ar ôl cwyno am y llythyr gyntaf fe dderbyniodd yr achwynydd neges yn ôl gan y Cyngor ar 25 Chwefror yn nodi: "Please, may I sincerely apologise for the failure and I am working with the Education department to ensure that this does not happen again." Er hynny, fe dderbyniodd yr achwynydd lythyr uniaith Saesneg arall nes ymlaen gan y Cyngor drwy Ysgol Panteg, dyddiedig 8 Mawrth, yn trafod dychwelyd i'r ysgol a phrofion Covid-19. Derbyniais gopiâu o'r ddau lythyr fel tystiolaeth gan yr achwynydd.

20/08/2021

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 5: Gofynion safon 5 yw, os nad yw corff yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrtho yn Gymraeg, bod rhaid iddo ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth wrth ohebu â'r person hwnnw. Fe ddanfonwyd llythyrau uniaith Saesneg ar ddau achlysur at rieni Ysgol Panteg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â gofynion safon 5.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safon 5.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safon 5.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos fy nyfarniad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safon 5, byddaf yn gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 5: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen atgoffa staff am ofynion penodol safon 5, gan awgrymu datrysiadau ymarferol y gellir ei gweithredu pan mae angen cyfieithiadau ar frys gan staff y Cyngor.

2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol

Argymhellir fod y Cyngor hefyd yn ystyried fy nghyngor am beidio danfon llythyrau uniaith Saesneg at ysgolion, ond aros am y cyfieithiad Cymraeg, a hynny mewn perthynas ac holl ysgolion yn gyffredinol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar 20/08/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 5: Mae safon 5 yn mynnu bod corff yn anfon fersiwn Gymraeg o unrhyw ohebiaeth os nad oes sicrwydd ynglŷn a dewis iaith y cwsmer. Mae'r achwynydd wedi anfon ei llythyr apêl yn Saesneg yn unig, ac felly roedd yn rhesymol i'r Cyngor ymateb i'r llythyr hwnnw yn Saesneg hefyd. Nid yw hyn yn fethiant i gydymffurfio â safon 5, gan ei fod yn rhesymol i'r Cyngor ymateb yn Saesneg i ohebiaeth Saesneg yr achwynydd.

#### Cyngor Sir Ddinbych

CSG786 Ar 07/10/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Mae'r gŵyn yn ymwneud â gwallau yn y testun Cymraeg ar daflenni Rhybudd Tâl Cosb. Mae'r honiadau yn cynnwys:



- i. Amlen gyda'r geiriau "Affix postage stamp here" yn Saesneg yn unig
- ii. Gwallau gramadegol, gwallau sillafu a chyfieithu gwael ar y Rhybudd Tâl Cosb a'r daflen felen
- iii. Mae'r rhifau ffôn ar gyfer herio'r Rhybudd Tâl Cosb yn wahanol yn y testun Cymraeg a Saesneg, gyda'r achwynydd yn honni bod cyfradd y rhif Cymraeg yn ddrytach
- iv. Dim datganiad yn y Rhybudd Tâl Cosb bod croeso i unrhyw un anfon gohebiaeth yn ôl yn Gymraeg
- v. Methiant i anfon gohebiaeth yn Gymraeg at yr achwynydd
- vi. Tudalen gwe sy'n ymwneud â phrosesau taliadau sy'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy gynnwys testun annealladwy ac anghywir.

Safon 6: Mae safon 6 yn mynnu nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg gan y Cyngor wrth iddo lunio gohebiaeth. Mae'r amlen dan sylw yn cynnwys brawddeg at sylw'r achwynydd sy'n Saesneg yn unig. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â safon 6.

Safon 7: Mae safon 7 yn gofyn i gorff sy'n creu gohebiaeth, cyhoeddiadau, neu hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i ymateb neu i anfon gohebiaeth yn ôl, ddatgan bod croeso i wneud hynny yn Gymraeg, y bydd y corff yn ateb yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r RhTC yn hysbysiad swyddogol sydd wedi ei ragnodi gan ddeddfiad, ac o ganlyniad mae wedi ei eithrio o ofynion safon 7. Nid oes methiant yma i gydymffurfio gan nad yw'r RhTC yn dod o fewn gofynion safon 7.

Safon 12: Mae safon 12 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth, neu wasanaethau canolfannau galwadau. Mae safon 12 yn benodol ar gyfer hysbysebu rhifau ffôn, ac mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r safon wrth hysbysebu'r rhifau ffôn. Nid yw hyn yn fethiant i gydymffurfio â safon 12.

Safon 48: Mae safon 48 yn gofyn i gorff sicrhau nad yw unrhyw ddogfen yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r RhTC dan sylw'r gŵyn hon yn hysbysiad swyddogol sydd wedi ei ragnodi gan ddeddfiad, nid dogfen, ac felly nid yw yn dod dan ofynion safon 48.

Safon 50B: Mae safon 50B yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio ffurflenni. Mae hyn yn cynnwys mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen. Mae'r frawddeg Gymraeg: "Cewch ostyngiad o 50% os talwch cyn pen 14 diwrnod wedi dyddiad y rhybydd", yn golygu bod gan unigolyn 14 diwrnod ar ôl diwrnod rhoi'r ddirwy i dalu. Ond mae'r frawddeg Saesneg: "Payments received within 14 days of issue of the penalty charge notice are eligible for a 50% discount", yn golygu bod gan unigolyn 14 diwrnod o ddiwrnod rhoi'r dirwy i dalu. Mae gwybodaeth ar wefan y Cyngor yn cadarnhau mai'r fersiwn Saesneg sy'n gywir. Mae hyn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol gan fod y frawddeg Gymraeg yn rhoi'r cam-argraff bod diwrnod ychwanegol i dalu'r ddirwy. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â safon 50B.

Safon 52: Mae safon 52 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod testun pob tudalen ar y wefan ar gael yn Gymraeg; bod pob tudalen Gymraeg yn gweithredu'n llawn; ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y wefan. Mae'r Cyngor yn derbyn bod y frawddeg ar y dudalen 'Gwneud Taliad' yn wallus yn Gymraeg, ac hefyd yn awgrymu bod ailwampiad diweddar o'r wefan wedi cywiro yr enghraifft o wall ieithyddol ddarparodd yr achwynydd. Mae archwiliad o'r wefan wedi dangos bod man wallau yn parhau i fodoli ar y wefan. Mae'r Cyngor hefyd yn derbyn ei gamgymeriad mewn perthynas â'r ddolen i'r ddogfen Saesneg, ac yn cadarnhau bod fersiwn Gymraeg o'r ddogfen ar gael, ond bod camgymeriad TGCh wedi bod. Arweiniai hyn oll at y casgliad bod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â safon 52.

Safon 69: 8 Mae safon 69 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw hysbysiad swyddogol yn cael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, ac nad yw fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad yn cael ei thrin yn llai ffafriol nag unrhyw fersiwn Saesneg. Mae'r RhTC yn hysbysiad swyddogol a ragnodir gan ddeddfiad. O ganlyniad, nid yw'n dod o dan ofynion safon 69. Nid oes methiant felly i gydymffurfio â safon 69.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Sir Ddinbych wedi methu â chydymffurfio â safonau 5, 7, 12, 48 a 69, ond bod Cyngor Sir Ddinbych wedi methu â chydymffurfio â safonau 6, 50B a 52.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir Ddinbych wedi methu â chydymffurfio â safonau 6, 50B a 52.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o sicrhau nad yw'r Cyngor yn gweithredu yn groes i ysbryd Mesur y Gymraeg. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 7: Argymhellion yn unol ag adran 76(3)(a) Mesur y Gymraeg

1. Rwy'n argymhell fod y Cyngor yn ychwanegu'r wybodaeth dan safon 7 i'r RhTC er mwyn sicrhau nad yw'n ymddwyn

yn groes i ysbryd Mesur y Gymraeg 2011. Mae hyn yn cynnwys datgan bod croeso i unrhyw un ohebu yn yn Gymraeg, y bydd y corff yn ateb yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Safon 12: Argymhellion yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg

2. Rwy'n argymhell fod Cyngor Sir Ddinbych yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau nad yw cyfradd tâl ar gyfer galwadau i rifau ffôn Cymraeg y Cyngor yn uwch na'r gyfradd ar gyfer y rhifau Saesneg cyfatebol, a hyn er mwyn gweithredu yn unol ag ysbryd Mesur y Gymraeg 2011.

Safon 69: Argymhellion yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg

3. Rwy'n argymhell fod Cyngor Sir Ddinbych yn sicrhau bod y RhTC a'r daflen felen yn cael eu cywiro er mwyn sicrhau nad oes gwallau ieithyddol yn bodoli, a bod y Cyngor yn sicrhau fod y RhTC a'r daflen felen yn cael eu prawf ddarllen gan berson sy'n meddu ar gymwysterau priodol i ymgymryd â'r gwaith.

4. Rwy'n argymhell fod y Cyngor yn sicrhau bod pob hysbysiad swyddogol a ragnodir gan ddeddfiad yn gywir yn Gymraeg, ac nad ydynt yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol ag ysbryd Mesur y Gymraeg 2011.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Ddinbych ar 18/08/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Castell-  
nedd Port  
Talbot

CSG727 Ar 01/04/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd i gylchlythyr uniaith Saesneg gael ei ddsbarthu drwy ei flwch llythyrau. Roedd y llythyr a'r daflen yn cynnwys gwybodaeth am Covid-19. Gweler gopi o'r llythyr a'r daflen dderbyniodd yr achwynydd ynghlwm.

18/08/2021

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 4: Mae safon 4 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw ohebiaeth sy'n mynd at lawer o bobl yn cael ei anfon yn Gymraeg. Mae'r Cyngor yn cydnabod yn yr achos yma fod llythyr a thaflen yn ymwneud â Covid-19 wedi cael ei ddsbarthu yn Saesneg yn unig, a hyn yn dilyn penderfyniad i anfon pob gohebiaeth oedd yn ymwneud â Covid-19 yn Saesneg yn unig. Mae hyn yn fethiant clir i gydymffurfio â safon 4.

Safon 5: Mae safon 5 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor anfon fersiwn Gymraeg o unrhyw ohebiaeth os nad oes sicrwydd ynglŷn â dewis iaith y cwsmer. Cafodd yr ohebiaeth dan sylw'r gŵyn hon ei anfon at nifer o bersonau, ac felly safon 4 sy'n berthnasol yn hytrach na safon 5.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi methu â chydymffurfio â safon 5, ond bod Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi methu â chydymffurfio â safon 4.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi methu â chydymffurfio â safon 4.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y

methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 4: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rwyf yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu ar gyfer paratoi gohebiaeth Gymraeg mewn argyfwng.

Dylai'r cynllun:

- Asesu gallu'r uned gyfieithu i weithredu mewn argyfwng -
- Wneud paratoadau wrth gefn y gellir eu rhoi ar waith er mwyn paratoi gohebiaeth Gymraeg mewn argyfwng
- Sefydlu proses er mwyn blaenoriaethu dogfennau a gohebiaeth sydd angen eu cyfieithu lle bo'r uned gyfieithu dan straen, fel mewn sefyllfa o argyfwng.

Rhaid i'r cynllun gweithredu nodi amserlen ar gyfer cyflawni camau'r cynllun, a phwy fydd yn gyfrifol ac atebol am ei weithrediad.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 4: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Castell Nedd Port Talbot ddiwygio ei gynlluniau a'i strategaethau ar gyfer ymateb i argyfwng fel eu bod yn mynd i'r afael â'r angen i gydymffurfio â gofynion y safonau.

2. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Castell-nedd Port Talbot ar 18/08/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Os yw'r Cyngor yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, mae safon 1 yn ei wneud yn ofynnol iddo ateb yr ohebiaeth honno yn Gymraeg, os oes angen ateb. Gofynnodd yr achwynydd i'r Cyngor yn Gymraeg am y llythyr a'r ffurflen asesu anabledd, ond atebodd y Cyngor yr ohebiaeth yma yn Saesneg. Gofynnodd yr achwynydd hefyd am y ffurflen bathodyn glas yn Gymraeg, ond atebodd y Cyngor yr ohebiaeth yma yn Saesneg. Mae'r Cyngor wedi methu cydymffurfio â safon 1 ar y ddau achlysur uchod.

Safon 5: Mae safon 5 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor anfon gohebiaeth yn Gymraeg os oes nad oes sicrwydd ynglŷn â dewis iaith y cwsmer. Yn yr achos yma, nid yw safon 5 yn berthnasol i amgylchiadau'r gŵyn gan mai safon 1 sy'n berthnasol.

Safon 50: Mae safon 50 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor lunio copi Cymraeg o unrhyw ffurflen sydd at ddefnydd y cyhoedd. Yn yr achos yma, mae'r Cyngor wedi cadarnhau

CS009 Ar 01/02/2021, derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd iddo dderbyn gohebiaeth a ffurflen uniaith Saesneg gan Gyngor Sir Gar. Yn gyntaf, mewn perthynas ag ymholiad cerdyn bws anabl a wnaeth yr achwynydd, derbyniodd lythyr a ffurflen asesu anabledd yn Saesneg yn unig gan y Cyngor. Yn ail, mewn perthynas ag ymholiad ynglŷn â bathodyn glas parcio anabl, derbyniodd e-bost uniaith Saesneg gan y Cyngor.

18/08/2021

Cyngor Sir Gar

bod fersiwn Gymraeg o'r ffurflen ar gael, ac felly mae'r Cyngor yn cydymffurfio â safon 50.

Safon 50A: Mae safon 50A yn datgan bod rhaid i'r Cyngor nodi yn glir ar ffurflen Saesneg bod ffurflen Gymraeg ar gael. Nid oes datganiad o'r fath ar y ffurflen asesu anabledd Saesneg dderbyniodd yr achwynydd, ac mae'r Cyngor yn cydnabod hyn. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â safon 50A.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Sir Gar wedi methu â chydymffurfio â safonau 5 a 50, ond bod Cyngor Sir Gar wedi methu â chydymffurfio â safonau 1 a 50A.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir Gar wedi methu â chydymffurfio â safonau 1 a 50A.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 1: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Sir Gar gynnal hyfforddiant i'w staff er mwyn egluro gofynion safon 1 yn llawn, yn benodol bod rhaid ymateb i unrhyw ohebiaeth Cymraeg gan gwsmer yn



Gymraeg bob amser, oni bai bod y cwsmer wedi datgan nad oes angen gwneud hynny.

2. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 50A: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Sir Gar ychwanegu datganiad yn glir ar y ffurflen asesu anabledd Saesneg bod fersiwn Gymraeg o'r ffurflen ar gael er mwyn cydymffurfio â safon 50A.

2. Rhaid i'r Cyngor gynnal asesiad o'r ffurflenni eraill sy'n berthnasol i'r gwasanaeth tocynnau teithio rhatach er mwyn gwirio nad oes mwy o ffurflenni Saesneg yn methu cydymffurfio â safon 50A drwy beidio datgan yn glir bod fersiwn Cymraeg ar gael.

3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o leihau'r posibilrwydd o fethiant i gydymffurfio gan y Cyngor yn y dyfodol. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 5: Argymhellion yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg.

Rwy'n argymhell bod Cyngor Sir Gar yn ystyried anfon fersiwn Cymraeg o ohebiaeth at gwsmeriaid os oes anghysondeb yn iaith gohebiaeth y cwsmer.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Gâr ar 18/08/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CSG612, CSG617 a CSG622 Ar 12/08/2019, 18/08/2019 a'r 27/08/2019 derbyniwyd gwynion gan aelodau o'r cyhoedd. Roedd y cwynion yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n ddilys. Roedd y cwynion yn ymwneud â diffyg defnydd Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru (ICC) o'r Gymraeg, ac yn cynnwys y canlynol:

- i. bod eu cyfiri Trydar @ICCWales yn uniaith Saesneg
- ii. bod eu gwefan swyddogol yn cynnwys ychydig iawn o Gymraeg
- iii. bod y brandio a'r logo'n uniaith Saesneg
- iv. a'u bod yn gosod arwyddion uniaith Saesneg tu allan i'r adeilad

03/08/2021

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 94: Mae'r safon yn ei gwneud hi'n ofynnol i gorff lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau sy'n sicrhau bod y corff yn ystyried y Gymraeg wrth fynd drwy'r broses o ddyfarnu grant. Eglurodd Gweinidogion Cymru nad arian grant sydd dan sylw yma, ond yn hytrach buddsoddiad. Mae ICC yn gyd-fenter rhwng Gweinidogion Cymru â The Celtic Manor Resort Limited. Rwy'n casglu nad yw Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio gyda safon 94 gan mai buddsoddiad ac nid grant oedd y trefniant dan sylw.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 21.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Yn achos fy nyfarniad nad yw Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 94, ni fyddaf yn gweithredu ymhellach.

Gweinidogion  
Cymru

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 03/08/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 21: Gofynion safon 21 yw holi (ar y cysylltiad cyntaf) os yw'r person yn dymuno galwadau ffôn Cymraeg, i gofnodi hynny, a chynnal galwadau ffôn Cymraeg gyda'r person o hynny ymlaen os maent yn dymuno hynny. Rwyf o'r farn fod y dystiolaeth gan y Cyngor yn yr achos yma yn ategu'r ffeithiau mae'r Cyngor yn nodi, sef:

- Ar ôl methu cysylltu â'r achwynydd drwy ei ffonio, bod y Cyngor wedi danfon llythyr dwyieithog at yr achwynydd dyddiedig 22/04/2020 yn gofyn iddo gysylltu â nhw am y mater o'i gartref.
  - Bod yr achwynydd wedi ffonio'r Cyngor ar 24/04/2020 ac wedi cael cynnig i gael galwad ffôn Cymraeg am y mater ond ei fod wedi parhau â'r sgwrs yn Saesneg.
- Nid yw hyn yn fethiant i gydymffurfio â safon 21 gan mai dewis yr achwynydd oedd parhau i sgwrsio yn Saesneg ar yr achlysur yma er ei fod wedi cael cynnig galwad Cymraeg. Nid y Cyngor a ffoniodd yr achwynydd yn Saesneg, felly. Ymhellach, ynglŷn â'r gofyniad i gofnodi dewis iaith, rwyf yn ystyried bod y Cyngor wedi gwneud hynny gan eu bod wedi cynnig gwasanaeth Cymraeg i'r achwynydd wrth siarad ag ef ar y ffôn, ac mae tystiolaeth o hynny yn y sgrinlun gyda'r nodyn dyddiedig 24/04/2020.

### Cyngor Sir Gâr

CSG765 Ar 31/08/2020 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn cwyno iddo dderbyn galwad ffôn Saesneg mewn ymateb i lythyr Cymraeg danfonodd at Gyngor Sir Gâr ("Y Cyngor") am gyflwr ei gartref.

02/08/2021

			<p><b>Dyfarniad y Comisiynydd</b> O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Sir Gâr wedi methu â chydymffurfio â safon 21.</p> <p><b>Datganiad gweithredu pellach</b> Ar y sail fy mod wedi derbyn wedi derbyn eitemau o dystiolaeth gan y Cyngor ei bod wedi cynnig gwasanaeth ffôn Cymraeg i'r achwynydd ar yr achlysur yma, yn dilyn cydnabod ei ddewis iaith, ond bod y sgwrs wedi parhau yn Saesneg, ni fyddaf yn gweithredu ymhellach.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Gâr ar 02/08/2021.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam</u></p>	<p>CSG772b, CSG791 a CSG793 Ar 11/09/2020 ac ar 19/10/2020 derbyniwyd gwynion gan aelod o'r cyhoedd. Roeddent yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwynion dilys. Roedd tair elfen wahanol i'r cwynion. Roedd yr achwynydd yn cwyno am arwydd gwallus ar beiriant tocyn parcio, arwydd uniaith Saesneg wrth waith ffordd, a map ac allwedd uniaith</p>	<p>30/07/2021</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 38: Gofynion safon 38 yw bod rhaid i unrhyw ddeunydd sydd yn cael ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a bod rhaid peidio â thrin y fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Yn yr achos yma mae neges i'r cyfieithydd wedi ei adael ar y testun Cymraeg ar ddeunydd dros dro ar beiriant parcio. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â gofynion safon 38.</p> <p>Safon 61: Gofynion safon 61 yw bod rhaid i'r testun ar unrhyw arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg, unai mewn arwydd ar wahân, neu ar yr un arwydd. Rhaid peidio â thrin</p>

Saesneg yn dangos newid mewn llwybrau.

unrhyw destun Cymraeg ar yr arwydd yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. Dim ond arwydd Saesneg yn nodi "diverted traffic" oedd ar y safle ar y pryd, heb fersiwn Gymraeg o'r testun. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â gofynion safon 61.

Safon 69: Gofynion safon 69 yw bod rhaid arddangos hysbysiad swyddogol yn Gymraeg, ac wrth wneud hynny rhaid peidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol. Er bod testun dwyieithog i'r hysbysiad swyddogol, roedd y map a'r allwedd yn uniaith Saesneg. Mae hyn felly yn fethiant i gydymffurfio â gofynion safon 69.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 38, 61 a 69

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 38, 61 a 69.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 61: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ystyried cyflwyno cymalau yn eu contractau gyda sefydliadau trydydd parti, sydd yn rhoi cymalau cosb ar y sefydliad pan nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion y safonau ar ran y Cyngor.

2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 30/07/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 52: Mae safon 52 yn ei wneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod testun pob tudalen ar ei wefan ar gael yn Gymraeg, bod pob tudalen Gymraeg ar y wefan yn gweithredu'n llawn, ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y wefan. Yn yr achos yma, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â Covid-19 yn Saesneg yn unig ar ei wefan, a heb ddiweddarau'r dudalen Gymraeg gyfatebol. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â safon 52, gan nad yw'r wybodaeth dan sylw ar gael yn Gymraeg ar y wefan.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

#### Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

CSG748 Ar 24/07/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd bod gwybodaeth a oedd yn ymwneud â Covid-19 ar gael yn Saesneg ar wefan y Cyngor, ond nad oedd yr un wybodaeth wedi cael ei ddiweddarau ar y dudalen Cymraeg.

26/07/2021

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 52: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rwy'n ei wneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod pob testun sy'n ymwneud â Covid-19 ar ei wefan ar gael yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd eisoes wedi ei gyhoeddi, ac unrhyw wybodaeth fydd yn cael ei gyhoeddi yn y dyfodol. Ni ddylai fod unrhyw oedi rhwng cyhoeddi'r wybodaeth yn Gymraeg a Saesneg.
2. Rhaid i'r Cyngor gynnal adolygiad o'u trefniadau ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth ar eu gwefan mewn argyfwng, er mwyn sicrhau nad yw gofynion safonau'r Gymraeg yn cael eu hanghofio mewn argyfwng. Rhaid i'r Cyngor atgoffa'r staff o'r trefniadau hyn.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Prif Gwnstabl  
Heddlu Dyfed  
Powys

CSG812 Ar 4 Rhagfyr, 2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â neges uniaith Saesneg a dderbyniodd yr achwynydd gan Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys ar 2 Rhagfyr, 2020. Daeth y gŵyn ar ffurf e-bost. Yn yr e-bost, dywedodd yr achwynydd iddo lwytho adroddiad yn Gymraeg ar wefan Heddlu Dyfed Powys o dan yr Adran 'Adrodd Trosedd' ar 1 Rhagfyr, 2020 gan dderbyn cadarnhad uniaith Saesneg (gweler isod) o'i dderbyn ar 2 Rhagfyr, 2020:

Thank you for your report.

21/07/2021

Amserlen: O fewn 1 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 21/07/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Mae safon 1 yn gofyn i'r Heddlu pan fydd yn derbyn unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid iddo ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg. Anfonodd yr Heddlu ohebiaeth, yn yr achos hwn, neges cydnabod a oedd yn uniaith Saesneg. Anfonwyd y neges ar ffurf ebost. Roedd yr ebost yn cadarnhau derbyn adroddiad Cymraeg a lwythwyd ar wefan yr Heddlu. Mae hyn yn dangos methiant gan yr Heddlu i gydymffurfio â safon 1.

Safon 4: Mae safon 4 yn ymwneud â'r modd y mae corff yn anfon gohebiaeth at fwy nag un person. Mae'n rhaid i gorff anfon gohebiaeth Gymraeg yr un pryd ag y bydd yn anfon gohebiaeth Saesneg ohoni. Anfonodd yr Heddlu ohebiaeth safonol uniaith Saesneg at yr achwynydd. Lluniwyd yr ohebiaeth safonol i'w anfon at nifer o bersonau. Roedd yr ebost yn cadarnhau derbyn adroddiad Cymraeg a lwythwyd ar wefan yr Heddlu. Mae hyn yn dangos methiant gan yr Heddlu i gydymffurfio â safon 4.



This has been logged under our ref: DP-XXXXXXXX-XXX and has been sent for the attention of the local policing team.

Kind Regards

Safon 5: Os nad yw corff yn gwybod beth yw dewis iaith person, rhaid iddo sicrhau ei fod yn darparu fersiwn Gymraeg o unrhyw ohebiaeth y mae'n ei hanfon at y person hwnnw. Anfonodd yr Heddlu ohebiaeth safonol uniaith Saesneg at yr achwynydd, heb wybod a oedd yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Roedd yr ohebiaeth, ar ffurf ebost yn cadarnhau derbyn adroddiad Cymraeg a lwythwyd ar wefan yr Heddlu. Mae hyn yn dangos methiant gan yr Heddlu i gydymffurfio â safon 5.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys wedi methu â chydymffurfio â safon 1, 4 a 5.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys wedi methu â chydymffurfio â safon 1, 4 a 5.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 1: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 (3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys gynnal arolwg er mwyn adnabod pob neges safonol a anfonir ganddo mewn ymateb i adroddiadau a lwythir ar wefan yr Heddlu.

2. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys sicrhau bod pob gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg, ar ba bynnag ffurf, yn cael ei ateb yn Gymraeg er mwyn cydymffurfio â safon 1.

3. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.  
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys ar 21/07/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CSG739 Ar 25/06/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd.

Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd bod y trydariadau canlynol, a wnaed gan un o Weinidogion Cymru, yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg:

1.

<https://twitter.com/walesintheworld/status/1275415962364321792>

21/07/2021

Gweinidogion  
Cymru

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 58: Mae safon 58 yn ei gwneud yn ofynnol ar Weinidogion Cymru i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Rhaid cydymffurfio â'r safon ac eithrio cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir ar gyfer cynulleidfaoedd a ragwelir sydd wedi eu lleoli tu allan i Gymru. Roedd cyfrif @walesintheworld yn gyfrif swyddogol y Gweinidog dros iaith Gymraeg a chysylltiadau rhyngwladol. Tra bod cyfran o'r gynulleidfa a ragwelir ar gyfer y cyfrif hwn yn debygol o fod y tu allan i Gymru, cesglir hefyd bod cyfran fawr o'r gynulleidfa a ragwelir wedi eu lleoli yng Nghymru ac hefyd yn siaradwyr Cymraeg. Ar 23/06/2020 cyhoeddodd Gweinidogion Cymru neges ar y cyfrif Twitter dan sylw

2.  
<https://twitter.com/walesintheworld/status/1273305660705341440>

3.  
<https://twitter.com/walesintheworld/status/1275818552235343873>

Honnir bod y trydariadau wedi eu hanelu at gynulleidfa Gymraeg ble mae'r siaradwr yn y fideo yn defnyddio'r Saesneg yn unig, ac ymddengys yr isdeitlau yn Saesneg.

Yn nhrydariad rhif 3, ceir testun dwyieithog yn y Saesneg a'r Ffrangeg, heb gynnwys y Gymraeg.

(neges 1) a oedd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg gan fod y testun Cymraeg yn cynnwys llai o wybodaeth na'r testun Saesneg. Ar 17/06/2020 cyhoeddodd Gweinidogion Cymru neges ar y cyfrif Twitter dan sylw (neges 2). Roedd testun y neges yn ddwyieithog ac roedd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cyfateb yn llawn. Roedd y neges hefyd yn rhannu fideo uniaith Saesneg. Nid oedd fersiwn gyfatebol Gymraeg o'r fideo ar gael felly casglaf nad oedd Gweinidogion Cymru yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth rannu'r fideo hwnnw gyda'r neges Gymraeg. Ar 24/06/2020 cyhoeddodd Gweinidogion Cymru neges ar y cyfrif Twitter dan sylw (neges 3) yn Saesneg heb gyhoeddi neges gyfatebol yn Gymraeg. Wrth wneud hynny, cesglir bod Gweinidogion Cymru wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er bod Gweinidogion Cymru wedi nodi iddo ddiwygio'r 'Canllawiau ar ddefnyddio'r Gymraeg yng ngwaith cyfathrebu a marchnata Llywodraeth Cymru' yn dilyn fy ymchwiliadau blaenorol ymddengys bod methiannau yn parhau. Rwy'n cydnabod bod Gweinidogion Cymru yn bwriadu parhau i ddiwygio'r canllaw hwn, serch hynny, nid yw hynny yn cynnig digon o sicrwydd y bydd cydymffurfiaeth wedi ei adfer.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 58.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 58.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 58: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad llawn o'i gyfrifon cymdeithasol gan ystyried y cynulleidfaoedd a ragwelir ar gyfer pob cyfrif gan nodi i ba raddau y mae'r cynulleidfaoedd a ragwelir wedi eu lleoli yng Nghymru.
2. Lle bernir bod y gynulleidfa a ragwelir yng Nghymru dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod negeseuon a gyhoeddir ar y cyfrifon hynny yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg.
3. Wrth baratoi testun i'w gyhoeddi ar ei gyfrifon cymdeithasol, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod y negeseuon Cymraeg yn cyfateb yn union i unrhyw negeseuon Saesneg (os oes negeseuon Saesneg cyfatebol yn cael eu cyhoeddi).
4. Rhaid i Weinidogion Cymru ddiwygio ei ganllaw Canllawiau ar ddefnyddio'r Gymraeg yng ngwaith cyfathrebu a marchnata Llywodraeth Cymru i adlewyrchu'r gofynion uchod.
5. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-4.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 37 – Cyngor yn unol ag adran 4(2)(j) Mesur y Gymraeg

Rwy'n cynghori Gweinidogion Cymru i adolygu ei ganllawiau Canllawiau ar ddefnyddio'r Gymraeg yng ngwaith cyfathrebu a marchnata Llywodraeth Cymru. Dylai'r canllaw gynnwys y canlynol:

- Cyngor ac arweiniad i staff ar sut i adnabod yr angen am ddarpariaeth iaith Gymraeg.
- Datganiad clir i nodi y dylai pob deunydd cyhoeddusrwydd (gan gynnwys fideos) sydd yn cael ei lunio gan Weinidogion Cymru, gael ei lunio yn Gymraeg, ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol wrth lunio'r deunydd hwnnw (gan eithrio deunydd sydd wedi ei lunio at gynulleidfa y tu allan i Gymru).
- Datganiad clir y dylid gwneud pob ymdrech i ddefnyddio siaradwyr Cymraeg i gyfrannu i fideos Cymraeg, a chyngor ar sut i geisio sicrhau hynny.
- Arweiniad pellach ynglŷn â beth ddylid ei wneud os nad yw person sydd yn siarad ar y fideo yn medru'r Gymraeg.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 21/07/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Dinas a  
Sir Abertawe

CSG729 Ar 14/05/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd iddo anfon gohebiaeth yn Gymraeg ar ffurf e-bost at y Cyngor ar 13/05/2020. Roedd yr ohebiaeth yn ymwneud â thaliadau debyg uniongyrchol treth y Cyngor. Derbyniodd ymateb yn uniaith Saesneg ar ddau achlysur. Yn dilyn derbyn yr ail neges, anfonodd yr achwynydd ymateb at y Cyngor yn gofyn pam ei fod yn derbyn negeseuon uniaith Saesneg ganddo.

21/07/2021

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Pan fo'r Cyngor yn cael gohebiaeth yn Gymraeg, ac mae angen i'r Cyngor ateb yr ohebiaeth honno, rhaid iddo ateb yn Gymraeg, oni bai bod y person a anfonodd yr ohebiaeth wedi dweud wrtho nad oes angen gwneud hynny. Anfonodd yr achwynydd ohebiaeth yn Gymraeg i'r Cyngor. Ni ddywedodd nad oedd angen i'r Cyngor ei hateb yn Gymraeg. Atebodd y Cyngor ohebiaeth yr achwynydd ar ffurf e-bost yn Saesneg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 1.

Camu gorfodi achos CSG201: Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor sicrhau ei fod yn ateb pob gohebiaeth sydd wedi'i hysgrifennu'n Gymraeg, yn Gymraeg. Ar 13/05/2020, derbyniodd yr achwynydd ddau ohebiaeth yn Saesneg gan y Cyngor. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â cham gorfodi.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 1 a cham gorfodi achos CSG201.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 1 a cham gorfodi achos CSG201.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y

methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 1 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Abertawe sicrhau ei fod yn ateb pob gohebiaeth Cymraeg, sydd angen ei ateb, yn Gymraeg er mwyn cydymffurfio â safon 1.
2. Rhaid i'r Gyngor gynnal hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth staff y Gyngor at y canllaw sy'n bodoli eisoes.
3. Rhaid i'r Gyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2. Amserlen: o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar 21/07/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Caerdydd

CSG647 Ar 27 Medi 2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yn ymwneud â'r ffordd y

14/07/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Efen 1 y gŵyn: Pan fo'r cyngor yn cael gohebiaeth yn Gymraeg, ac mae angen iddo ateb yr ohebiaeth honno, rhaid iddo ateb yn Gymraeg, oni bai bod y person a anfonodd yr ohebiaeth wedi dweud wrtho nad oes angen gwneud hynny. Derbyniodd y cyngor ddwy apêl

deliodd Cyngor Caerdydd (y cyngor) â dwy apêl parcio ac roedd dwy elfen iddi.

Yn gyntaf, roedd y gŵyn yn honni bod hysbysiadau gan y cyngor yn gwrthod yr apeliadau yn cynnwys gwybodaeth oedd yn Saesneg. Rhannodd yr achwynydd gopi o ohebiaeth y cyngor. Roedd yn cynnwys cyfres o luniau wedi eu tynnu gan y cyngor.

Honnai'r ohebiaeth bod y lluniau'n dangos car yr achwynydd wedi parcio'n anghyfreithlon. Roedd penawdau'r lluniau a manylion eu tynnu yn ymddangos Saesneg. Roedd y testun Saesneg oedd i'w weld yn cynnwys, 'For reference', 'Date time stamp', 'on 28 August 2019 at 16:12:26' a 'Cardiff City Council'. Roedd pedair tudalen debyg wedi eu cynnwys yng ngohebiaeth y cyngor.

Yn ail, roedd y gŵyn yn honni bod y cyngor wedi oedi wrth ddelio â'r apeliadau, a hynny oherwydd eu bod wedi eu gwneud yn Gymraeg. Dywedodd yr achwynydd bod yr hysbysiadau gwrthod wedi eu dyddio 28 Awst 2019 gan mai

parcio gan yr achwynydd yn Gymraeg. Roedd angen iddo ymateb i'r ohebiaeth honno drwy naill ai dderbyn neu wrthod apeliadau achwynydd. Atebodd y cyngor yr ohebiaeth trwy anfon i'r achwynydd ddau hysbysiad gwrthod sylwadau. Roedd yr hysbysiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg (fersiynau ar wahân) Er bod y fersiwn Gymraeg ar y cyfan yn Gymraeg, roedd yn cynnwys testun oedd yn Saesneg yn unig. Roedd hyn yn fethiant gan y cyngor i gydymffurfio â'r safon.

Safon 1: Elfen 2 y gŵyn: Pan fo'r cyngor yn cael gohebiaeth yn Gymraeg, ac mae angen iddo ateb yr ohebiaeth honno, rhaid iddo ateb yn Gymraeg, oni bai bod y person a anfonodd yr ohebiaeth wedi dweud wrtho nad oes angen gwneud hynny. Atebodd y cyngor ohebiaeth gan yr achwynydd y tu hwnt i'r trothwy statudol ar gyfer ateb y math honno o ohebiaeth. Nid oes tystiolaeth sy'n profi bod dewis iaith yr achwynydd wedi bod yn ffactor yn yr oedi.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 47, ond bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 1.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 1.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adrannau 76 a 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y



dyma'r dyddiad ar yr ohebiaeth, ond, yn ôl gwybodaeth y Tribiwnlys Cosbau Traffig, 21 Awst 2019 oedd eu dyddiad. Holodd: A oedd y cyngor felly wedi prosesu'r apêl trwy gyfrwng y Saesneg, yn groes i ofynion y Safonau a Deddf Diogelu Data 2018 gan arwain at oedi o 7 diwrnod? Eglurodd yr achwynydd ei fod yn amau bod y cyngor wedi gweithredu yn y modd hwn oherwydd bod system ar-lein y Tribiwnlys Cosbau Traffig yn dangos mai 21 Awst 2019 oedd dyddiad yr hysbysiadau gwrthod. Pan ddefnyddiodd y system ar 26 Medi 2019 gwelodd bod angen iddo egluro wrth y tribiwnlys pam y dylid ystyried ei apêl yn erbyn yr hysbysiadau gwrthod tu hwnt i'r cyfnod 28 diwrnod a ganiateir yn statudol. Dywedodd bod y dyddiad wedi ei gywiro gan y cyngor ar 27 Medi 2019 a bod y system ar-lein, ar y dyddiad hwnnw, yn dangos mai 29 Awst 2019 oedd dyddiad yr hysbysiadau gwrthod.

methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd ac er mwyn gwneud argymhelliad i'r cyngor. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 1: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r cyngor gymryd camau i sicrhau bod unrhyw dystiolaeth wreiddiol sy'n cael ei rhyddhau ganddo fel rhan o ohebiaeth yn Gymraeg, os mai dyna ddewis iaith y derbynnydd.

2. Rhaid i'r cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol i ddangos ei fod wedi cwblhau camau gorfodi un. Amserlen: O fewn tri mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 14/07/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Dinas a  
Sir Abertawe

CSG482 Ar 5 Ionawr 2019  
derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r  
cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni

08/07/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 52: Mae safon 52 yn golygu bod rhaid i'r Cyngor sicrhau (a) bod testun pob tudalen ar ei wefan ar gael yn

amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â methiannau honedig ar dudalennau'n ymwneud â cheisiadau cynllunio ar wefan Cyngor Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor), ac roedd dwy elfen iddi.

Yn gyntaf, roedd yn honni nad oedd y wefan yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg. Roedd hynny, yn ôl yr achwynydd, oherwydd y feddalwedd a ddefnyddir gan y Cyngor i greu rhyngwyneb Cymraeg. Dywedodd yr achwynydd bod y feddalwedd yn ymdrin â'r Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac nad oedd modd gweld manylion rhai ceisiadau cynllunio ar fersiwn Gymraeg y wefan oherwydd gwall gyda'r feddalwedd. Honnodd bod fersiwn Gymraeg tudalennau'r wefan yn cymryd dwy eiliad yn fwy i lwytho na thudalennau Saesneg cyfatebol ac mai dyna a arweiniodd at y gwall. Darparodd ddolenni at fersiynau Cymraeg a Saesneg tudalen benodol er mwyn dangos bod y gwall wedi effeithio'r dudalen Gymraeg yn unig. Rhannodd yr achwynydd ddolen at sylw a

Gymraeg, (b) bod pob tudalen ar ei wefan ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn y Gymraeg, ac (c) na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ei wefan. Yn ôl yr hyn sy'n debygol, effeithiwyd gwefan y Cyngor gan wall gyda'r feddalwedd a ddefnyddir i greu rhyngwyneb Cymraeg. Fe olygodd hyn nad oedd modd gweld manylion cais cynllunio ar fersiwn Gymraeg y wefan am gyfnod ar 5 Ionawr 2019. Roedd hyn yn fethiant gan y Cyngor i gydymffurfio â holl ofynion y safon. Ar adeg y gwall nid oedd testun tudalen o'r wefan yn ymwneud â chais cynllunio penodol ar gael yn Gymraeg (a), ac nid oedd y dudalen yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg (b). Gosodwyd defnyddwyr fersiwn Gymraeg y wefan dan anfantais gan nad oedd gwybodaeth ar gael iddynt am gyfnod. O ganlyniad, cafodd y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y wefan (c). Roedd dogfennau nad oeddent yn Gymraeg i'w gweld ar fersiwn Gymraeg gwefan y Cyngor mewn perthynas â chais cynllunio penodol. Nid oedd hyn yn fethiant gan y Cyngor i gydymffurfio hefo gofyniad (a) o'r safon oherwydd nad oedd y dogfennau yn ffurfio rhan o destun tudalen ar ei wefan. Yn hytrach, roeddent yn ddogfennau ar wahân, â dolen atynt ar y wefan sydd wedi eu heithrio o ofynion y safon. Dangosodd yr ymchwiliad nad oedd testun ar dudalen ar wefan y Cyngor oedd yn dal manylion dogfennau cais cynllunio ar gael yn Gymraeg. Roedd hyn yn fethiant gan y Cyngor i gydymffurfio hefo gofyniad (a) o'r safon.

Safon 69: Dangosodd yr ymchwiliad nad oedd hysbysiad swyddogol oedd i'w weld ar fersiwn Gymraeg gwefan y Cyngor yn Gymraeg. Roedd yr hysbysiad swyddogol hefyd yn hysbysiad swyddogol o ragnodwyd gan ddeddfiad, sef

wnaeth am y mater ar Twitter am 3:44 ar 5 Ionawr 2019. Roedd cip lun ynghlwm â'r sylw oedd yn dangos neges gwall yn egluro nad oedd modd arddangos y dudalen yn unol â'r cais oherwydd gwall.

Roedd ail elfen y gŵyn yn ymwneud â dogfennau cais cynllunio penodol. Roedd yn honni bod dogfennau'n ymwneud â chais 2018/2629/FUL yn ymddangos yn Saesneg ar y wefan. Dywedodd yr achwynydd ei fod am wneud cwyn am fethiant Adran Gynllunio'r Cyngor i 'wneud unrhyw beth yn Gymraeg', ac o'r dogfennau ar y wefan cyfeiriodd at:

- ddatganiad i'r wasg; a
- llythyron i berson sydd heb ddatgan ei fod am dderbyn cyfathrebiad yn Saesneg yn unig.

Darparodd y ddolen at fanylion y cais cynllunio ar wefan y Cyngor. Roedd 14 dogfen i'w gweld mewn perthynas â'r cais. Roeddent yn cynnwys 10 llythyr gan Gyfarwyddiaeth Lleoedd y Cyngor, un hysbysiad cais cynllunio ac un

hysbysiad cais cynllunio dan ddarpariaethau Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, ac felly wedi ei eithrio o ofynion y safon. Nid oedd hyn yn fethiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r safon.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 69, ond bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adrannau 76 a 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd ac er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 52: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r cyngor archwilio ei ddefnydd o feddalwedd ar fersiwn Gymraeg ei wefan er mwyn deall os yw'n arwain at wall terfyn amser gweinydd.
2. Rhaid i'r Cyngor archwilio'r tudalennau ar ei wefan sy'n dal manylion ceisiadau cynllunio a sicrhau bod yr holl destun ar y tudalennau hynny ar gael yn Gymraeg.

neges e-bost gan swyddog o'r  
Cyngor.

3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n  
bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau  
camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad  
terfynol y Comisiynydd.

Safon 69: Argymhelliad yn unol ag isadran 76(3)(b) Mesur  
y Gymraeg

Ble fo hysbysiad swyddogol a ragnodir gan ddeddfiad yn  
ddarostyngedig i eirfa benodol, dylai'r cyngor sicrhau bod ei  
fod yn cynnwys fersiwn Gymraeg yr eirfa benodol honno os  
yw'n bodoli.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas a Sir  
Abertawe ar 08/07/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

#### Cyngor Dinas a Sir Abertawe

CSG734 Ar 17 Mehefin 2020  
derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r  
cyhoedd. Roedd yn bodloni  
amodau adran 93 Mesur y  
Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys.  
Roedd yn ymwneud â fersiwn  
Gymraeg gwefan Cyngor Dinas a  
Sir Abertawe (y cyngor). Yn  
benodol tudalennau ynglŷn â'r  
pandemig COVID-19. Roedd yn  
honni:

17/06/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 52: Ar 17 Mehefin 2020 roedd gwybodaeth am  
coronafeirws i'w gweld yn Saesneg ar fersiwn Gymraeg  
gwefan y cyngor. O ganlyniad, nid oedd testun pob tudalen  
y wefan ar gael yn Gymraeg. Gan fod gwybodaeth ar gael  
yn Saesneg ac nid yn Gymraeg am gyfnod estynedig,  
cafodd y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y  
wefan. Roedd hyn yn fethiant clir gan y cyngor i  
gydymffurfio â gofynion y safon.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

bod nifer o dudalennau am coronafeirws yn cynnwys gwybodaeth oedd yn Saesneg yn unig,  
[www.abertawe.gov.uk/CyngorarCoronafeirws](http://www.abertawe.gov.uk/CyngorarCoronafeirws); a

bod gan y cyngor grŵp Facebook oedd yn cynnwys gwybodaeth oedd yn Saesneg,  
[www.facebook.com/groups/2468930126753492/?ref=group\\_header](http://www.facebook.com/groups/2468930126753492/?ref=group_header)  
<[http://www.facebook.com/groups/2468930126753492/?ref=group\\_header](http://www.facebook.com/groups/2468930126753492/?ref=group_header)>.

Roedd gan yr achwynydd 19 ciplun o'r wefan i gefnogi ei gŵyn.

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 52: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu

1. Rwyf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu ar gyfer cyfieithu testun ar frys. Rhaid i'r cynllun gweithredu amlinellu camau i'w cymryd er mwyn sicrhau nad yw testun heb ei gyfieithu yn cael ei osod ar fersiwn Gymraeg y wefan.

Dylai gynnwys ymrwymiad i:

assesu capasiti'r uned gyfieithu; a

sefydlu proses ar gyfer blaenoriaethu mathau penodol o wybodaeth lle bo capasiti'r uned gyfieithu wedi ei effeithio, fel mewn sefyllfa o argyfwng.

Rhaid i'r cynllun gweithredu nodi amserlen ar gyfer cyflawni pob cam o'r cynllun, a phwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol.

Safon 52: Gofyniad i gymryd camau

2. Os yw'r cyngor yn rhannu gwybodaeth i'w staff ar ei wefan, a bod modd i aelodau'r cyhoedd weld y wybodaeth, rhaid iddo sicrhau ei bod yn Gymraeg ac yn cwrdd â gofynion y safon.
  3. Rhaid i'r cyngor gynnal archwiliad rheolaidd o'i dudalennau gwe am coronafeirws er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd â gofynion y safon.
  4. Rhaid i'r cyngor ddarparu tystiolaeth ddigonol i ddangos ei fod yn cydymffurfio a chamau gorfodi dau a thri.
- Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar 17/06/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CSG633 Mae'r ymchwiliad hwn yn ystyried penderfyniad polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) i adrefnu ysgolion fel rhan o'i gynllun Ysgolion yr 21ain Ganrif ym Mhontypridd.

17/06/2021

Un o'r penderfyniadau oedd yn gysylltiedig â'r adrefnu oedd argymhelliad i gau Ysgol Pont Siôn Norton ac i agor ysgol Gymraeg newydd ar safle presennol Ysgol Heol-y-Celyn yn Rhydfelen erbyn

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safonau 88, 89 a 90: 3.31 Yn dilyn ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd i mi gan y Cyngor, mae'n glir ei fod wedi cynnal asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Pont Siôn Norton ar addysg Gymraeg wrth fynd ati i adrefnu ysgolion ardal Pontypridd.

Dywedodd y Cyngor sawl tro ac mewn sawl dogfen bod y cynnig yn rhan o'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg sydd yn cynllunio ar gyfer cynyddu nifer y disgyblion sydd yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y fwrdeistref. Rwyf yn derbyn y bydd y cynnig yn cynyddu'r nifer o lefydd fydd ar gael ar gyfer addysg cyfrwng

Cyngor  
Bwrdeistref Sirol  
Rhondda Cynon  
Taf

2022. Dyma sut yr amlinellodd y Cyngor ei fwriad fel rhan o'r cynllun:

Cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton a sefydlu ysgol gynradd Gymraeg newydd ar safle presennol Ysgol Heol-y-celyn. Bydd ffrwd Gymraeg Ysgol Heol-y-celyn hefyd yn trosglwyddo i'r ysgol newydd. Bydd hyn yn cynyddu capasiti ac yn gwella'r ddarpariaeth addysg Gymraeg. Bydd hefyd yn cael gwared ar y ddarpariaeth dwy ffrwd.

Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad cyhoeddus ar y bwriad yma (ac eraill oedd yn rhan o'r cynllun) rhwng 15 Hydref 2018 ac 31 Ionawr 2019. Ar 21 Mawrth 2019 penderfynodd cabinet y Cyngor dderbyn yr argymhelliad i gau Ysgol Pont Siôn Norton a buddsoddi £10.7 miliwn ar gyfer adeiladu ysgol newydd ar safle presennol Ysgol Heol-y-Celyn. Arweiniodd hyn at gyhoeddi hysbysiad statudol ar gyfer datgan gwrthwynebiad ar 30 Ebrill 2019. Yn dilyn ystyried ymatebion i'r hysbysiad statudol,

Cymraeg o fewn dalgylchoedd y ddwy ysgol gynradd Gymraeg bresennol.

Cytunaf gyda dadansoddiad y Cyngor bod addysg cyfrwng Cymraeg yn unig mewn ysgol yn debygol o fod yn fwy llwyddiannus nag addysg ddwy ffrwd fel sydd yn bodoli yn Ysgol Heol-y-Celyn ar hyn o bryd drwy hwyluso defnydd o'r iaith. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu tuag at wireddu nod y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg o ehangu addysg trwy gyfrwng yr iaith.

Rwyf yn derbyn y bod y Cyngor wedi trafod a dadansoddi effaith y cynnig ar addysg y plant, a thrafod materion megis llefydd chwarae, hygyrchedd yr adeiladau ac ati er mwyn gwella darpariaeth addysg Gymraeg i'r cymunedau dan sylw.

Mae pellter teithio, ac oblygiadau hynny ar ddewis rhieni, hefyd yn ffactor perthnasol a dderbyniodd ystyriaeth. Nodwyd pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch effaith y cynigion ar deuluoedd Ysgol Pont Sion Norton. Fe wnaeth yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned adnabod amharodrydd posib ymysg rhieni i anfon eu plant i ysgol cyfrwng Cymraeg a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddynt deithio ymhellach i gyrraedd yr ysgol, gyda'r canlyniad y buasent yn dewis darpariaeth cyfrwng Saesneg yn nes at adref. Rhoddwyd ystyriaeth i hyn hefyd yn yr Adroddiad Gwrthwynebu, lle nododd y Cyngor fod tua 69% o ddisgyblion Ysgol Pont Sion Norton ar hyn o bryd yn teithio ar fws, a'r rhai nad oeddent (gan eu bod yn byw o fewn y pellter cerdded o 1.5 milltir yn y dalgylch) yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol newydd.

penderfynodd y Cyngor fwrw  
ymlaen efo'r cynllun ar 18  
Gorffennaf 2019.

Nodaf fodd bynnag nad oes tystiolaeth y rhoddwyd ystyriaeth briodol i effeithiau posib y cynigion ad-drefnu nad oeddent yn ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg ar yr iaith Gymraeg. Yn benodol, nid wyf wedi derbyn tystiolaeth y rhoddwyd ystyriaeth, pan gyflwynwyd y cynigion i ad-drefnu ysgolion cyfrwng Saesneg, i effeithiau'r cynigion hyn ar yr iaith Gymraeg, ac a fyddai'n bosibl lliniaru unrhyw effeithiau negyddol a chynyddu unrhyw effeithiau positif.

Hoffwn felly bwysleisio nad yw safonau'r iaith Gymraeg ond yn berthnasol i'r meysydd penderfynu sy'n uniongyrchol berthnasol i'r iaith Gymraeg (er enghraifft, addysg cyfrwng Cymraeg). Wrth wneud penderfyniad polisi, dylai'r corff sy'n ddarostyngedig i safonau 88-90 ystyried effeithiau posibl y penderfyniad ar yr iaith Gymraeg, hyd yn oed os nad yw'n ymddangos fod y penderfyniad yn ymwneud â'r iaith yn uniongyrchol. Os ydym o ddifri fod y Gymraeg yn berchen i bawb ac yn ffactor wrth gynllunio gwasanaethau, rhaid iddi gael ei hystyried wrth ymgymryd â phob penderfyniad perthnasol, yn enwedig penderfyniadau pwysig hir dymor megis darpariaeth addysg.

Yn fy marn i, nid yw'r dystiolaeth yr wyf wedi ei hystyried yn dangos y rhoddwyd ystyriaeth gydwybodol i effeithiau'r cynigion i ad-drefnu ysgolion ar y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg yn y cymunedau o gwmpas yr ysgolion sydd wedi eu heffeithio. Mae'r Asesiad Effaith Cymunedol a'r dyfyniad o'r Adroddiad Gwrthwynebiad yn ystyried rhai effeithiau, ond mae llawer o'r effeithiau y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt gael eu hadnabod a'u hystyried wedi eu hanwybyddu.



Yn benodol, nid yw'r dystiolaeth yn dangos y rhoddwyd ystyriaeth gydwybodol i'r graddau y defnyddir y Gymraeg ar hyn o bryd yn y gymuned leol o gwmpas Ysgol Pont Sion Norton, a'r graddau y mae'r ysgol yn cyfrannu at hynny.

Yng nghyd-destun cynigion i gau ysgolion, mae data ac ystadegau yn aml yn gymorth i adnabod effeithiau'r penderfyniad polisi ar y Gymraeg. Yn wir, dibynnodd y Cyngor ar ddata ac ystadegau ar gyfer agweddau eraill ar ei gynigion, fel y data ystadegol yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a oedd yn asesu canran y disgyblion sy'n byw yn nalgylch ysgolion priodol, neu'r data ystadegol yn y ddogfen ymgynghoriad (tudalen 13) a oedd yn nodi bod canran y disgyblion sy'n dewis aros o fewn chweched dosbarth eu hysgol bresennol yn isel.

Mae'n ymddangos i mi na gasglwyd data neu ystadegau penodol mewn perthynas ag effeithiau'r cynigion ad-drefnu ar y Gymraeg. Yn benodol, nid oes tystiolaeth y casglwyd data ar y graddau y defnyddir y Gymraeg ac yn lleol ac wedyn ystyriaeth briodol yn cael ei roi i sut y gallai'r cynigion ad-drefnu newid hynny. Er nad oes unrhyw orfodaeth benodol o dan y safonau i gywain data neu ystadegau ar y graddau y defnyddir y Gymraeg ar hyn o bryd, mae'n anodd gweld sut y gallai'r sawl sy'n gwneud penderfyniad adnabod yn ystyrion effeithiau'r penderfyniad polisi ar yr iaith Gymraeg heb o leiaf ychydig o ddata neu ystadegau er mwyn medru deall y sefyllfa bresennol.

Parthed y penderfyniad penodol i gau Ysgol Pont Sion Norton, rwyf yn credu y dylai'r Cyngor fod wedi ystyried yr

effeithiau canlynol wrth asesu effaith y penderfyniad ar y defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned:

- Effaith ad-leoli gofal cofleidiol o ardal Ysgol Pont Siôn Norton.
- Effaith ad-leoli gweithgareddau ar ôl ysgol o ardal Ysgol Pont Siôn Norton.
- Effaith ad-leoli gweithgareddau grwpiau cymunedol o ardal Ysgol Pont Siôn Norton.

Nid yw'r un o'r ffactorau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ddarpariaeth addysg ond maent i gyd yn berthnasol wrth ystyried effaith cau ysgol. Mae pob un o'r gweithgareddau yn cyfrannu mewn rhyw ffordd at gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau ysgol. Er bod y dystiolaeth yn adnabod y byddai lleoliad y gweithgareddau hyn yn gorfod newid yn sgil cau'r ysgol, nid yw'n dangos ystyriaeth o effaith y newid ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn yr ardal a effeithiwyd.

Er enghraifft, fe wnaeth y Cyngor adnabod angen i liniaru prif effaith cau'r ysgol sef y byddai'n anoddach i nifer o ddisgyblion fynychu'r safle newydd. Gan fod hyn a photensial i effeithio'n andwyol ar ddefnydd o addysg Gymraeg yn yr ardal, cynigiwyd fesurau er mwyn sicrhau bod trafnidiaeth ar gael i bob disgybl fyddai'n cael ei effeithio gan y newid. Byddwn wedi disgwyl gweld cydnabyddiaeth ac ystyriaeth debyg o effaith symud gofal cofleidiol (y clwb brechwast a'r 'clwb carco') a'r clybiau ar ôl ysgol o safle Ysgol Pont Siôn Norton. Ni wnaed hyn.

Yn yr un modd fe wnaeth y Cyngor adnabod bod gwersi Cymraeg i Oedolion yn cael eu cynnal ar y safle ond nid

oes unrhyw asesiad o effaith terfynu'r gwersi yn eu lleoliad presennol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn lleol.

Nid fy swyddogaeth i yw mynegi barn ar ganlyniad ystyried yr effeithiau hyn, ond fy swyddogaeth i yw asesu a gafodd yr effeithiau hyn eu hystyried yn gydwobodol. Nid wyf yn credu y gwnaed hynny.

Nid yw'n ddigonol yn fy marn i, i gasglu'n syml mai cynyddu llefydd sydd ar gael ar gyfer addysg Gymraeg cynradd yw'r unig effaith o ran cydraddoldeb; ac i ddweud gan fod modd i'r plant o fewn dalgylch Ysgol Pont Siôn Norton fynychu'r ysgol drwy drafnidiaeth, fod hynny o reidrwydd yn golygu bod yr holl gynnig yn cael effaith positif ar ran y Gymraeg. Rwyf wedi adnabod uchod ffactorau sydd yn sicr â photensial i gael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn lleol ac fe ddylai'r rhain fod wedi eu hystyried yn llawn cyn i'r penderfyniad gael ei wneud.

Mae penderfyniadau polisi sy'n ymwneud â darpariaeth addysg yn gallu cael effeithiau cymhleth ar ddefnydd o'r Gymraeg yn gymunedol, ar ddewisiadau a wneir mewn perthynas ag addysg Gymraeg ac ar agweddau tuag at yr iaith Gymraeg yn lleol. Gall y rhain fod yn gymysgedd o effeithiau positif, niwtral a negyddol. Nid wyf yn fodlon y gwnaed ymdrech ddigonol i adnabod y gymysgedd o effeithiau yn yr achos hwn.

Diben sicrhau fod effeithiau negyddol penderfyniad polisi ar y Gymraeg yn cael eu hadnabod yw i alluogi camau i gael eu cymryd i liniaru'r effeithiau hyn cyn i'r penderfyniad gael ei wneud. Yn yr un modd, diben adnabod effeithiau positif

yw i alluogi camau i gael eu cymryd i gynyddu'r effeithiau hynny ymhellach.

Mae'r safonau yn ei gwneud yn agored i'r Cyngor i barhau gyda'r penderfyniad doed a ddêl neu, gall gasglu bod yr effeithiau andwyol, wedi iddynt gael eu hadnabod yn ddigonol, mor sylweddol fel y dylai edrych eto ar y penderfyniad. Gallai'r Cyngor hefyd edrych eto ar y penderfyniad i ystyried a ellid ei ail-wneud er mwyn cael effeithiau positif, neu effeithiau fwy positif, ar y Gymraeg na'r hyn yr arfaethwyd yn y lle cyntaf, neu a ellid sicrhau mesurau lliniaru pellach er mwyn atal neu leihau effaith andwyol y penderfyniad.

Fel yr wyf yn nodi uchod, rwyf o'r farn fod y safonau yn gosod gofyniad ar y Cyngor i adnabod effeithiau pob un o'i benderfyniadau polisi, ac felly yn yr achos hwn, roedd gofyn iddo asesu'r cynigion ad-drefnu yn eu cyfanrwydd, gan gynnwys y penderfyniadau yn ymwneud ag ysgolion cyfrwng Saesneg.

Yn fy marn i, nid yw'r dystiolaeth yn dangos fod y Cyngor wedi gwneud ymdrech gydwybodol i adnabod ac yna ystyried yr effeithiau y byddai ei benderfyniadau polisi yn yr achos hwn yn eu cael ar gyfleoedd i bobl defnyddio'r Gymraeg neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Nid wyf ychwaith yn fodlon fod y dystiolaeth yn dangos fod y Cyngor wedi gwneud ymdrech gydwybodol i ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad fel ei fod yn cael effeithiau mwy positif, neu lai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau

ddefnyddio'r Gymraeg, neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â safon 88, 89 a 90.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â safon 88, 89 a 90.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safonau 88, 89 a 90: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi'r ystyriaeth a roddir i unrhyw effeithiau y byddai penderfyniad polisi yn ei gael ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr i'r diben hwn.
2. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi'r ystyriaeth a roddir i sut y gellid llunio penderfyniad polisi fel ei fod yn cael effeithiau positif, neu effeithiau fwy positif, ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r

Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr i'r diben hwn.

3. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi'r ystyriaeth a roddir i sut y gellid llunio penderfyniad polisi fel nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu'n cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr i'r diben hwn.

Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safonau 88, 89 a 90: Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â safonau yn unol ag adran 77(3)(d) Mesur y Gymraeg

4. Rhaid i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safonau 88, 89 a 90 trwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan gyhoeddus, a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad yn adran newyddion y wefan honno.

Amserlen: O fewn chwe wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 17/06/2021.

### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Bae  
Abertawe

CSG744 Ar 6/7/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Gadawodd yr achwynydd neges peiriant ateb Cymraeg i adran gwynion y Bwrdd Iechyd ar 30 Mehefin 2020. Derbyniodd ohebiaeth Cymraeg mewn ymateb i'r neges ffôn. Roedd y llythyr yn cynnwys y frawddeg ganlynol "A fyddech gallu rhoi gwybod i ni hefyd os ydych chi a'ch mab am siarad Cymraeg yn unig neu os ydych yn hapus i fynd ymlaen yn Saesneg?". Mae'r achwynydd o'r farn bod y frawddeg yma yn sarhaus ac yn nodi na fyddai'r Bwrdd Iechyd wedi gofyn i unigolyn oedd wedi gadael peiriant ateb yn Saesneg a oeddynt am barhau i drafod gyda'r Bwrdd Iechyd yn Saesneg. Nid oedd yr ohebiaeth yn cynnwys datganiad i esbonio bod y Bwrdd Iechyd yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

10/06/2021

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 7: Er mwyn cydymffurfio â safon 7 roedd angen i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe sicrhau bod unrhyw ohebiaeth sy'n gwahodd ymateb neu ohebiaeth, yn cynnwys datganiad sy'n dweud ei fod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y bydd yn ateb gohebiaeth Gymraeg ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Yn yr achos yma fe anfonodd y Bwrdd Iechyd ohebiaeth at yr achwynydd oedd yn gofyn am wybodaeth. Nid oedd yr ohebiaeth yn cynnwys datganiad oedd yn cydymffurfio â safon 7. Gan nad oedd yr ohebiaeth anfonodd y Bwrdd Iechyd at yr achwynydd yn cynnwys datganiad yn croesawu gohebiaeth Gymraeg, nid wyf o'r farn bod y Bwrdd Iechyd wedi cydymffurfio â safon 7. Rwy'n dyfarnu fod D wedi methu â chydymffurfio â safon 7 yn yr achos yma gan nad oedd yr ohebiaeth anfonwyd at yr achwynydd yn cynnwys datganiad oedd yn dweud y bod y Bwrdd Iechyd yn croesawu gohebiaeth Gymraeg, y bydd yn ateb gohebiaeth Gymraeg ac na fyddai gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 7.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 7.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 7: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe gymryd camau i sicrhau bod pob gohebiaeth a anfonir gan y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â safon 7.

2. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 10/06/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 5: Anfonodd D ohebiaeth at P ar 23/04/2020 yn ei hysbysu am effaith y pandemig ar ei wasanaethau ymwelwyr iechyd. Ni ddarparodd fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth honno i P. Roedd ymddygiad D yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â safon 5; roedd dyletswydd ar D yn unol â'r safon i roi fersiwn Gymraeg o'r llythyr i P a gwnaeth fethu â gwneud hynny yn yr achlysur hwn. Y prif ffactor a wnaeth gyfrannu at y methiant oedd bod D heb drefnu, o

Bwrdd Iechyd  
Prifysgol  
Caerdydd a'r  
Fro

CSG728 Ar 12/05/2020, derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd (P). Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd P yn anfodlon ei bod wedi derbyn llythyr uniaith Saesneg gan Fwrdd Iechyd

10/06/2021



Prifysgol Caerdydd a'r Fro (D) ar 23/04/2020. Roedd y llythyr yn ymwneud ag oedi gwasanaethau y Gwasanaeth Ymweliad Iechyd (gan gynnwys adolygiadau datblygiad babanod 6 mis oed) oherwydd y pandemig.

flaen llaw, i lythyr P gael ei gyfieithu i'r Gymraeg cyn ei anfon at P. Felly, pan benderfynodd D anfon y llythyr at P ar 23/04/2020, fe anfonodd fersiwn uniaith Saesneg o'r llythyr at ei sylw. Oherwydd yr angen iddo ganslo apwyntiadau ymweliadau iechyd ar frys, nid oedd D yn ystyried bod ganddo'r amser i anfon y llythyr i gael ei gyfieithu [i'r Gymraeg cyn ei anfon at P]. Ar yr adeg y derbyniodd P y llythyr, sef ar 23/04/2020, nid oedd apwyntiad wedi'i drefnu i ymweld â chartref P. Nid oedd D felly yn gohebu â P i ganslo apwyntiad ar fyr rybudd. Nid oedd y llythyr yn un yr oedd angen i D ei anfon at P ar frys, neu ar y fan lleiaf, ei anfon at P erbyn 23/04/2020. Nid oedd yr wybodaeth a rannodd D yn y llythyr yn wybodaeth yr oedd yn hollol angenrheidiol i P wybod amdani ar yr union ddyddiad y derbyniodd y llythyr. Ni fyddai wedi gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i P petai'r wybodaeth honno wedi ei hanfon ati ddiwrnod, neu ychydig o ddiwrnodau, yn hwyrach. Pe byddai D wedi penderfynu gohirio anfon y llythyr, mae'n debygol y byddai wedi bod ganddo amser digonol i sicrhau cyfieithiad Cymraeg o'r llythyr cyn ei anfon at P. O fod wedi gohirio anfon y llythyr tan ddyddiad yn dilyn 23/04/2020, byddai wedi bod yn bosibl i D anfon y llythyr yn Gymraeg (ar yr un pryd ag unrhyw fersiwn Saesneg ohoni) yn unol â dymuniad P ac yn unol â safon 5.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safon 5.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safon 5.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 5 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro adolygu'r holl llythyrau safonol y mae'r gwasanaeth ymwelwyr iechyd yn eu hanfon at bersonau a sicrhau eu bod ar gael yn Gymraeg i'w hanfon atynt.
2. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd adolygu ei ganllawiau i staff i sicrhau eu bod yn egluro sut a phryd i wneud ceisiadau i gyfieithu llythyrau i'r Gymraeg. Rhaid i'r canllawiau ymdrin â'r ffactorau y dylai staff eu hystyried pan ganfyddir bod angen anfon llythyr at berson ar frys neu mewn argyfwng.
3. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1–2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 5 – Cyngor dan adran 77(4)(b) Mesur y Gymraeg

1. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei brotocolau neu ei gynllun parhad busnes i sicrhau ei fod yn gallu gohebu â phersonau yn Gymraeg yn ystod cyfnodau brys neu argyfwng. Dylai'r adolygiad sicrhau bod gwytnwch ei

			<p>brosesau a'i drefniadau cyfieithu yn ddigonol i sicrhau y gall gydymffurfio â gofynion safon 5 yn ystod cyfnodau fel hyn. Amserlen: Dylai'r Bwrdd Iechyd gwblhau'r adolygiad o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 10/06/2021.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Cyngor Sir Gâr</u></p>	<p>CSG738 Ar 23/06/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys.</p> <p>1.2 Cysylltodd yr achwynydd gyda'r Comisiynydd i gwyno ei fod wedi derbyn llythyr uniaith Saesneg gan Llesiant Delta Wellbeing sy'n Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol sydd ym mherchnogaeth y Cyngor. Esboniodd yr achwynydd ei fod wedi gofyn i dderbyn pob gohebiaeth gan y Cyngor yn Gymraeg.</p>	<p>10/06/2021</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 5: Gofynion safon 5 yw os nad yw corff yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrtho yn Gymraeg, rhaid iddo ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth wrth ohebu â'r person hwnnw. Yn yr achos yma, mae'r achwynydd wedi derbyn llythyr cyfeirio uniaith Saesneg gan gwmni Llesiant Delta Wellbeing. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â gofynion y safon.</p> <p><b>Dyfarniad y Comisiynydd</b> O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir Gâr wedi methu â chydymffurfio â safon 5.</p> <p><b>Datganiad gweithredu pellach</b> Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir Gâr wedi methu â chydymffurfio â safon 5.</p> <p><b>Datganiad ar y gweithredu pellach</b></p>

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 5: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Sir Gâr gyfathrebu gyda staff cwmni Llesiant Delta Wellbeing ynghylch gofynion penodol safon 5 a gwirio eu bod yn deall y camau sy'n rhaid eu dilyn er mwyn cydymffurfio â'r safon, a gofyn i gwmni Llesiant Delta Wellbeing wirio eu holl dogfennau o ran gofynion safon 5.
2. Rhaid i Gyngor Sir Gâr wirio a danfon copi o'r canllawiau iaith at staff cwmni Llesiant Delta Wellbeing a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gynnwys y canllaw sydd yn bodoli, gan bwysleisio gofyniad safon 5 a'r angen i ohebu'n ddwyieithog ble nid yw dewis iaith y cleient yn hysbys.
3. Rhaid i Gyngor Sir Gâr ystyried eu contractau eraill trydydd parti a chymryd camau 1 & 2 uchod gydag unrhyw gwmni hyd braich arall sydd yn gweithredu ar eu rhan.
4. Rhaid i Gyngor Sir Gâr ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Gâr ar 10/06/2021.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Dinas  
Casnewydd

CSG699 Ar 30/01/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn ynglŷn ag ymgynghoriad cyllideb drafft Cyngor Dinas Casnewydd. Yn ôl yr achwynydd roedd y ddolen ar y dudalen Gymraeg yn mynd at y ddogfen Saesneg yn unig ac roedd nifer o wahaniaethau rhwng y cyflwyniad PowerPoint Cymraeg â'r un Saesneg. Nid oedd yr achwynydd yn gallu gweld y ddogfen cynigion yn Gymraeg.

10/06/2021

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 44: Cysylltodd yr achwynydd gyda mi gan honni nad oedd modd dod o hyd i'r ddogfen gynigion ar gyfer ymgynghoriad y Cyngor ar ei gyllideb drafft. Ar ôl ymchwilio rwyf yn deall na wnaeth y Cyngor ddarparu'r ddogfen yn Gymraeg gan eu bod o'r farn bod y ddogfen wedi ei heithrio o'r angen i gydymffurfio gyda safon 44 gan ei bod yn ddogfen dechnegol oedd wedi ei llunio mewn cysylltiad â phapurau ymgynghori. Ar ôl ystyried y ddogfen a diffiniadau o beth yw ystyr "dogfen technegol" nid wyf o'r farn bod y ddogfen yn un technegol. Ar y sail nad wyf o'r farn bod y ddogfen gynigion yn ddogfen dechnegol a oedd wedi ei llunio mewn cysylltiad â phapurau ymgynghori rwy'n dyfarnu fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 44 yn yr achos yma.

Safon 47: Mae safon 47 yn gofyn i gorff asesu a yw pwnc dogfen neu ei gynulleidfa yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg os nad oes safon arall yn gosod dyletswydd arnynt i lunio'r ddogfen yn Gymraeg. Yn yr achos yma nid oedd sicrwydd ynglŷn â pha ddogfen oedd o dan sylw'r gŵyn. Wrth ymchwilio i'r achos yma fe ddaeth i'r amlwg mai dogfen wedi ei llunio mewn cysylltiad â phapurau ymgynghori oedd y ddogfen ac mae cydymffurfiaeth gyda safon 44 wedi ei drafod. Gan mai dogfen ymgynghorol wedi ei llunio mewn cysylltiad â dogfen ymgynghori oedd y ddogfen nid yw safon 47 yn berthnasol. Rwyf yn dyfarnu nad yw Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu â chydymffurfio â safon 47 yn yr achos yma.

Safon 48: Pan mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cyhoeddi dogfen, rhaid peidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o ddogfen yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg o'r ddogfen honno. Mae hynny yn cynnwys peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi. Yn yr achos yma roedd gwahaniaethau rhwng y cyflwyniad Cymraeg a'r cyflwyniad Saesneg ac fe gadarnhaodd y Cyngor bod y cyflwyniad Cymraeg anghywir wedi cael ei osod pan gafodd y cyflwyniad Saesneg cywir ei osod. Mae'n ymddangos o dystiolaeth y Cyngor mae cyflwyniad ymgynghoriad cyllideb y flwyddyn flaenorol gafodd ei osod ar wefan y Cyngor fel rhan o'r ymgynghoriad. Gan fod y cyflwyniad Cymraeg anghywir wedi ei gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad, fe wnaeth y Cyngor drin y fersiwn Gymraeg o'r ddogfen yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

Safon 52: Er mwyn cydymffurfio â safon 52 mae angen i'r Cyngor sicrhau bod pob tudalen ar ei wefan ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau hynny. Yn yr achos yma fe wnaeth cwyn yr achwynydd greu amheuaeth nad oedd y Cyngor yn cydymffurfio â safon 52. Dangosodd y wybodaeth a dderbyniwyd yn ystod yr ymchwiliad nad problem gyda'r wefan achosodd i'r achwynydd weld y ddogfen yn Saesneg yn unig. Gan fod yr ymchwiliad wedi dangos mai oherwydd eithriad i safon 44 y cafodd yr achwynydd ei dargyfeirio i'r fersiwn Saesneg yn hytrach nag oherwydd problemau gyda'r wefan Gymraeg, nid oes tor-safon wedi bod mewn perthynas â safon 52.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu â chydymffurfio â safon 47 a 52, ond bod Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu â chydymffurfio â safon 44 a 48.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu â chydymffurfio â safon 44 a 48.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 44: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd lunio meini prawf clir i'w staff yn esbonio pa bryd y dylai dogfen ymgynghorol gael ei heithrio o'r angen i gydymffurfio gyda safon 44.
2. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 44: Argymhelliad yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Dylai Cyngor Dinas Casnewydd nodi ar unrhyw ddogfen sydd wedi ei heithrio o'r angen i gydymffurfio gyda safon 44

nad yw ar gael yn Gymraeg gan ei fod yn ddogfen ymgynghorol dechnegol.

Safon 48: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

3. Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd gymryd camau i atgoffa staff sy'n gyfrifol am ymgynghoriadau bod angen i'r dogfennau Cymraeg cywir gael eu gosod ar wefan y Cyngor pan mae'r dogfennau Saesneg yn cael eu gosod.  
4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 3.

Amserlen: O fewn mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas Casnewydd ar 10/06/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CSG692 Ar 20/01/2020, derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Ffoniodd yr achwynydd dri o safleoedd sydd dan gadwraeth Cadw, sef Castell Conwy, Castell Biwmares, a Chastell Harlech, a honnai na dderbyniodd wasanaeth

09/06/2021

Gweinidogion  
Cymru (Cadw)

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 10: Mae safon 10 yn ei wneud yn ofynnol i Cadw, dan hysbysiad cydymffurfio Gweinidogion Cymru, i ddelio â galwadau ffôn yn gyfan gwbl yn Gymraeg os mai dyna yw dymuniad y galwr. Yn yr achos yma, ffoniodd yr achwynydd dair safle gwahanol dan reolaeth Cadw, ac ni dderbyniodd wasanaeth Cymraeg yn ystod yr un o'r tair galwad. Mae hyn felly yn fethiant i gydymffurfio â safon 10.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**



Cymraeg gan yr un o'r safleoedd. Cafodd y galwadau eu gwneud ar 18/01/2020. Honnai'r achwynydd nad oedd yr un o'r tri aelod staff atebodd y ffôn yn medru'r Gymraeg, ac felly nid oedd modd cael y wybodaeth a ddymunodd yn Gymraeg. Honnai nad oedd unrhyw aelod staff arall ar y safleoedd fedrai ymateb i'w ymholiadau'n Gymraeg.

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 10.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 10.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 10 – gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77(3)(a) Mesur y Gymraeg

1. Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru i baratoi cynllun gweithredu er mwyn sicrhau fod Cadw yn cydymffurfio â gofynion safon 10 wrth ateb galwadau i'w brif ffôn (neu un o'r prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau ar gyfer pob un o'i safleoedd. Dylai'r cynllun amlinellu'r trefniadau sydd mewn lle i sicrhau bod pawb sy'n ateb galwadau yn deall digon o Gymraeg i gynnal y sgwrs gychwynnol yn Gymraeg os mai hynny yw dymuniad y galwr er mwyn sefydlu natur yr ymholiad. Dylai'r cynllun yna nodi'r trefniadau sydd mewn lle i drosglwyddo'r alwad yn dilyn y cyswllt cychwynnol i aelod arall o staff Cymraeg (os oes angen ei throsglwyddo ac os mai hynny yw dymuniad y galwr), os na all yr aelod staff wnaeth ateb yr alwad barhau i ddelio â'r ymholiad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd.

Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Prif gamau'r broses wrth gynllunio'r gwaith
- Yr amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith
- Y gyllideb ar gyfer cwblhau'r gwaith
- Enw'r person sydd â chyfrifoldeb dros y prosiect

Amserlen: Dylai'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu drafft o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd. Byddaf yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas a'r cynllun.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 09/06/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CSG725 Ar 27/03/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd yn dilyn cais i adnewyddu bathodyn parcio glas ar gyfer pobl ag anabledd. Honnai'r achwynydd ei fod wedi derbyn llythyr yn Saesneg yn unig, ynghyd â ffurflen ar gyfer adnewyddu ei bathodyn glas yn Saesneg yn unig drwy'r post ar 19 Chwefror 2020. Nid oedd y llythyr

10/05/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 4: Mae'r safon yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y bydd yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni. Mae'r achwynydd wedi derbyn gohebiaeth Saesneg yn unig gan y Cyngor ynglŷn ag adnewyddu bathodyn glas. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio a safon 4 gan na anfonwyd fersiwn Cymraeg o'r ohebiaeth yn wreiddiol at yr achwynydd.

Safon 6: Mae'r safon yn ei wneud yn ofynnol i gynnwys y deunydd a safon y deunydd i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol. Ar ôl i'r achwynydd gwyno am dderbyn gohebiaeth uniaith Saesneg, fe dderbyniodd llythyr

Cyngor  
Caerdydd

hwn ychwaith yn cyfeirio at y ffaith y gall yr achwynydd gyflwyno cais yn Gymraeg os dymunir. Cyflwynodd yr achwynydd gŵyn i Gyngor Caerdydd yn uniongyrchol drwy e-bost ac yn dilyn hyn derbyniodd llythyr yn Gymraeg. Honnai, fodd bynnag, fod y llythyr hwn yn cynnwys nifer o gamgymeriadau iaith, ei fod llawer yn fyrrach gyda llai o wybodaeth a chyfarwyddiadau na'r llythyr gwreiddiol Saesneg, ac nad oedd dyddiad ar y ffurflen Gymraeg oedd wedi ei chynnwys gyda'r llythyr. Honnai'r achwynydd fod safon cyfieithiad y llythyr hwn "yn wael iawn, gyda llawer o Saesneg ynddo". Nodai'r achwynydd yn ogystal nad oedd wedi derbyn ymddiheuriad yn dilyn y gŵyn a wnaed ynghylch y llythyr Saesneg yn unig. Yn y llythyr Saesneg gwreiddiol, nodai'r llythyr fod modd cyflwyno cais adnewyddu ar lein, trwy ddefnyddio gwefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig (gov.uk); nid oedd cyfeiriad at hyn yn y llythyr Gymraeg. Ar ôl llenwi'r ffurflen yn Gymraeg ar lein, derbyniodd yr achwynydd nodyn cadarnhad yn Saesneg yn unig yn diolch am wneud y cais, ac yn

Cymraeg yn llawn gwallau ieithyddol, a gyda llai o wybodaeth na'r llythyr Saesneg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio a safon 6, oherwydd bod y fersiwn Cymraeg o'r llythyr yn wahanol i'r fersiwn Saesneg ac yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol.

Safon 50: Gofynion y safon yw bod pob ffurflen y mae sefydliad yn llunio at ddefnydd y cyhoedd yn cael ei llunio yn Gymraeg. Yn yr achos yma, mae hen fersiwn o'r ffurflen wedi ei danfon at yr achwynydd. Nid wyf yn derbyn dadl y Cyngor a nodir uchod yn 2.10 fod hyn yn golygu bod y ffurflen ar gael. Mae fersiwn gwahanol o ffurflen yn ffurflen wahanol, felly nid oedd y ffurflen gywir ar gael yn Gymraeg. Mae hyn yn golygu fod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 50, oherwydd nid oedd y ffurflen gywir ar gael ar y pryd.

Safon 50A: Gofynion y safon yw pan fo sefydliad yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid iddynt sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. Mae'r ffurflen Saesneg a ddangosir fel tystiolaeth gan y Cyngor yn nodi bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. Mae hyn yn cydymffurfio â'r safon. Felly, mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r safon gan i'r ffurflen a ddanfonwyd gynnwys testun yn nodi yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.

Safon 50B: Mae'r safon yn ei wneud yn ofynnol i gynnwys y deunydd a safon y deunydd i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol. Ar ôl i'r achwynydd gwyno am dderbyn gohebiaeth uniaith Saesneg, fe dderbyniodd ffurflen

gofyn am adborth am y broses yn Saesneg. Derbyniodd cadarnhad yn Saesneg hefyd fod ei bathodyn newydd wedi ei archebu. Honnai'r achwynydd nad oedd yn fodlon gyda'r broses ar gyfer adnewyddu ei bathodyn gan nad oedd wedi parchu ei hawl i ddefnyddio'r Gymraeg.

Cymraeg oedd yn fyrrach na'r fersiwn Saesneg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio a safon 50B, oherwydd bod y fersiwn Cymraeg o'r ffurflen yn wahanol i'r fersiwn Saesneg ac yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 50A, ond bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 4, 6, 50 a 50B.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 4, 6, 50 a 50B.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Safon 4

1. Mae rhaid i Gyngor Caerdydd atgoffa eu staff yn yr adran berthnasol o ofynion safon 4 drwy greu canllaw clir i staff am ofynion safon 4 a lledaenu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ohono.

2. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Safon 6

3. Mae rhaid i Gyngor Caerdydd atgoffa eu staff yn yr adran berthnasol o ofynion safon 6 drwy greu canllaw clir i staff am ofynion safon 6 a lledaenu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ohono.

4. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### Safon 50

5. Mae rhaid i Gyngor Caerdydd atgoffa eu staff yn yr adran berthnasol o ofynion safon 50 drwy greu canllaw clir i staff am ofynion safon 50 a lledaenu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ohono.

6. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 5.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### Safon 50B

7. Mae rhaid i Gyngor Caerdydd atgoffa eu staff yn yr adran berthnasol o ofynion safon 50B drwy greu canllaw clir i staff am ofynion safon 50B a lledaenu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ohono.

8. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 7.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 10/05/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Mae'r safon yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor, os maent yn derbyn gohebiaeth Gymraeg, i ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg. Mae'r achwynydd wedi derbyn gohebiaeth uniaith Saesneg gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2019, mewn ymateb i lythyr Cymraeg ganddo. Mae hyn yn groes i'w canllawiau (gweler 2.11). Un peth sy'n cymhlethu pethau yma yw mai trydydd parti sydd wedi danfon yr achwynydd at yr adran dan sylw yn wreiddiol, ac nid oedd dewis iaith wedi ei nodi ar yr adeg yna. Nid yw'r ffaith yma yn effeithio ar ofynion y safon. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio a safon 1 oherwydd nid oedd yr achwynydd wedi derbyn gohebiaeth Cymraeg mewn ymateb i ddanfon gohebiaeth Cymraeg.

Safon 5: Mae'r safon yn ei wneud yn ofynnol i sefydliadau ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddant yn gohebu â pherson os nad ydynt yn gwybod a yw'r person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthynt yn Gymraeg. Mae'r Cyngor yn honni fod dewis iaith yr achwynydd ar eu ffurflen ar-lein yn dynodi Saesneg, ac maent wedi darparu tystiolaeth o hynny. Maent yn nodi fod yn rhaid i bob unigolyn sydd yn dymuno defnyddio eu gwasanaeth gosod cartrefi greu cyfrif ar y wefan "Canfod Cartref", fel bod

CSG726 Ar 03/04/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Ar 03/04/2020 derbyniodd yr achwynydd e-bost a ffurflen uniaith Saesneg gan y Cyngor yn dilyn galwad ffôn Saesneg gyda swyddog di-Gymraeg. Nid yw'r achwynydd yn cwyno am iaith yr alwad gyda'r swyddog, ond yn hytrach iaith yr ohebiaeth a'r ffurflen. Roedd yr achwynydd eisoes wedi derbyn copi o'r ffurflen Saesneg ddiwedd 2019 ac fe gysylltodd gyda'r Cyngor dros y ffôn i ofyn iddynt ail anfon y ffurflen ato. Yn ôl yr achwynydd fe ysgrifennodd at Opsiynau Tai yn Gymraeg ym mis Tachwedd 2019 cyn derbyn y ffurflen Saesneg yn ôl.

14/04/2021

Cyngor Sir Gar

modd iddynt deilwra'r dewisiadau ar eu cyfer. Mae'n rhaid i unrhyw unigolion sy'n cofrestru lenwi yr holl fanylion ar y sgrin cyn symud ymlaen i gofrestru'n llawn. Gofynnais gwestiynau ychwanegol oedd yn berthnasol i safon 5 ar 20/10/2020 i'r achwynydd a'r Cyngor:

- Gofynnais i'r Cyngor a oedd yn bosibl bod aelod o staff yn y tîm opsiynau tai wedi gwneud y dewis iaith ar "Canfod Cartref" ar ran yr achwynydd.
- Gofynnais i'r achwynydd a oeddent ar unrhyw adeg wedi dewis Saesneg fel dewis iaith cyfathrebu ar ffurflen ar-lein y Cyngor mewn perthynas â thai.

Yr ateb a gefais gan yr achwynydd ar 20/10/2020 oedd nad oedd wedi gwneud hyn, "na, byth".

Yr ateb a gefais gan y Cyngor ar 21/10/2020 oedd mai'r unigolyn sydd yn gyfrifol am greu'r cyfrif a chyflwyno manylion personol - mae hyn yn cynnwys meysydd megis enw, dyddiad geni, prif gyfeiriad, a dewis iaith. Nid yw eu swyddogion yn cwblhau'r meysydd yma ar ran unigolion fel arfer. Mae'r sgrin hefyd yn ymddangos bob tro mae'r cleient yn logio mewn ac mae modd newid y manylion, meddent.

Mae'r Cyngor yn dweud mai'r unig esboniad arall sy'n bosib yw bod hen ddata wedi ei symud draw o'r system oedd ganddynt mewn lle yn flaenorol. Ond maent yn nodi gan fod yr unigolyn mewn cyswllt rheolaidd gyda nhw, dylai'r manylion fod wedi ei diweddarau ers symud i wefan Canfod Cartref.

- Ar 08/03/2021 holais yr achwynydd eto er mwyn sefydlu a oedd yn defnyddio system Canfod Cartref. Mae'r cwestiwn isod.

"Fe sonioch i mi ar 20/10/2020 nad ydych erioed wedi dewis yr opsiwn iaith Saesneg ar wasanaeth ar-lein

“Canfod Cartref” y Cyngor. A yw’n arfer gennych i ddefnyddio’r system ar-lein “Canfod Cartref” o gwbl – boed hynny yn reolaidd, neu’n achlysurol, wrth gysylltu â’r Cyngor am eich gofynion o ran eich cartref? Os ddim, pa ddulliau cyswllt byddwch yn defnyddio?”

Ateb yr achwynydd oedd, “Rwyn edrych ar Canfod Cartref yn rheolaidd”.

Nid oes tystiolaeth fod y Cyngor wedi gwirio dewis iaith yr achwynydd oedd ar y system, felly dylent fod wedi darparu fersiwn Gymraeg o’r ohebiaeth pan roeddent yn gohebu â’r achwynydd. Mae’r Cyngor yn nodi yn eu hymateb nad oedd ganddynt reswm i gwestiynu dewis iaith yr achwynydd gan ei fod yn defnyddio Cymraeg a Saesneg wrth gyfathrebu.

Ond mae’r Cyngor yn ymwybodol o nifer o gwynion gan yr achwynydd am beidio cael gwasanaeth yn Gymraeg, felly dylai ei gofnodion dewis iaith gael eu gwirio ar holl systemau’r Cyngor.

Nid oes tystiolaeth sydd yn llwyr ddangos fod yr achwynydd ei hun wedi dewis yr opsiwn Saesneg, ac mae’n gwadu gwneud hynny. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio a safon 5, oherwydd nid oes tystiolaeth fod y Cyngor wedi gwirio dewis iaith yr achwynydd oedd ar y system. Dylent felly fod wedi darparu fersiwn Gymraeg a Saesneg o’r ohebiaeth pan roeddent yn gohebu â’r achwynydd.

Safon 50: 3.40 Gofynion y safon yw bod pob ffurflen y mae sefydliad yn llunio at ddefnydd y cyhoedd yn cael ei llunio yn Gymraeg. Gofynnais gwestiwn ychwanegol ar 21/10/2020 i’r Cyngor oedd yn berthnasol i safon 50:

Gofynnais i’r Cyngor a oedd yna fersiwn Gymraeg o’r ffurflen Cynllun Tai Personol yn bodoli ar yr adeg y danfonwyd y fersiwn Saesneg at yr achwynydd, ac os



oedd, gofynnwyd iddynt ddarparu copi i mi o'r ffurflen Gymraeg hynny.

☐ Fe glywais yn ôl gan y Cyngor ar 27/10/2020.

Danfonwyd copi o'r ffurflen Gymraeg atai, gan nodi fod y cwestiynau a'r cynnwys yn cael ei deilwra at anghenion yr unigolyn. Nid yw'n 'ffurflen' gyhoeddus yn yr un modd a ffurflen budd-daliadau tai er enghraifft, ac felly, mae'n cael ei haddasu yn sgîl eu sgysiau gyda'r cleient.

☐ Roeddent yn nodi: "mae'r cwestiynau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ers cyn i'r gŵyn hon ddod drwyddo". Mae hyn yn golygu fod Cyngor Sir Gâr wedi cydymffurfio â safon 50, oherwydd bod y ffurflen gywir ar gael ar y pryd.

Safon 50A: Gofynion y safon yw pan fo sefydliad yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid iddynt sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. Mae'r ffurflen Saesneg a ddangosir fel tystiolaeth gan yr achwynydd heb destun arno yn nodi bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. Nid yw hyn yn cydymffurfio â'r safon. Felly, mae'r Cyngor wedi methu cydymffurfio â'r safon gan nad oedd unrhyw destun ar y ffurflen Saesneg yn nodi bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.

Safon 50B: Mae'r safon yn gofyn i gynnwys y deunydd a safon y deunydd beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol. Yn yr achos hwn nid oedd y ffurflen a dderbyniais yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol mewn unrhyw ffordd.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir Gar wedi methu â chydymffurfio â safon 1, 5, 50, 50A a 50B.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir Gar wedi methu â chydymffurfio â safon 1, 5, 50, 50A a 50B.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg Safon 1

1. Rhaid i Gyngor Sir Gâr atgoffa staff y Cyngor, gan gynnwys yr adran dai, ynghylch gofynion safon 1 a'r camau sy'n rhaid eu dilyn er mwyn cydymffurfio â'r safon.
2. Rhaid i Gyngor Sir Gâr wirio ac ail-ddanfon copi o'r canllawiau i staff y Cyngor, gan gynnwys yr adran dai, a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gynnwys y canllaw sydd yn bodoli.
3. Rhaid i Gyngor Sir Gâr ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Safon 5**

4. Rhaid i Gyngor Sir Gâr atgoffa staff y Cyngor, gan gynnwys yr adran dai, ynghylch gofynion safon 5 a'r camau sy'n rhaid eu dilyn er mwyn cydymffurfio â'r safon.
5. Rhaid i Gyngor Sir Gâr wirio ac ail-ddanfon copi o'r canllawiau i staff y Cyngor, gan gynnwys yr adran dai, a

chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gynnwys y canllaw sydd yn bodoli.

6. Rhaid i Gyngor Sir Gâr gynnal adolygiad o'r systemau amrywiol sydd yn cofnodi dewis iaith cleientiaid, eu cysoni, a sicrhau fod cofnod cywir o ddewis iaith cyfredol eu cleientiaid ganddynt. Mae hyn yn cynnwys gwirio unrhyw ddata a all fod wedi ei fewnbynnu o systemau o'r gorffennol a gwirio unrhyw osodiadau iaith di-ofyn.

7. Rhaid i Gyngor Sir Gâr ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 4, 5 a 6.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Safon 50A

8. Rhaid i Gyngor Sir Gâr atgoffa staff y Cyngor, gan gynnwys yr adran dai, ynghylch gofynion safon 50A a'r camau sy'n rhaid eu dilyn er mwyn cydymffurfio â'r safon.

9. Rhaid i Gyngor Sir Gâr wirio ac ail-ddanfôn copi o'r canllawiau i staff y Cyngor, gan gynnwys yr adran dai, a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gynnwys y canllaw sydd yn bodoli.

10. Rhaid i Gyngor Sir Gâr gynnal archwiliad o ffurflenni'r Cyngor, gan gynnwys yr adran dai, a sicrhau eu bod yn bodloni gofynion safon rhif 50A drwy sicrhau bod pob ffurflen Saesneg a gynhrychir at ddefnydd y cyhoedd yn dynodi ei bod ar gael yn Gymraeg.

11. Rhaid i Gyngor Sir Gâr ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 8,9 a 10.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Gar ar 14/04/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 10: Mae safon 10 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ddelio â galwadau ar ei brif linell ffôn yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os yw'r person yn dymuno hynny. Os oes angen trosglwyddo'r alwad i aelod arall o staff er mwyn delio â'r alwad, rhaid i'r aelod o staff hwnnw ddelio â'r alwad yn Gymraeg. Cysylltodd yr achwynydd â phrif rif ffôn Croeso Cymru, sef y rhif 03330 063001. Ni dderbyniodd gyfarchiad yn Gymraeg a gofynnodd am siaradwr Cymraeg. Dywedwyd wrthi nad oedd neb ar gael. Dywedodd Gweinidogion Cymru nad oeddent wedi derbyn unrhyw alwadau Cymraeg ar y 26/02/2020, a bod ganddo weithdrefn o roi cyfarchiad Cymraeg yn gyntaf cyn y Saesneg wrth ateb galwadau. Eglurodd pe ceir galwad gan siaradwr Cymraeg a bod y person sy'n delio â'r alwad ddim yn siarad Cymraeg, yr eglurir yn Saesneg nad ydynt yn siarad Cymraeg ac y bydd yr alwad yn cael ei throsglwyddo at siaradwr Cymraeg. Pan ffoniodd un o swyddogion y Comisiynydd linell ffôn Croeso Cymru, dywedodd y derbynnydd yn Saesneg nad oedd yn siarad Cymraeg. Mae hyn yn groes i ofynion safon 10.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

CSG714 Ar 26/02/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni iddi ffonio Croeso Cymru ar y rhif 03330 063001 am 11.56 ar 26/02/2020. Hon yw'r Linell Gwybodaeth Twristiaid. Honnai'r achwynydd na dderbyniodd gyfarchiad yn Gymraeg gan y person atebodd yr alwad. Gofynnodd am siaradwr Cymraeg ond doedd neb ar gael.

09/04/2021

Gweinidogion  
Cymru

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 10.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 10.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 10 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi cynllun gweithredu fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 10 mewn perthynas â delio â galwadau ffôn ble mae'r galwr yn dymuno gwasanaeth Cymraeg. Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Prif gamau'r broses wrth gynllunio'r gwaith
- Yr amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith
- Y gyllideb ar gyfer cwblhau'r gwaith os y bydd angen

2. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 09/04/2021.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.